Cardiff University
Prifysgol Caerdydd

# Adroddiad Blynyddol a Datganiadau Ariannol

## Y Flwyddyn a Ddaeth i Ben ar 31 Gorffennaf 2022



# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad Cadeirydd y Cyngor | **3** |
| Cynllun Strategol y Brifysgol | **4** |
| Adolygiad yr Is-Ganghellor | **6** |
| Tueddiadau Allweddol ym maes Addysg Uwch | **15** |
| Prif Bwyllgorau a Bwrdd Gweithredol y Brifysgol | **16** |
| Datganiad Cydnabyddiaeth Ariannol | **21** |
| Adolygiad Ariannol | **22** |
| Adroddiadau amgylcheddol | **25** |
| Datganiad o Fudd Cyhoeddus | **27** |
| Datganiad Llywodraethu Corfforaethol | **28** |
| Aelodaeth y Cyngor | **30** |
| Datganiad o Reolaethau Mewnol a Phrif Risgiau | **32** |
| Cyfrifoldebau Cyngor Prifysgol Caerdydd | **34** |
| Adroddiad Archwilwyr Annibynnol | **35** |
| Datganiadau Cyfunol a'r Sefydliad o Incwm Cynhwysfawr | **41** |
| Datganiadau Cyfunol a'r Sefydliad o Newidiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn | **42** |
| Datganiadau Cyfunol a'r Sefydliad o Sefyllfa Ariannol | **43** |
| Datganiad Cyfunol a'r Sefydliad o Lifoedd Arian | **44** |
| Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol | **45** |



Enw'r Elusen:
**Prifysgol Caerdydd**

Rhif Cofrestru'r Elusen:
**1136855**

Swyddfa Gofrestredig:
**Y Prif Adeilad**
**Parc Cathays**
**Caerdydd**
**CF10 3AT**

**www.caerdydd.ac.uk**



# Cyflwyniad Cadeirydd y Cyngor

Mae'r heriau y mae Prifysgol Caerdydd wedi'u hwynebu dros y 12 mis diwethaf wedi bod yn amrywiol ac yn anrhagweladwy. Tra oedd y pandemig yn parhau, daeth grymoedd allanol eraill fel costau byw ac effaith y rhyfel yn Wcráin i'r amlwg.

Yn ystod y cyfnod hwn, mae wedi bod yn fraint wirioneddol cael arwain y Cyngor.

Mae diolch yn ddyledus i'r Is-Ganghellor a Bwrdd Gweithredol y Brifysgol am barhau i lywio'r llwybr drwy'r pandemig gyda diogelwch ein cymuned ar flaen y gad yn eu gweithredoedd.

Gwnaethon nhw hefyd ymateb yn gyflym i'r sefyllfa yn Wcráin, gan addo £1 miliwn dros y tair blynedd nesaf i gefnogi academyddion a myfyrwyr yn y wlad sydd wedi cael eu heffeithio gan y rhyfel.

Cynyddodd y Brifysgol y gefnogaeth sydd ar gael i fyfyrwyr trwy ei chronfeydd caledi mewn ymateb i'r argyfwng costau byw. Rwy'n falch bod y Cyngor wedi gallu cymeradwyo'r cyllid hanfodol hwn sy'n golygu bod gan y myfyrwyr mwyaf anghenus fynediad at dros £1 miliwn mewn cymorth ychwanegol.

Dros y flwyddyn, parhaodd y Cyngor i ddarparu cefnogaeth gyson i nodau a gweledigaeth y Brifysgol. Daw'r cymorth hwnnw ar ffurf craffu a llywodraethu priodol ar strategaeth a gweithgareddau'r Brifysgol.

Cyfarfu'r Cyngor saith gwaith yn ystod y cyfnod, gyda thri chyfarfod arbennig a phedair sesiwn datblygu. Roedd y sesiynau datblygu hyn yn galluogi'r Cyngor i ganolbwyntio ar faterion fel yr argyfwng hinsawdd, iechyd a llesiant staff, ac effaith Covid-19 ar strategaeth y Brifysgol. Wrth i'r bygythiad a achosir gan bandemig Covid-19 ddod i ben, mae'r Cyngor bellach wedi cymeradwyo dychwelyd i adrodd yn llawn ar strategaeth y Brifysgol, gyda rhai gwelliannau i adlewyrchu Ail-lunio'r Ffordd Ymlaen. Bydd hyn yn rhoi dealltwriaeth lawnach i ni o berfformiad y Brifysgol yn ein byd ôl-bandemig.

Parhaodd y Cyngor i fonitro Cynllun Buddsoddi Cyfalaf y Brifysgol. Mae wedi bod yn werth chweil gweld Canolfan Bywyd y Myfyrwyr ac adeiladau Abacws yn gwbl weithredol a bellach yn rhannau annatod o gampws y Brifysgol. Yn ymuno â nhw, roedd sbarc/spark, adeilad o'r radd flaenaf yng nghanol Campws Arloesedd Caerdydd y Brifysgol sy'n dod ag ymchwilwyr gwyddorau cymdeithasol, entrepreneuriaid, egin fusnesau myfyrwyr a chwmnïau deillio academaidd ynghyd, a'r Ganolfan Ymchwil Drosiadol, cyfleuster gwerth miliynau o bunnoedd lle mae diwydiant a gwyddonwyr o fyd catalysis a lled-ddargludyddion cyfansawdd yn cydweithio i ddatrys heriau masnachol. Gyda'i gilydd, mae'r adeiladau anhygoel hyn yn buddsoddi yn ein pobl, ein lleoedd, a'n partneriaethau.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Cyngor wedi cymeradwyo nifer o benodiadau nodedig. Efallai mai'r peth mwyaf arwyddocaol yw'r daith i recriwtio Is-Ganghellor newydd pan fydd yr Athro Colin Riordan yn ymddeol ar ddiwedd blwyddyn academaidd 2023. Cymeradwyodd y Cyngor sefydlu Cydbwyllgor o'r Cyngor a'r Senedd fel rhan o hyn ac mae'r broses recriwtio bellach ar y gweill.

Ar lefel bersonol, ni allaf adael dathliadau graddio'r Brifysgol heb eu cydnabod. Ymunodd dosbarth 2020 a 2021 – y gohiriwyd eu seremonïau wyneb yn wyneb oherwydd Covid-19 – â dosbarth 2022 ar gyfer digwyddiad godidog, syfrdanol ar y campws ac yn Stadiwm Principality ym mis Gorffennaf.

Yn sgil Covid-19, roedd rhaid inni ymdopi â nifer o heriau na welwyd eu tebyg o'r blaen o ran y seremonïau eleni, a llwyddon ni'n ddigamsyniol yn hyn o beth. Aeth y Brifysgol yr ail filltir i sicrhau bod ein myfyrwyr a'u teuluoedd yn cael diwrnod gwirioneddol gofiadwy a oedd yn cyfateb i'w gwaith caled a'u cyflawniad.

Dyma oedd Prifysgol Caerdydd ar ei gorau, ac ar ran y Cyngor hoffwn gydnabod a diolch i bawb a oedd ynghlwm wrth drefnu popeth

**Patrick Younge**
Cadeirydd y Cyngor

# Cynllun Strategol y Brifysgol

## Y Ffordd Ymlaen 2018-2023: Ail-lunio Covid-19

Adolygodd y Brifysgol ei chynllun strategol mewn ymateb i Covid-19 ar ddechrau'r pandemig, gan addasu ei blaenoriaethau strategol i'r realiti newydd a wynebwyd gan gymdeithas. Mae'r Brifysgol yn ail-lunio ei strategaeth Ffordd Ymlaen fel y nodir isod.

Diben Prifysgol Caerdydd yw creu a rhannu gwybodaeth, ac addysgu er budd pawb. Bod yn un o brifysgolion mwyaf blaenllaw'r byd yw ein gweledigaeth, yn rhagorol o ran ymchwil ac addysg ac yn cael ei gyrru gan greadigrwydd a chwilfrydedd. Rydym am fod yn brifysgol sy'n cyflawni ei rhwymedigaethau cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd i Gaerdydd, i Gymru, i'r DU ac i'r byd.

Trwy wireddu ein gweledigaeth, ein hamcan yw bod ymhlith 100 o brifysgolion gorau'r byd ac 20 gorau'r DU. Rhaid inni flaenoriaethu iechyd a lles ein myfyrwyr a'n staff. I wneud hynny, rhaid inni fod yn gynaliadwy o safbwynt ariannol.

Wrth hyrwyddo blaenoriaethau cyd-ddibynnol ynghylch iechyd, lles a chynaliadwyedd ariannol, rhaid inni ofalu y bydd safon a hanfod ein gweithgarwch academaidd ac addysgol yn parhau i fod yn hollbwysig. Bydd yr amgylchiadau newydd yn effeithio'n fawr ar ein gwaith a'n ffordd o asesu cynnydd. Nid ein safle mewn tablau cynghrair fydd y mater pwysicaf bellach. Yn lle hynny, rhaid inni ofalu ein bod yn goroesi ac yn ffynnu.

### Ein gwerthoedd

Byddwn ni'n gweithredu yn ôl Egwyddorion Bywyd Cyhoeddus Nolan ac, ar ben hynny, yn cadw at y gwerthoedd canlynol: **annibyniaeth sefydliadol; rhyddid i ymholi; colegoldeb, arweinyddiaeth a rheolaeth; cydraddoldeb, amrywioldeb a chynhwysiant; cynaliadwyedd amgylcheddol; cadernid ariannol; a chenhadaeth ddinesig**.

### Addysg a myfyrwyr

Byddwn ni'n ailbennu blaenoriaethau i gynnig cymaint o brofiad ag y bo modd i'n myfyrwyr yn ystod argyfwng Covid-19, gan gadw ein safonau academaidd a'n gonestrwydd.

**Amgylchedd dysgu**: Byddwn ni'n parhau â'n bwriad i wella'r addysgu ar y we a'r trefniadau cymysg i ofalu ein bod yn ddigon hyblyg i gynnal rhaglenni.

**Profiad myfyrwyr**: Gwella profiad y myfyrwyr, cadw ein myfyrwyr a'u deilliannau llwyddiannus fydd blaenoriaethau'r Brifysgol o hyd.

**Llwyddiant myfyrwyr**: Bydd gwaith er gyrfaoedd a medrau yn parhau. Bydd y Brifysgol yn parhau â'r cynllunio a'r gweithredu ynghylch ei Strategaeth Ehangu Cyfranogiad sydd newydd ei llunio. Bydd y gwaith hwnnw'n parhau, gan gefnogi myfyrwyr â chefndir economaidd-gymdeithasol difreintiedig ac sydd wedi cael addysg anghyflawn i ymgysylltu, cyflawni a llwyddo ym Mhrifysgol Caerdydd.

**Rhagoriaeth addysgu:** Byddwn ni'n parhau i helpu academyddion a'r rhai sy'n ymwneud â dysgu ac addysgu, ac mae cynnydd ynghylch Fframwaith Datblygu Proffesiynol Parhaol academyddion ac achrediad Advance HE, er y gallai fod angen newid amserlenni'r gweithredu.

**Safonau academaidd**: Y flaenoriaeth yn y maes hwn fydd cynnal safonau academaidd gan fod amrywio sylweddol o ganlyniad i Covid-19.

### Cenhadaeth ddinesig

Fel ymateb Prifysgol Caerdydd i anawsterau cymdeithasol mwyaf yr 20fed ganrif, mae'r argyfwng cymdeithasol ac iechyd presennol yn sgil y coronafeirws yn peri i'r Brifysgol adlunio ei chenhadaeth ddinesig i helpu'r llywodraeth, y gwasanaethau iechyd a'r gymdeithas ehangach i adfywio ac adnewyddu tirwedd economaidd, cymdeithasol a diwylliannol Cymru.

Bydd yn hollbwysig helpu i greu swyddi o achos effaith economaidd y feirws. Mae arloesi mewn addysg yn amlycach nag erioed a byddwn yn parhau â'n cyfraniadau i hyn. Bydd ein partneriaeth â'r GIG yn bwysicach o lawer. Byddwn yn parhau i geisio gwella diwylliant Cymraeg ein campws yn unol â'n strategaeth newydd dros yr iaith.



## Rhyngwladol

Byddwn yn cynnal a meithrin cysylltiadau rhyngwladol fel y byddwn ni mewn sefyllfa dda yn y dyfodol.

Byddwn ni'n ystyried faint y gallwn ni fanteisio ar newidiadau presennol yn yr arferion dysgu ac addysgu o ran teithio rhyngwladol, a bydd llai o deithio rhyngwladol ar gyfer cynadleddau ac ymweliadau.

Byddwn ni'n parhau i ganolbwyntio ar gynnal a meithrin o hirbell gysylltiadau cryf â phrifysgolion sy'n bartneriaid inni ledled y byd.

Byddwn ni'n addasu rhaglen ryngwladol ysgolion yr haf yn ôl amgylchiadau cyfnewidiol gan newid y cyflwyno fel y bo angen. Byddwn ni'n parhau i helpu ein staff i drefnu cydweithio rhyngwladol a fydd yn arwain at lwyddiant gan fod arian ar gyfer ymchwil yn brin ledled y byd.

## Ymchwil

Byddwn ni'n lleddfu effaith gyfredol Covid-19 ar ymchwil trwy annog staff i ganolbwyntio ar ymchwil mae modd ei chynnal o hirbell. Byddwn ni'n ystyried cryfhau'r cymorth i staff ac ôl-raddedigion ymchwil yn ôl sefyllfa ariannol y Brifysgol.

Byddwn yn lleihau effeithiau ariannol posibl Covid-19 ar ein hymchwil drwy weithio'n agos gyda chyllidwyr, partneriaid allanol a llywodraethau i sicrhau deilliannau ymchwil y gellir eu cyflawni, yn ogystal ag ystyried darparu arian cyfatebol i fodloni ymrwymiadau ymchwil. Byddwn ni'n ailystyried ein strategaeth ymchwil yng ngoleuni heriau hirdymor i gynaliadwyedd ariannol ymchwil a maint a chyfeiriad tebygol cyllid ymchwil yn y dyfodol ar ôl Covid-19.

## Arloesedd

Rydym wedi gorffen ein prosiectau adeiladu sy'n ymwneud ag ymchwil, yn ogystal â Champws Arloesedd Caerdydd, i fod mewn sefyllfa effeithiol i fanteisio ar gyfleoedd i adfywio ac adnewyddu wedi Covid-19. Mae hyn yn cynnwys ailweithio achosion busnes ar gyfer ein prosiectau arloesi mawr i sicrhau bod y rhain yn cyd-fynd â chyfleoedd ariannu newydd a'u bod wedi'u lleoli'n strategol.

Byddwn ni'n cydweithio'n agos â'r awdurdodau lleol, Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, y trydydd sector a Llywodraeth Cymru i lunio mentrau strategol mawr a all fod o fudd sylweddol i economi'r rhanbarth. Bydd hyn yn cynnwys datblygu rhagor o gydweithio â'r sectorau preifat a chyhoeddus ar gyfer byd ar ôl Covid-19, yn unol â blaenoriaethau'r DU o ran ymchwil a datblygu.

## Asesu ein cynnydd

O hyn ymlaen, wrth inni ddysgu byw gyda'r bygythiad a berir gan Covid-19, byddwn yn parhau i gael ein harwain gan ein strategaeth ail-lunio a monitro'r ffactorau llwyddiant hanfodol ynddi, ond yn y flwyddyn i ddod, byddwn hefyd yn troi ein sylw at adrodd yn erbyn set well ac ehangach o ddangosyddion perfformiad allweddol.

Rhaid inni ddal i ganolbwyntio'n strategol ar y canlynol: **iechyd a llesiant ein staff a'n myfyrwyr; cynaliadwyedd ariannol, yn enwedig incwm trwy ffioedd, y sylfaen costau a'r arian sydd ar gael; boddhad a phrofiad myfyrwyr; grantiau a chontractau ymchwil; a'n cenhadaeth ddinesig a'n cyfraniad at achub, adfywio ac adnewyddu.**

# Adolygiad yr Is-Ganghellor

## Er i Covid-19 barhau i effeithio ar ein gweithgareddau o ddydd i ddydd yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn academaidd, erbyn yr ail semester roedd y sefyllfa wedi gwella'n fawr er gwaethaf tonnau parhaus Omicron.

Parhaodd rhywfaint o ddysgu cyfunol, ond croesawyd y symudiad i ddefnyddio ein gofodau addysgu i'r eithaf gan ein myfyrwyr. Nid ydym yn hunanfodlon, fodd bynnag, a bydd rhagofalon megis awyru llawer gwell yn parhau i fod ar waith nes bod y risg wedi lleihau ymhellach.

Ar ôl bron i ddwy flynedd o chwarae rhan ganolog wrth gadw ein campws yn ddiogel, daeth ein Gwasanaeth Sgrinio Covid-19 i ben. Ni oedd un o'r rhai cyntaf i gynnig profion asymptomatig rhad ac am ddim ar gyfer staff a myfyrwyr ymhlith y nifer cymharol isel o brifysgolion yn y DU a gynigiodd y gwasanaeth hwn yn y pen draw. Dyma beth wnaeth ein galluogi ni i ddeall sut roedd coronafeirws yn datblygu yng Nghaerdydd a chyhoeddi rhybuddion cynnar a helpodd i fynd i'r afael ag achosion cyn gynted â phosibl. Hoffwn fynegi diolchgarwch y Brifysgol gyfan i bawb a oedd yn ymwneud â'r gwasanaeth. Yr oedd yn llwyddiant ysgubol ac yn gyflawniad y gallwn fod yn falch ohono gyda'n gilydd.

Cadarnhawyd ein safle fel un o brifysgolion ymchwil-ddwys mwyaf blaenllaw'r DU ym mis Mai pan ryddhawyd canlyniadau Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF) 2021. Beirniadwyd bod 90% o'r ymchwil a gyflwynwyd gennym yn arwain y byd neu'n rhyngwladol-ragorol. Byddaf yn siarad mwy am y canlyniadau hyn nes ymlaen, ond maent yn golygu y gallwn droi ein meddyliau at gyfeiriad ymchwil yng Nghaerdydd yn y dyfodol gyda gobaith a hyder, gan wybod y byddwn yn parhau i weithio gyda'n gilydd i greu ymchwil sy'n wirioneddol bwysig.

Talodd ein ffocws ar brofiad myfyrwyr ar ei ganfed hefyd. Yn sgil canlyniad gwell yn yr Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr (NSS), cynyddodd ein sgôr o ran Boddhad Cyffredinol dros dri phwynt canran. Ar un olwg, efallai nad yw hynny'n ymddangos yn naid enfawr, ond symudon ni o flaen prifysgolion eraill yn y sector, prifysgolion eraill yng Nghymru a nifer o brifysgolion yng Ngrŵp Russell.

Daeth y flwyddyn academaidd i ben gyda dathliad graddio uchelgeisiol. Ymunodd dosbarthiadau 2020 a 2021, a oedd wedi gweld eu seremonïau graddio yn cael eu gohirio oherwydd cyfyngiadau Covid-19, â dosbarth 2022 ar gyfer cyfres wych o ddigwyddiadau i nodi eu cyflawniadau. Heb os, hon oedd yr enghraifft odidocaf o waith tîm ar raddfa fawr imi ddod ar ei thraws erioed, ac rwy'n hynod falch o bawb a chwaraeodd ran. Roedd gwireddu'r digwyddiad enfawr hwn a sicrhau iddo ddwyn ffrwyth yn dal yr ymroddiad a'r ymrwymiad sydd gennym i'n myfyrwyr a'n graddedigion.



Yr hyn sy'n dilyn nesaf yw rhywfaint o uchafbwyntiau'r flwyddyn ddiwethaf o bob cwr o'r Brifysgol, gan ddisgrifio'r cynnydd yn ôl ein strategaeth ac amlinellu rhai o'r peryglon mawr y bydd y Brifysgol yn eu hwynebu yn y dyfodol agos.

# Addysg

Unwaith eto, yn wyneb y coronafeirws, mae ein myfyrwyr wedi dangos gwytnwch rhyfeddol.

Mae’r genhedlaeth hon o fyfyrwyr wedi cael cyfnod anodd iawn ohono drwy’r pandemig a bydd angen ein cefnogaeth arnynt o hyd am beth amser i ddod. Roedd ein ffocws strategol yn gwbl briodol ar brofiad myfyrwyr trwy gydol y flwyddyn ac, i’r perwyl hwnnw, mae wedi bod yn galonogol gweld Canolfan Bywyd y Myfyrwyr yn cael ei defnyddio mor dda gan ein myfyrwyr. Yn ogystal â chynnig cymorth ymarferol iawn, a bod yn gartref i fyfyrwyr rhwng dosbarthiadau, mae’r Ganolfan yn symbol gwych o bwysigrwydd lles, llesiant a chynnydd academaidd ein myfyrwyr i ni..



## Gwasanaeth iechyd meddwl newydd i fyfyrwyr yn cael ei lansio

Dechreuodd Partneriaeth Iechyd Meddwl De-ddwyrain Cymru, a ariennir gan CCAUC, ar ei gwaith, gan alluogi ein myfyrwyr, ynghyd â myfyrwyr o brifysgolion eraill yn y ddinas, i gael eu hatgyfeirio at dîm iechyd meddwl y GIG yng Nghanolfan Bywyd y Myfyrwyr.

Mae’r gwasanaeth yn sicrhau bod cynnig asesiad clinigol a thriniaeth amserol a phriodol i fyfyrwyr ar gyfer achosion nad ydynt yn rhai brys. Bydd hefyd yn galluogi pawb sy’n ymwneud â chynorthwyo achosion myfyrwyr i gyfathrebu â’i gilydd yn haws. Mae hwn yn gam mawr ymlaen i’n myfyrwyr ac yn bluen yn het ein tîm Bywyd Myfyrwyr a’n holl bartneriaid.



## Gwaith yn dechrau ar ganolfan chwaraeon y Brifysgol

Dechreuodd y gwaith ar gyfleusterau newydd sbon o’r radd flaenaf ar ein meysydd chwaraeon yn Llanrhymni. Bydd y gwaith yn gweddnewid y safle hwn i fod ymysg y ddarpariaeth chwaraeon orau yn y DU.

Mae’r prosiect – partneriaeth rhwng y Brifysgol, Cyngor Caerdydd a Thŷ Chwaraeon Dinas Caerdydd – yn rhoi hwb mawr ei angen i brofiad chwaraeon ein myfyrwyr. Mae’n golygu y bydd mwy o fyfyrwyr yn gallu elwa ar weithgareddau y gwyddom y gallant helpu i wella a chynnal iechyd meddwl, hybu cyflawniad academaidd, a gwella eu rhagolygon wrth chwilio am swyddi.



## Myfyrwyr yn Achub Bywydau

Lansiodd grŵp o’n myfyrwyr meddygaeth ym Mhrifysgol Caerdydd gynllun cyntaf o’i fath yn y byd, yn eu barn nhw, sy’n addysgu sgiliau achub bywydau i fyfyrwyr.

Mae Myfyrwyr yn Achub Bywydau yn arfogi myfyrwyr â hanfodion adfywio cardio-pwlmonaidd (CPR). Fe’i cyflwynwyd ar draws y Brifysgol, gyda’r gobaith y gellid ei ehangu yn y pen draw i sefydliadau ledled Cymru.

## Rhaglen gradd feddygol Gogledd Cymru yn dyblu’r nifer a dderbynnir



Bydd mwy o fyfyrwyr meddygol yn astudio ar gyfer eu gradd yng ngogledd Cymru ar ôl ehangu rhaglen hyfforddi’r rhanbarth.

Mae rhaglen C21 Gogledd Cymru, a gyflwynir mewn partneriaeth rhwng Prifysgol Caerdydd a Phrifysgol Bangor, yn caniatáu i fyfyrwyr astudio yn y Gogledd a bydd mwy o ffocws ar feddygaeth gymunedol ac ystod eang o leoliadau gan gynnwys blwyddyn lawn mewn meddygfa deulu. Ehangodd Llywodraeth Cymru, sy’n ariannu’r fenter, y nifer a dderbynnir o 20 o fyfyrwyr i 40 o fyfyrwyr yn 2022.



## Myfyrwyr yn rhan o dîm adrodd y BBC ar gyfer COP26

Lluniodd dau fyfyriwr o’n Hysgol Newyddiaduraeth, y Cyfryngau a Diwylliant straeon gwreiddiol ar newid hinsawdd a chynaliadwyedd fel rhan o ddarllediadau COP26 y BBC.

Dewiswyd Nel Richards a Chloe Blissett o blith mwy na 500 o ymgeiswyr i fod yn rhan o’r tîm sy’n gweithio ar adrodd ar 26ain Cynhadledd Partïon y Cenhedloedd Unedig ar Newid Hinsawdd.

# Ymchwil

Fel y soniais eisoes, yn ystod y flwyddyn academaidd ddiwethaf, rhyddhawyd canlyniadau yr ymarfer REF. Mewn newyddion da iawn i Gaerdydd, roedd y Brifysgol yn y 14eg safle yn y DU o ran pŵer ymchwil ac yn y 19eg safle o ran ansawdd.

Rydym yn yr 11eg safle am gyrhaeddiad ac arwyddocâd ein heffaith, ac yn yr 16eg safle am ein hamgylchedd a'n diwylliant. Mae 10 o'n 23 o gyflwyniadau yn y chwartel uchaf o ran perfformiad cyffredinol. Mae 13 o'n 23 o gyflwyniadau yn y chwartel uchaf o ran effaith ymchwil.

Ein Dangosydd Perfformiad Allweddol ar gyfer REF oedd cyrraedd y 12fed safle o ran pŵer ymchwil (y cyfuniad o ansawdd a maint). Roedd hwn wastad yn mynd i fod yn her, a gallwn fod yn hapus iawn ein bod yn y 14eg safle ar gyfer y mesur hwnnw, o gymharu â'r 18fed safle y tro diwethaf.



## Mae astudiaeth o bwys yn datgelu genynnau newydd sy'n gysylltiedig â risg uwch o ddatblygu clefyd Alzheimer

Gwnaeth astudiaeth ryngwladol newydd o bwys sy'n cynnwys ymchwilwyr o'r Brifysgol adnabod 75 o enynnau sy'n gysylltiedig â risg uwch o ddatblygu clefyd Alzheimer, gan gynnwys 42 o enynnau newydd nad oeddent wedi cael eu cysylltu â'r cyflwr o'r blaen.

Darparodd yr astudiaeth dystiolaeth gymhellol hefyd i gefnogi rôl ar gyfer llid a'r system imiwnedd yn y clefyd.



## Gwyddonwyr yn defnyddio brechiad i drin Covid-19 yn llwyddiannus am y tro cyntaf

Defnyddiodd meddygon frechiad i drin claf â Covid-19, a hynny'n llwyddiannus; ystyrir hyn i fod y tro cyntaf i'r brechiad gael ei ddefnyddio ar gyfer therapi yn hytrach nag atal neu liniaru cyn haint.

Profodd y claf, sydd ag imiwnoddiffygiant genetig prin, yn bositif am Covid-19 am saith mis a hanner ar ôl dal y feirws. Cafwyd gwared ohono yn llwyr o'i system yn y pen draw, wedi i glinigwyr o Ganolfan Imiwnoddiffygiant Cymru ddefnyddio dau ddos o'r brechiad Pfizer i'w drin, tra bu gwyddonwyr o Brifysgol Caerdydd yn monitro ymateb ei system imiwnedd.



## Gwyddonwyr yn rhoi esboniad am y tswnami eithriadol a ddigwyddodd yn Tonga

Nododd tîm rhyngwladol, gan gynnwys gwyddonwyr o'r Brifysgol, yr union fecanwaith a oedd yn gyfrifol am y tswnami eithriadol a ledaenodd yn gyflym ar draws y byd ar ôl ffrwydrad anferthol llosgfynydd Tonga.

Maent yn dweud bod tonnau disgyrchiant acwstig, a ysgogwyd gan y chwyth folcanig pwerus, wedi teithio i'r atmosffer ac ar draws y cefnfor. Wrth i'r tonnau hyn gyfuno â'i gilydd, cafodd ynni ei bwmpio'n barhaus i'r tswnami, gan achosi iddo dyfu'n fwy a theithio'n llawer pellach, yn llawer cyflymach ac am hirach o lawer.

# Rhyngwladol

Rydym wedi creu a chynnal perthnasoedd cryf â'n prifysgolion partner rhyngwladol drwy ddulliau o bell, ac, wrth i'r byd agor eto, yn wyneb yn wyneb.

Gwnaethom barhau hefyd i gefnogi ein staff i ddatblygu cydweithrediadau rhyngwladol yn wyneb y dirwedd ariannu ymchwil ryngwladol newidiol.

Mewn tro hynod gythryblus o ddigwyddiadau, mae cysylltiadau rhyngwladol, yr economi ac, yn y pen draw, bywydau a bywoliaeth dinasyddion yn Ewrop a thu hwnt wedi cael eu heffeithio gan ymosodiad Rwsia ar Wcráin. Yn yr un modd â llawer o brifysgolion ledled y byd, gwnaethom gondemnio, a hynny mewn ffordd ddigamsyniol, ymosodiad trychinebus Rwsia yn Wcráin. Gwnaethom gyhoeddi deg ysgoloriaeth israddedig a deg ysgoloriaeth ôl-raddedig ar gyfer ymgeiswyr Wcreinaidd ar gyfer y flwyddyn academaidd 2022-23 ac rydym yn gweithio gyda'r Cyngor Academyddion Mewn Perygl i gefnogi academyddion Wcreinaidd sy'n ceisio lloches yn y wlad.

I gyd-fynd â hyn, rydym yn adolygu ein cynllun ysgoloriaethau presennol ar gyfer ceiswyr lloches i sicrhau ei fod yn ddigon cadarn a hyblyg i helpu'r rhai sy'n cael eu dadleoli gan wrthdaro ledled y byd.



## Partneriaeth â Phrifysgol Normal Beijing yn arwain at raddedigion cyntaf â gradd ddeuol

Mewn rhaglen arloesol a sefydlwyd gyda Phrifysgol Normal Beijing, graddiodd y garfan gyntaf o fyfyrwyr eleni gyda gradd ddeuol.

Er bod y rhan fwyaf o brifysgolion yn y DU yn gartref i niferoedd mawr o fyfyrwyr Tsieineaidd, mae'n llawer prinnach i fyfyrwyr o'r DU astudio yn Tsieina.

Mae'r rhaglen arloesol hon yn caniatáu i fyfyrwyr astudio Mandarin a phynciau eraill sy'n gysylltiedig â Tsieina am ddwy flynedd yn y Coleg ar y Cyd yng Nghaerdydd, cyn treulio dwy flynedd yn perffeithio eu sgiliau a'u gwybodaeth yn Beijing. Mae'r lefelau hyn o sgiliau ac arbenigedd yn hanfodol i ddyfodol y wlad hon a bydd galw mawr am ein graddedigion.



## Partneriaeth strategol gyda Phrifysgol Waikato

Mae cyfleoedd rhyngwladol yn cael eu datblygu rhwng Caerdydd a Phrifysgol Waikato yn Seland Newydd fel rhan o bartneriaeth strategol newydd.

Llofnodwyd y cytundeb mewn digwyddiadau a gynhaliwyd ar yr un pryd yn y ddwy brifysgol, ac mae'n adeiladu ar gytundeb Cyfnewid Myfyrwyr llwyddiannus rhwng y ddau sefydliad.



## Prifysgol Caerdydd yn cefnogi Taith, rhaglen gyfnewid ryngwladol Cymru

Yn y Brifysgol, mae corff gweithredol rhaglen Taith Llywodraeth Cymru.

Dyma raglen gyfnewid dysgu ryngwladol newydd sydd â'r pŵer i helpu myfyrwyr i ddilyn llwybrau gyrfa newydd. Nod Taith yw helpu 15,000 o ddysgwyr a staff o Gymru i fynd dramor, a 10,000 o ddysgwyr a staff dramor i ddod i Gymru, er mwyn gweithio neu astudio. Mae'n cymryd lle rhaglen Erasmus+ oherwydd ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd.



## Cefnogi prifysgolion Wcráin

Mae Prifysgol Caerdydd yn gefeillio â Phrifysgol Genedlaethol Coleg Polytechnig Zaporizhzhia i ddarparu cymorth hanfodol i staff a myfyrwyr Wcreinaidd, gan eu galluogi i barhau â'u dysgu a'u hymchwil ac i osod y sylfaen ar gyfer cydweithrediad hirdymor cyfoethog rhwng y ddau sefydliad.

# Arloesedd

Mae agoriad ein hadeilad arloesi newydd, sbarc / spark, yn cwblhau ein Campws Arloesedd Caerdydd, ac yn cyflawni ein gweledigaeth strategol bod arloesi yn rhywbeth sy'n croesi'r campws, yn deillio o'r cydadwaith rhwng syniadau, pobl a chyfleusterau.

Mae'r adeilad hardd hwn yn gartref addas ar gyfer yr holl waith er budd y cyhoedd yn y gwyddorau cymdeithasol yr ydym yn ymgymryd ag ef. Gyda chwblhau'r campws hwn, rydym wedi gosod ein hunain yn effeithiol yn unol â chyfleoedd adfywio ac adnewyddu ar ôl Covid-19 yng Nghymru a'r DU.




## Creu canolfan ragoriaeth ar gyfer ymchwil glinigol

Gwnaeth Swyddfa Ymchwil ar y Cyd Caerdydd, sef cydweithrediad rhwng y Brifysgol a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, agor yn swyddogol.

Mae'r swyddfa newydd yn cefnogi dull ar y cyd o ddatblygu a darparu ymchwil gofal iechyd a'i nod yw gwneud prifddinas Cymru yn un o'r lleoedd gorau yn y DU ar gyfer ymchwil glinigol.



## Canolfan arloesedd seiber dan arweiniad Caerdydd i dderbyn £9.5 miliwn

Mae cynnig i sefydlu Canolfan Arloesedd Seiber wedi denu cyllid gan Lywodraeth Cymru a Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.

Disgwylir y bydd y buddsoddiad ar y cyd, mewn Canolfan Arloesedd Seiber dan arweiniad Prifysgol Caerdydd, yn sbarduno trawsnewid a thwf clwstwr seiberddiogelwch yn Ne Cymru. Mae'r clwstwr yn cyd-fynd â'n strategaeth arloesedd, gan ysgogi partneriaethau masnachol a sector cyhoeddus hirsefydlog i ddatblygu heriau a arweinir gan y farchnad, cyflwyno eiddo deallusol, hyrwyddo cynhyrchion seiber newydd a chwmnïau sy'n tyfu'n gyflym, a datblygu cronfa dalent sy'n bwydo'n uniongyrchol i'r clwstwr.



## Clwstwr yn dathlu llwyddiant pobl greadigol yn Ne Cymru

Gwnaeth Clwstwr, rhaglen gwerth miliynau o bunnoedd i hybu arloesedd yn y diwydiannau sgrin, ddathlu gwaith mwy na 100 o brosiectau sydd wedi elwa at y cyllid hwn.

Yn rhaglen ymchwil a datblygu, mae wedi cefnogi gweithwyr llawrydd, busnesau bach a sefydliadau mwy yn Ne Cymru i archwilio ffyrdd newydd o weithio a threialu cynhyrchion a gwasanaethau newydd.



## Cyflymu syniadau disglair Caerdydd

Bydd syniadau gorau, disgleiriaf a mwyaf arloesol Prifysgol Caerdydd yn elwa ar £3 miliwn o gyllid i gyflymu'r broses o gyfnewid, gweddnewid a masnacheiddio gwybodaeth.

Bydd y cyllid gan Gyfrif Cyflymu Effaith Ymchwil ac Arloesi yn y DU yn cefnogi'r gwaith o weddnewid ymchwil cyfnod cynnar y DU i greu swyddi newydd, trawsnewid gwasanaethau cyhoeddus,



denu buddsoddiad preifat, a chreu partneriaethau newydd gyda busnesau ac elusennau.

## Sefydliad Iechyd y Byd yn cymeradwyo Model Caerdydd

Mae Sefydliad Iechyd y Byd yn galw ar lywodraethau byd-eang i fabwysiadu Model Caerdydd ar gyfer Atal Trais y DU.

Dan arweiniad yr Athro Jonathan Shepherd, mae'r model yn dod ag asiantaethau ynghyd i atal trais drwy ddefnyddio data a gesglir gan adrannau brys yn ogystal â gwybodaeth yr heddlu.

# Cenhadaeth Ddinesig a Chynaliadwyedd

Cyflawnwyd un o'r cerrig milltir allweddol yn ein strategaeth cenhadaeth ddinesig eleni pan agorwyd Pafiliwn Grange.

Y Pafiliwn yw canolbwynt y Prosiect Porth Cymunedol ac roedd yn un o'n Prosiectau Ymgysylltu Blaenllaw gwreiddiol ar gyfer y Ffordd Ymlaen. Mae wedi trawsnewid hen bafiliwn bowlio i fod yn ganolbwynt llewyrchus o weithgarwch ar gyfer y gymuned.

Mae'n enghraifft ragorol o sut mae'n bosibl, trwy weithio gyda'r gymuned leol a gwneud y Genhadaeth Ddinesig yn rhan o strategaeth y Brifysgol, ymgysylltu ag ysgolion, asiantaethau lleol ac, yn anad dim, aelodau o'n cymunedau lleol wrth gydweithio i wneud newid a gwelliannau gwirioneddol sydd o fudd i bawb.



## Lansio Llais y Rhiant Caerdydd i gynyddu nifer y disgyblion mewn cymunedau lleol sy'n mynd i'r brifysgol

Mae grŵp i rieni wedi cael ei lansio i hybu mynediad prifysgol i fyfyrwyr lleol.

Menter ar y cyd rhwng Prifysgol Caerdydd a The Brilliant Club, elusen yn y DU yw Llais y Rhiant, Caerdydd. Bydd rhieni'n sbarduno nodau'r rhwydwaith, gan ddefnyddio ein harbenigedd a'n cefnogaeth i fynd i'r afael â'r heriau neu'r rhwystrau posibl i addysg uwch.



## Ysgoloriaethau newydd i fyfyrwyr Prydeinig du difreintiedig

Rydym yn cydweithio â Sefydliad Ysgoloriaethau Cowrie i gynnig ysgoloriaethau i fyfyrwyr Du Prydeinig dan anfantais ariannol.

Bydd y Brifysgol yn talu ffioedd dysgu gyda'r Sefydliad yn darparu cyllid i dalu costau cynhaliaeth a byw trwy roddwyr busnes ac unigol, ynghyd â mentora, modelau rôl, a rhaglenni gwydnwch ar gyfer myfyrwyr ysgoloriaeth i sicrhau eu bod yn gwneud y gorau o'u cyfleoedd astudio.



## Lloc o'r Oes Efydd yn taflu goleuni ar drigolion cynharaf Caerdydd

Mae gwaith cloddio archeolegol mewn parc yn y ddinas wedi datgelu'r hyn a allai fod y tŷ cynharaf i'w ddarganfod yng Nghaerdydd.

Dechreuodd Prosiect Treftadaeth Ailddarganfod Caerau a Threlái (CAER), sef partneriaeth rhwng y Brifysgol, Gweithredu yng Nghaerau a Threlái, ysgolion lleol, trigolion, a phartneriaid treftadaeth, waith cloddio ym Mharc Trelái. Mae eu darganfyddiad yn taflu goleuni ar rai o drigolion cynharaf Caerdydd.



## Dathlu Llwyddiant Prifysgol Plant

Cynhaliodd ein Canolfan Bywyd y Myfyrwyr seremoni raddio ar gyfer plant ysgol o bob rhan o'r ddinas.

Gwisgodd y disgyblion o bedair ysgol gynradd gapiau a gwisgoedd academaidd traddodiadol i nodi eu bod wedi cwblhau cynllun newydd a gynlluniwyd i annog a datblygu cariad at ddysgu.

# Cefnogi Caerdydd

Rydym yn ddiolchgar iawn i'n rhoddwyr, codwyr arian a gwirfoddolwyr, sy'n parhau i ddangos eu cefnogaeth trwy roddion a chymynroddion hael, a thrwy roi o'u hamser a'u harbenigedd.

Yn y cyfnod heriol hwn, mae cefnogaeth ein cymuned wych o gynfyfyrwyr a ffrindiau yn amhrisiadwy wrth helpu i hyrwyddo cenhadaeth Prifysgol Caerdydd i greu a rhannu gwybodaeth, ac i addysgu er budd pawb.

Mae'r gefnogaeth a gawn trwy roddion ac addewidion yn gwneud ymchwil o'r radd flaenaf yn bosibl ac yn sicrhau bod y myfyrwyr gorau a mwyaf disglair yn gallu cael mynediad at yr addysg a'r cyfleoedd y maent yn eu haeddu.

Mae ein gwirfoddolwyr, y mae llawer ohonynt yn gynfyfyrwyr, yn chwarae rhan hanfodol wrth gefnogi'r genhedlaeth nesaf o fyfyrwyr Caerdydd. Eleni, maent wedi rhannu eu profiadau a'u gwybodaeth yn hael trwy ddiwrnodau agored a digwyddiadau i ddeiliaid cynigion a thrwy rannu eu straeon. Maent hefyd wedi darparu sesiynau mentora, sgyrsiau gyrfa ac interniaethau i helpu myfyrwyr i ddatblygu'r sgiliau a'r profiad sydd eu hangen arnynt ar gyfer bywyd ar ôl y brifysgol.

Gwnaeth ein codwyr arian #TîmCaerdydd, y mae eu hymdrechion yn cefnogi ymchwil sy'n newid bywydau ym maes niwrowyddoniaeth, iechyd meddwl a chanser ym Mhrifysgol Caerdydd, groesawu dychweliad digwyddiadau wyneb yn wyneb, gan gynnwys Hanner Marathon Caerdydd, a gafodd ei aildrefnu, a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2022. Roeddem yn hynod ddiolchgar i'r cannoedd o gynfyfyrwyr, staff a myfyrwyr a gymerodd ran, yn ogystal â'r rhai a drefnodd eu heriau a'u digwyddiadau codi arian eu hunain.

Diolch o galon i bawb a gefnogodd ni eleni.

# Dros £6 miliwn

## Sicrhawyd dros £6 miliwn o gronfeydd newydd* gan fwy na 531 o roddwyr a chodwyr arian, gan gynnwys 30 o sefydliadau

Mae eu cymorth yn gwneud ymchwil o safon fyd-eang yn bosibl ac yn rhoi cyfleoedd i fyfyrwyr dawnus ffynnu. (*Gan ddefnyddio diffiniadau CASE-Ross).

# £500,000

## Cafodd £500,000 ei addo gan Sefydliad Wolfson

Yn gefnogwr hirsefydlog o Brifysgol Caerdydd, bydd yr anrheg hon yn adeiladu ystafell lân newydd lle gall ffisegwyr Caerdydd helpu i ddatblygu a chreu'r dyfeisiau mesur coeth sy'n cynnwys arsyllfeydd Tonnau Disgyrchol byd-eang – gan ganiatáu archwilio rhai o'r problemau mwyaf heriol ym maes ffiseg heddiwy.

# £507,000

## Rhoddwyd £507,000 yn hael drwy roddion mewn ewyllysiau

Mae'r anrhegion hyn yn arwain at effeithiau pellgyrhaeddol er lles cenedlaethau o fyfyrwyr y dyfodol ac yn hwyluso ymchwil a allai achub, newid a gwella bywydau yng Nghymru a'r tu hwnt.

# 8,842

## Rhoddwyd 8,842 o oriau gwirfoddoli gan gymuned cynfyfyrwyr Caerdydd

Roedd ein cymuned fyd-eang o gynfyfyrwyr yn cefnogi myfyrwyr y dyfodol a myfyrwyr presennol, yn ogystal â'u cyd-gynfyfyrwyr, trwy rannu eu profiad a'u harbenigedd. Rhoddodd cynfyfyrwyr o'u hamser i gefnogi digwyddiadau recriwtio a chynnig sesiynau mentora ac arweiniad gyrfa, yn ogystal â helpu i adeiladu rhwydweithiau ac agor drysau.

# £68,700

## Codwyd £68,700 gan 262 o godwyr arian #TîmCaerdydd

Daeth #TîmCaerdydd ymlaen gyda'r rhai sy'n codi arian i ymgymryd â heriau fel Hanner Marathon Caerdydd ym mis Mawrth 2022, Marathon Llundain, a Her Genedlaethol y Tri Chopa. Trefnodd ein codwyr arian eu digwyddiadau a heriau codi arian eu hunain hefyd, i helpu i gyflymu darganfyddiadau sy'n newid bywydau i wella atal, diagnosis a thriniaeth i bobl sy'n byw gydag ystod eang o gyflyrau.

# 81 aelod

## Bu 81 o aelodau Cylch Caerdydd yn cefnogi myfyrwyr ac ymchwil gyda rhodd o £1,000 y flwyddyn neu fwy

Mae rhoddwyr Cylch Caerdydd yn chwarae rhan hollbwysig wrth gefnogi gwaith y Brifysgol.

Rhagor o wybodaeth:

**cardiff.ac.uk/donate/join-cylch-caerdydd**



# Costau byw a rhyfel yn Wcráin

Rwyf am ymdrin â dwy o'r risgiau sy'n wynebu'r Brifysgol dros y flwyddyn nesaf, ac yn wir ymhellach ymlaen.

Wrth i mi ysgrifennu, mae'r argyfwng costau byw yn peri ansicrwydd i bawb. Yn gynharach yn y flwyddyn, gwnaethom sicrhau bod £400,000 pellach ar gael ar gyfer ein Cronfeydd Cymorth Ariannol, gan ddod â'r cyfanswm sydd ar gael i helpu'r myfyrwyr hynny sydd â'r angen mwyaf i dros £1 miliwn. Mae'r sefyllfa bresennol yn anrhagweladwy, ac wrth edrych i'r dyfodol, mae'n hollbwysig ein bod yn parhau i gefnogi ein myfyrwyr i ddelio â'r pwysau hyn. Rydym yn ystyried y ffordd orau o gynnig cymorth i staff, a hefyd yn gweithio ar fesurau fel sicrhau bod pobl yn gallu gweithio ar y campws yn hytrach na gartref os oes angen, ac y bydd bwyd fforddiadwy ar gael yn ein mannau gwerthu.

Rwyf eisoes wedi sôn am oresgyniad creulon ac anghyfreithlon Wcráin ond roeddwn am ddychwelyd ato yma fel risg a wynebwn yn y misoedd a'r blynyddoedd i ddod. Rydym wedi ymrwymo i gefnogi academyddion a myfyrwyr yn Wcráin, yn ogystal â'n staff a'n myfyrwyr ein hunain. Mae'n bwysig dweud bod rhaid inni fod yn ofalus i beidio â thynnu ein cefnogaeth oddi wrth gydweithwyr academaidd o Rwsia a allai fod wedi gwrthwynebu Putiniaeth ers blynyddoedd, gan fod llawer ohonynt wedi wynebu cryn berygl ac wedi aberthu'n bersonol yn sgil llofnodi datganiadau sy'n gwrthwynebu'r rhyfel a gweithredoedd eu llywodraeth. Amgylchiadau cymhleth yw'r rhain ac mae'n bwysig cofio mai un o swyddogaethau allweddol prifysgolion yw creu pontydd academaidd pan fydd llywodraethau yn eu dinistrio.

# Cynllunio hirdymor

Fel y gwelsom gydag amrywiolyn Omicron, mae gan Covid-19 y potensial i darfu o hyd, a byddai'n esgeulus inni ystyried bod y pandemig drosodd.

Byddwn yn parhau i fod yn wyliadwrus yn hytrach na llaesu dwylo ac rydym wedi bod yn gweithio ar gynlluniau wrth gefn ar gyfer y gaeaf pe byddai eu hangen.

Wrth inni ddysgu byw gyda Covid-19, mae nawr yn amser da i atgoffa ein hunain o faterion hollbwysig eraill y mae'n rhaid inni roi sylw iddynt yn y blynyddoedd i ddod. Rydym yn parhau i ganolbwyntio'n gryf ar y newid yn yr hinsawdd a chyflawni sero net, ond rhaid inni hefyd ailgadarnhau ein hymrwymiad i gael gwared ar blastig untro o'r campws cymaint â phosibl.

Er ein bod wedi troi cornel mewn perthynas â'r Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr (NSS) a phrofiad myfyrwyr, mae tipyn o ffordd i fynd eto. Yr her yn awr yw gwneud y gwelliannau'n gynaliadwy, ymgorffori arferion da, a sicrhau bod ein myfyrwyr yn cadarnhau fwyfwy eu bod yn hapus â'r profiad a gânt ym Mhrifysgol Caerdydd.

Gyda chanlyniadau REF 2021 bellach y tu ôl i ni, bydd angen i gam nesaf ein strategaeth ymchwil ganolbwyntio ar ddarparu'r math cywir o amgylchedd cefnogol ar gyfer ein hymchwilwyr, ynghyd ag arweiniad ar sut i lwyddo, yn enwedig i'r rhai sydd yng nghyfnod cynnar eu gyrfa. Mae ein strategaeth ers 2014 wedi bod yn un o gefnogaeth a chynwysoldeb, ac rydym wedi dysgu llawer ar hyd y ffordd y gallwn ei defnyddio'n llwyddiannus wrth inni edrych ymlaen at y REF nesaf, y disgwylir yn 2028.

Y flwyddyn i ddod fydd fy olaf fel Is-Ganghellor, gan fy mod yn ymddeol ar ddiwedd blwyddyn academaidd 2023. Tan hynny, wrth gwrs, byddaf yn parhau i ymrwymo i'm rôl a chanolbwyntio arni, ynghyd ag anghenion y Brifysgol.

Hoffwn gloi trwy ddiolch i'n staff, myfyrwyr a chefnogwyr am yr egni a'r amser y maent wedi'u neilltuo i'r brifysgol hon a'n cenhadaeth. Rwyf bob amser wedi honni bod cryfder Caerdydd yn dod o'i chymuned. Mae'n gymuned a nodweddir gan dosturi, caredigrwydd ac ymrwymiad, gwerthoedd sydd wedi ennill buddugoliaeth eto dros y flwyddyn ddiwethaf.

**Yr Athro Colin Riordan**
Is-Ganghellor
24 Tachwedd 2022



# Tueddiadau allweddol ym maes Addysg Uwch

## Yn dilyn etholiadau'r Senedd ym mis Mai 2021, ymrwymodd Llafur Cymru a Phlaid Cymru i gytundeb cydweithredu.

Ym mis Rhagfyr, cytunwyd ar gytundeb polisi tair blynedd ar y cyd yn cwmpasu 46 o feysydd polisi, a chyda chyllid i'w cefnogi. Mae'r ddwy blaid wedi bod yn glir nad clymblaid yw hon ond cytundeb i gyflawni rhaglen waith a rennir a rhoi sefydlogrwydd i lywodraethu yng Nghymru yn ystod tymor y Senedd hon.

Un o'r meysydd polisi allweddol yn y cytundeb oedd Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru), darn hirsefydlog o raglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru. Mae'r Ddeddf yn cynnwys naw dyletswydd strategol allweddol a bydd yn dod â phob rhan o'r sector addysg ôl-16 ynghyd o dan un rheoleiddiwr newydd, y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil.

Bwydodd Prifysgol Caerdydd i'r ymgynghoriad, gan amlygu pryderon sectoraidd a gwthio meysydd ymchwil ymlaen.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi bod yn datblygu ei Rhaglen Cyfnewid Dysgu Ryngwladol, a elwir bellach yn Taith. Mae'r buddsoddiad o £65 miliwn yn cymryd lle Erasmus+ yn rhannol ac mae wedi'i ddatblygu gan Brifysgol Caerdydd yn ystod y flwyddyn academaidd. Gall prifysgolion Cymru ddefnyddio'r rhaglen ar y cyd â chynllun Turing Llywodraeth y DU ac mae'n gadarnhaol i'r sector yng Nghymru, gan roi arwydd clir bod rhyngwladoli yn parhau i fod yn hanfodol i addysg uwch Cymru.

Mae Prifysgol Caerdydd yn parhau i gyfrannu at gynlluniau ar gyfer Ysgol Feddygol Gogledd Cymru ym Mhrifysgol Bangor, sef trydedd ysgol o'r fath yng Nghymru. Rydym yn parhau i helpu i sefydlu Ysgol Feddygol y Gogledd wrth ddadlau y dylai unrhyw ehangu yn addysg ac ymchwil feddygol Cymru arwain at ragor o fuddsoddi yn hytrach nag ailddyrannu'r adnoddau presennol.

Ym mis Gorffennaf, lansiodd Llywodraeth Cymru ei Strategaeth Arloesedd ddrafft i Gymru, y mae Prifysgol Caerdydd wedi cyflwyno ymateb manwl iddi. Mae Prifysgol Caerdydd yn parhau i annog mwy o uchelgais ar gyfer arloesi Cymreig i ategu ac adeiladu ar ein gweledigaeth ein hunain ar gyfer ymchwil ac arloesi, a nodwyd yn ein his-strategaeth ar ei newydd wedd ym mis Rhagfyr 2021.

Er bod llawer o faes addysg uwch wedi'i ddatganoli, gallai polisïau cyfnewidiol San Steffan effeithio ar Brifysgol Caerdydd o hyd oherwydd natur gyfansoddiadol y DU. O Lundain y daw'r penderfyniadau am arian ar gyfer ymchwil, ac mae tuedd yno i hyrwyddo gwyddoniaeth a thechnoleg yn fawr.

Ynghanol ansicrwydd gwleidyddol yn San Steffan, mae statws yr agenda 'ffyniant bro' wedi dod yn ansicr, ac mae'n debygol iawn y gallai blaenoriaethu a chymorth ariannol ar gyfer mynd i'r afael ag anghydraddoldeb rhanbarthol lithro. Yn y cyfamser, mae'r gwaethygu yn yr argyfwng costau byw yn her allweddol, gydag angen i sefydliadau addysg uwch gyflwyno'r achos dros gynyddu eu cyllid eu hunain i adlewyrchu costau cynyddol y ddarpariaeth.

Mae cyfradd sylweddol wahanol o ffioedd yn parhau rhwng Cymru a Lloegr sy'n rhoi prifysgolion Cymru o dan anfantais gystadleuol i'w cymheiriaid yn Lloegr, nid yn unig ar gyfer ymchwil ond oherwydd ein gallu i ddenu a chadw staff.

Mae gwneud y gwahaniaeth hwn yn glir i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn parhau i fod yn flaenoriaeth.

# Prif Bwyllgorau a Bwrdd Gweithredol y Brifysgol

## Adroddiad gan bwyllgorau allweddol y Corff Llywodraethu

Mae Cyngor y Brifysgol wedi sefydlu pedwar prif bwyllgor, ac mae'n penodi eu haelodau i oruchwylio agweddau amrywiol ar fusnes y Brifysgol; y Pwyllgor Archwilio a Risg; y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau, y Pwyllgor Llywodraethu, a'r Pwyllgor Taliadau. Mae gan bob un o'r pwyllgorau hyn gyfansoddiad ffurfiol, cylch gorchwyl ac aelodaeth sy'n cynnwys aelodau lleyg o'r Cyngor, ac aelod lleyg o'r Cyngor yn Gadeirydd. Gall prif bwyllgorau sefydlu is-bwyllgorau, megis yr Is-bwyllgor Enwebiadau sy'n is-bwyllgor allweddol a grëwyd i ystyried a chytuno ar argymhellion i'r Cyngor mewn perthynas â phenodiadau allweddol.

## Y Pwyllgor Archwilio a Risgiau

| Aelod | Math | Presenoldeb |
|---|---|---|
| **Michael Hampson** (Cadeirydd) | Lleyg | 5/5 |
| **Pers Aswani** (penodwyd o 1 Awst 22) | Lleyg | 0/0 |
| **Paul Benjamin** (ymddiswyddodd 16 Ebrill 22) | Lleyg | 2/4 |
| **Donall Curtin** | Lleyg | 5/5 |
| **Suzanne Rankin** (penodwyd o 1 Awst 22) | Lleyg | 0/0 |
| **Dr Janet Wademan** (daeth ei thymor i ben ar 31 Gorffennaf 22) | Lleyg | 5/5 |
| **Robert Weaver** (penodwyd o 1 Awst 22) | Lleyg | 0/0 |
| **Agnes Xavier-Phillips** | Lleyg | 4/5 |

Nid yw Cadeirydd y Cyngor nac aelodau staff na myfyrwyr yn y sefydliad yn aelodau o'r Pwyllgor. Nid yw Aelodau'n unigolion sydd â chyfrifoldebau rheoli gweithredol o fewn y sefydliad nac yn aelodau o'r Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau.

### Prif gyfrifoldebau

Mae gan y Pwyllgor Archwilio a Risg rôl allweddol o ran cynghori a chynorthwyo'r Cyngor i oruchwylio amgylchedd sicrwydd a rheoli'r Brifysgol. Mae ei ddyletswyddau'n cynnwys:

- Asesu a chynghori'r Cyngor ar effeithiolrwydd trefniadau rheoli a llywodraethu risg y sefydliad, a'r rheolaethau a gweithdrefnau mewnol i hyrwyddo cynildeb, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.
- Goruchwylio trefniadau archwilio allanol a mewnol, gan gynnwys cynghori'r corff llywodraethu ar benodi'r darparwyr archwilio, a goruchwylio natur a chwmpas archwiliadau allanol a mewnol ac effeithiolrwydd y prosesau archwilio; a
- Goruchwylio agweddau archwilio ar ddatganiadau ariannol y Brifysgol, gan gynnwys barn yr archwilwyr annibynnol, y datganiad o gyfrifoldebau'r aelodau, y datganiad rheolaeth fewnol ac unrhyw fater perthnasol a godwyd yn y llythyr cynrychiolaeth reoli.

### Crynodeb o'r busnes

Cyfarfu'r Pwyllgor Archwilio a Risg bum gwaith yn ystod 2021-22, gan gynnwys cyfarfod eithriadol i wneud argymhelliad i'r Cyngor ar benodi'r Archwiliwr Allanol yn dilyn ymarfer tendro cystadleuol a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn.

Roedd yr Archwilwyr Allanol yn bresennol i ystyried Adroddiad Busnes Gweithredol, y Datganiadau Ariannol blynyddol a llythyr sylwadau'r rheolwyr, yn ogystal â chymeradwyo'r cynllun archwilio mewnol blynyddol.

Bu'r Pwyllgor yn adolygu cofrestr risg y Brifysgol ac adroddiadau manwl, gan gynnwys y rheini o archwilio mewnol, ynghyd ag argymhellion ar gyfer gwella systemau rheoli mewnol y Brifysgol, yn ogystal ag ymatebion a chynlluniau gweithredu'r rheolwyr.

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiadau ar werth am arian a seiberddiogelwch ac mewn perthynas ag adolygiadau sefydliadol CCAUC, a chymeradwywyd diwygiadau i'r Fframwaith Digwyddiadau Difrifol i sicrhau cydymffurfedd â'r Ddeddf Elusennau.

## Pwyllgor Polisïau ac Adnoddau

| Aelod | Math | Presenoldeb |
|---|---|---|
| **John Shakeshaft** | Lleyg | 4/4 |
| **Yr Athro Rudolf Allemann** (penodwyd o 9 Chwefror 22) | Gweithiwr | 1/2 |
| **Hannah Doe** (daeth ei thymor i ben ar 30 Mehefin 22) | Myfyriwr | 4/4 |
| **Gina Dunn** | Myfyriwr | 2/4 |
| **Angie Flores Acuña** (penodwyd o 1 Gorffennaf 22) | Myfyriwr | 0/0 |
| **Chris Jones** | Lleyg | 4/4 |
| **Jan Juillerat** | Lleyg | 4/4 |
| **Robert Kingham** (penodwyd o 1 Ionawr 22) | Lleyg | 3/3 |
| **Yr Athro Stuart Palmer** (daeth ei dymor i ben ar 31 Rhagfyr 21) | Lleyg | 1/1 |
| **Yr Athro Colin Riordan** | Gweithiwr | 4/4 |
| **Yr Athro Damian Walford Davies** | Gweithiwr | 4/4 |
| **David Simmons** (daeth ei dymor i ben ar 31 Gorffennaf 22) | Lleyg | 3/4 |
| **Jennifer Wood** (penodwyd o 1 Awst 22) | | 0/0 |
| **Patrick Younge** (penodwyd o 1 Ionawr 22) | Lleyg | 3/3 |

### Prif gyfrifoldebau

Cylch gwaith cyffredinol y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau yw monitro cynigion Bwrdd Gweithredol y Brifysgol ar gyfer cyflawni'r nodau strategol drwy graffu ar aliniad adnoddau â'r cynllun Strategol a monitro perfformiad yn erbyn hynny. Mae ganddo ddyletswyddau penodol mewn perthynas â'r meysydd canlynol:

- Dyrannu Adnoddau, gan gynnwys dyrannu arian i Undeb y Myfyrwyr
- Rheolaeth ariannol.
- Rheoli Seilwaith Digidol.
- Rheoli Adnoddau Dynol.

### Crynodeb o'r busnes

Cyfarfu'r Pwyllgor bedair gwaith yn ystod blwyddyn academaidd 2021/22. Goruchwyliodd y Pwyllgor fusnes ei ddau is-bwyllgor, sy'n craffu ar ddatblygiad a gweithrediad strategaeth a gweithgarwch cynaliadwyedd amgylcheddol y Brifysgol, a rheolaeth ar fuddsoddiad a gweithgarwch bancio'r Brifysgol. Ar ôl adolygu ei gylch gorchwyl a llywodraethu materion ystadau, cytunodd y Pwyllgor i ddiddymu'r Is-bwyllgor Ystadau a Seilwaith gyda'i weithgareddau'n cael eu cynnwys yn y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau. Yng ngoleuni hyn, adolygodd y Pwyllgor y meini prawf arfaethedig ar gyfer gofyn am arian o gronfeydd buddsoddi wrth gefn, sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol â'r chwistrelliad arian bond cyhoeddus, a chraffodd ar gynigion ar gyfer sawl prosiect yn ymwneud ag ystadau.

Yn ystod y flwyddyn, adolygodd y Pwyllgor berfformiad ar draws gweithgareddau sy'n gysylltiedig ag Adnoddau Dynol, a datganiadau ariannol, cyllidebau a chynlluniau ariannol y Brifysgol ochr yn ochr â'r Cynllun Strategol. Roedd gwaith arall a adolygwyd yn cynnwys cynigion ar gyfer pensiynau staff, Cyfrifon a Bloc Grant Undeb y Myfyrwyr, Rhaglen Cynnal a Chadw Cynlluniedig 10 mlynedd Diogelwch rhag Tân Preswylfeydd, a'r cynnydd wrth gwblhau Campws Arloesedd Caerdydd. Cafodd y Pwyllgor yr wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd am ffurfio a lansio'r Rhaglen Cyfnewid Dysgu Ryngwladol.

## Pwyllgor Llywodraethu

| Aelod | Math | Presenoldeb |
|---|---|---|
| **Judith Fabian** (Cadeirydd) | Lleyg | 4/4 |
| **Hannah Doe** (daeth ei thymor i ben ar 30 Mehefin 22) | Myfyriwr | 4/4 |
| **Gina Dunn** (penodwyd o 1 Gorffennaf 22) | Myfyriwr | 0/0 |
| **Yr Athro Dame Janet Finch** (penodwyd o 22 Chwefror 22) | Lleyg | 2/2 |
| **Jan Juillerat** | Lleyg | 4/4 |
| **Dr Joanna Newman** (ymddiswyddodd 1 Mai 22) | Lleyg | 2/3 |
| **Yr Athro Stuart Palmer** (daeth ei dymor i ben ar 31 Rhagfyr 21) | Lleyg | 1/1 |
| **Yr Athro Colin Riordan** | Gweithiwr | 2/4 |
| **David Selaway** (penodwyd o 1 Awst 22) | Lleyg | 0/0 |
| **Judge Ray Singh** | Lleyg | 4/4 |
| **Dr Andy Skyrme** | Gweithiwr | 4/4 |
| **Yr Athro Ceri Sullivan** | Gweithiwr | 2/4 |
| **Yr Athro Damian Walford Davies** | Gweithiwr | 3/4 |
| **Yr Athro Stuart Walker** (ymddiswyddodd 22 Chwefror 22) | Lleyg | 1/2 |
| **Patrick Younge** (penodwyd o 1 Ionawr 22) | Lleyg | 3/3 |

### Prif gyfrifoldebau

Rôl allweddol y Pwyllgor llywodraethu yw cynghori a gwneud argymhellion i'r Cyngor ar:

- Materion sy'n ymwneud â llywodraethu'r Brifysgol;
- Lefel cydymffurfedd y Brifysgol â gofynion gorfodol deddfwriaeth a rheoliadau eraill, gan gynnwys darpariaethau'r Ddeddf Cydraddoldeb a Deddf yr Iaith Gymraeg;
- Adolygu effeithiolrwydd y Cyngor yn ôl y gofyn;
- Materion cyfansoddiadol a chyfreithiol, gan gynnwys y Siarter, Statudau a'r Deddfiadau;
- Enwebiadau a phenodiadau Aelodau Lleyg.

Er mwyn cyflawni ei gyfrifoldebau, mae'r Pwyllgor Llywodraethu wedi sefydlu pum is-bwyllgor:

- Enwebiadau
- Iechyd, Diogelwch a Lles
- Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant
- Safonau Biolegol
- Gonestrwydd a Moeseg Ymchwil Agored

### Crynodeb o'r busnes

Cyfarfu'r Pwyllgor Llywodraethu bedair gwaith yn 2021-22. Dros y flwyddyn mae'r Pwyllgor wedi adolygu Fframwaith Llywodraethu'r Brifysgol ac wedi cymeradwyo diweddariadau cysylltiedig i

Statudau a Deddfiadau. Mae hefyd wedi monitro'r camau gweithredu sy'n weddill o gyfres o adolygiadau llywodraethu, gan gynnwys Siarter Lywodraethu Cymru 2020 ac Ymrwymiad i Weithredu ac Adolygiad o Effeithiolrwydd Llywodraethu 2021.

Cymeradwyodd y Pwyllgor y gyfran gyntaf o Gynllun Dirprwyo newydd, a oedd yn argymhelliad allweddol o Adolygiad o Effeithiolrwydd Llywodraethu 2021, ac adolygodd nifer o ddogfennau sicrwydd blynyddol, gan gynnwys cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, Rheoli Gwybodaeth, PREVENT, Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015, ac Adroddiad Monitro Blynyddol y Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

Adolygodd y Pwyllgor Llywodraethu fatrics sgiliau aelodau lleyg a data cydraddoldeb ac amrywiaeth i ystyried gofynion cyfansoddiad corff llywodraethu effeithiol ac effeithlon, a, gyda chymorth yr Is-bwyllgor Enwebiadau, goruchwyliodd benodiad cadeirydd newydd y Cyngor a thri aelod lleyg newydd y Cyngor.

## Is-bwyllgor Enwebiadau

| Aelod | Math | Presenoldeb |
|---|---|---|
| **Jan Juillerat** (Cadeirydd) (daeth ei thymor i ben ar 19 Ionawr 22) | Lleyg | 2/2 |
| **Yr Athro Rachel Ashworth** | Staff – Aelod senedd o'r Cyngor | 4/5 |
| **Hannah Doe** (penodwyd o 20 Ionawr 22, daeth ei thymor i ben 31 Gorffennaf 22) | Myfyriwr | 3/5 |
| **Gina Dunn** (penodwyd o 1 Awst 22) | | 0/0 |
| **Tomos Evans** (daeth ei dymor i ben ar 19 Ionawr 22) | Myfyriwr – Aelod senedd o'r Cyngor | 2/2 |
| **Judith Fabian** (Cadeirydd o 20 Ionawr 22) | Lleyg | 5/5 |
| **Judge Ray Singh** (daeth ei dymor i ben ar 19 Ionawr 22) | Lleyg | 2/2 |
| **John Shakeshaft** (penodwyd o 20 Ionawr 22) | Lleyg | 2/3 |
| **Patrick Younge** (penodwyd o 20 Ionawr 22) | Lleyg | 3/3 |

### Prif gyfrifoldebau

Rôl yr Is-bwyllgor Enwebiadau yw ystyried a chytuno ar argymhellion i'r Cyngor mewn perthynas â phenodiadau allweddol, gan gynnwys penodi ac ailbenodi Cadeirydd ac Aelodau Lleyg i'r Cyngor a'i bwyllgorau.

Mae'r is-bwyllgor yn sicrhau bod recriwtio aelodau lleyg yn cael ei gyflawni drwy broses benodi glir a thryloyw, gan roi sylw dyledus i sgiliau a phrofiad cyffredinol y corff llywodraethu, cydbwysedd rhwng gwybodaeth sector a di-sector ac ymrwymiadau i amrywiaeth a chynwysoldeb.

### Crynodeb o'r busnes

Cyfarfu'r is-bwyllgor bum gwaith yn ystod 2021-22 i ystyried recriwtio a dewis cadeirydd newydd y Cyngor a'r Prentis Llywodraethol cyntaf. Yn dilyn ymlaen o argymhelliad Adolygiad o Effeithiolrwydd Llywodraethu, adolygwyd y cyfansoddiad, a chyfansoddwyd corff newydd ar gyfer recriwtio nifer o aelodau lleyg newydd o'r Cyngor a'r is-bwyllgorau wedi hynny. Cymeradwyodd y Pwyllgor y deunyddiau a dulliau hysbysebu ar gyfer y swyddi a bu'n gweithio gyda chwmni chwilio gweithredol a benodwyd mewn perthynas â swydd Cadeirydd y Cyngor a swyddi aelodau lleyg ar y Cyngor a'r Pwyllgor Archwilio a Risg, sef Perrett Laver.

Recriwtiwyd y prentis llywodraethwr drwy Gynllun Prentisiaeth Llywodraethwyr Perrett Laver sy'n ceisio annog amrywiaeth ar fyrddau, a hysbysebwyd y swydd yn allanol.

Dechreuodd yr ymarfer recriwtio ar gyfer Cadeirydd y Cyngor yn ystod 2020-21 a daeth i ben ym mis Medi 2021 gydag argymhelliad a wnaed i'r Cyngor ym mis Hydref 2021. Ymgymerwyd â'r gwaith o recriwtio ar gyfer swyddi aelodau lleyg yn ystod Mehefin a Gorffennaf 2022.

## Pwyllgor Taliadau

| Aelod | Math | Presenoldeb |
|---|---|---|
| **Jan Juillerat** (Cadeirydd) | Lleyg | 2/2 |
| **Yr Athro Dame Janet Finch** | Lleyg | 2/2 |
| **Michael Hampson** (penodwyd o 1 Awst 22) | Lleyg | 0/0 |
| **Yr Athro Stuart Palmer** (daeth ei dymor i ben ar 31 Rhagfyr 22) | Lleyg | 1/1 |
| **Dr Janet Wademan** (daeth ei thymor i ben ar 31 Gorffennaf 22) | Lleyg | 2/2 |
| **Patrick Younge** (penodwyd o 1 Ionawr 22) | Lleyg | 1/1 |

Mae gan y Pwyllgor Taliadau aelodaeth gwbl annibynnol sy'n cynnwys pedwar o aelodau lleyg y Cyngor (sy'n cynnwys y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd)  Ni fydd Cadeirydd y Cyngor yn cadeirio'r Pwyllgor Taliadau.

### Prif gyfrifoldebau

Mae'r Pwyllgor Taliadau, gyda chyngor gan y Pwyllgor Cyflogau Athrawon ac Uwch-swyddogion, yn datblygu'r strategaeth a'r polisi gwobrwyo cyffredinol i gwmpasu cydnabyddiaeth ariannol, budd-daliadau, amodau cyflogaeth a chyflog diswyddo uwch swyddogion a staff y Brifysgol, gan gynnwys Deoniaid a Phenaethiaid Ysgol.

Mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am bennu tâl, budd-daliadau ac amodau cyflogaeth yr Is-Ganghellor a'r rhai sy'n adrodd yn uniongyrchol iddo, gan ystyried fforddiadwyedd, gwybodaeth gymharol am gydnabyddiaeth ariannol, budd-daliadau ac amodau cyflogaeth yn y sector addysg uwch ac mewn mannau eraill fel y bo'n briodol, a metrigau a data perfformiad perthnasol.

### Crynodeb o'r busnes

Yn ystod 2021-22, adolygodd y Pwyllgor yr Adolygiad Uwch Gyflogau ar gyfer yr Is-Ganghellor a Chyflog a Bandio Athrawon Staff Uwch (gan gynnwys y rhai sy'n adrodd yn uniongyrchol i'r Is-Ganghellor), y diweddariad blynyddol ar y Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau ac Ethnigrwydd, ac ar Lywodraethu Cyflog Cyfartal a Chyflogau Uwch. Cynhaliodd y Pwyllgor hefyd ei adolygiad blynyddol o God Cydnabyddiaeth Uwch Staff AU y Pwyllgor Cadeiryddion Prifysgolion.

## Senedd

| Aelod | Math | Presenoldeb |
|---|---|---|
| **Yr Athro Colin Riordan** (Cadeirydd) | Gweithiwr | 2/3 |
| **Yr Athro Rudolf Allemann** | Gweithiwr | 3/3 |
| **Yr Athro Stuart Allen** | Gweithiwr | 3/3 |
| **Yr Athro Rachel Ashworth** | Gweithiwr | 0/3 |
| **Yr Athro Roger Behrend** | Gweithiwr | 1/3 |
| **Tine Bloome** | Gweithiwr | 3/3 |
| **Yr Athro Kate Brain** | Gweithiwr | 3/3 |
| **Dr Paul Brennan** | Gweithiwr | 2/3 |
| **Gill Bristow** | Gweithiwr | 1/3 |
| **Yr Athro Marc Buehner** | Gweithiwr | 3/3 |
| **Dr Cindy Carter** | Gweithiwr | 1/2 |
| **Yr Athro David Clarke** | Gweithiwr | 3/3 |
| **Kelsey Coward** | Gweithiwr | 0/3 |
| **Yr Athro Trevor Dale** | Gweithiwr | 2/3 |
| **Dr Juliet Davis** | Gweithiwr | 1/3 |
| **Yr Athro Lina Dencik** | Gweithiwr | 1/3 |
| **Rhys Denton** | Gweithiwr | 2/3 |
| **Hannah Doe** | Myfyriwr | 3/3 |
| **Dr Luiza Dominguez** | Gweithiwr | 3/3 |
| **Gina Dunn** | Myfyriwr | 3/3 |
| **Helen Evans** | Gweithiwr | 3/3 |
| **Yr Athro Stewart Field** | Gweithiwr | 1/3 |
| **Yr Athro Dylan Foster Evans** | Gweithiwr | 3/3 |
| **Graham Getheridge** | Gweithiwr | 3/3 |
| **Yr Athro Kim Graham** | Gweithiwr | 2/2 |
| **Chris Grieve** | Myfyriwr | 1/3 |
| **Dr John Groves** | Gweithiwr | 1/3 |
| **Yr Athro Mark Gumbleton** | Gweithiwr | 1/3 |
| **Yr Athro Ian Hall** | Gweithiwr | 0/3 |
| **Yr Athro Thomas Hall** | Gweithiwr | 3/3 |
| **Yr Athro Ken Hamilton** | Gweithiwr | 2/3 |
| **Dr Natasha Hammond-Browning** | Gweithiwr | 1/3 |
| **Yr Athro Ben Hannigan** | Gweithiwr | 3/3 |
| **Dr Alexander Harmer** | Gweithiwr | 3/3 |
| **Yr Athro Adam Hedgecoe** | Gweithiwr | 3/3 |
| **Yr Athro James Hegarty** | Gweithiwr | 0/3 |
| **Yr Athro Mary Heimann** | Gweithiwr | 0/3 |
| **Dr Monika Hennemann** | Gweithiwr | 2/3 |
| **Yr Athro Joanne Hunt** | Gweithiwr | 2/3 |
| **Yr Athro Nicola Innes** | Gweithiwr | 2/3 |
| **Yr Athro Dai John** | Gweithiwr | 3/3 |
| **Yr Athro Urfan Khaliq** | Gweithiwr | 1/3 |
| **Yr Athro Alan Kwan** | Gweithiwr | 0/3 |
| **Yr Athro Wolfgang Maier** | Gweithiwr | 2/3 |
| **Emmajane Milton** | Gweithiwr | 2/3 |

| Aelod | Math | Presenoldeb |
|---|---|---|
| **Claire Morgan** | Gweithiwr | 3/3 |
| **Yr Athro Damien Murphy** | Gweithiwr | 2/3 |
| **Yr Athro Jim Murray** | Gweithiwr | 2/3 |
| **Larissa Nelson** | Gweithiwr | 2/3 |
| **Dr James Osborne** | Gweithiwr | 3/3 |
| **Joanne Pagett** | Gweithiwr | 1/3 |
| **Dr Jo Patterson** | Gweithiwr | 3/3 |
| **Dr Jamie Platts** | Gweithiwr | 1/3 |
| **Dr Juan Pereiro Viterbo** | Gweithiwr | 2/3 |
| **Abyd Quinn-Aziz** | Gweithiwr | 3/3 |
| **Dr Caroline Rae** | Gweithiwr | 2/3 |
| **Dr Emma Richards** | Gweithiwr | 1/3 |
| **Kate Richards** | Gweithiwr | 3/3 |
| **Yr Athro Steve Riley** | Gweithiwr | 2/3 |
| **Sebastian Ripley** | Myfyriwr | 3/3 |
| **Dr Josh Robinson** | Gweithiwr | 1/3 |
| **Sarah Saunders** | Gweithiwr | 1/3 |
| **Dr Andy Skyrme** | Gweithiwr | 1/3 |
| **Yr Athro Peter Smowton** | Gweithiwr | 2/3 |
| **Dr Zbig Sobiesierski** | Gweithiwr | 3/3 |
| **Megan Somerville** | Myfyriwr | 3/3 |
| **Helen Spittle** | Gweithiwr | 3/3 |
| **Tracey Stanley** | Gweithiwr | 3/3 |
| **Yr Athro Ceri Sullivan** | Gweithiwr | 3/3 |
| **Yr Athro Petroc Sumner** | Gweithiwr | 2/3 |
| **Yr Athro Peter Sutch** | Gweithiwr | 1/3 |
| **Yr Athro Patrick Sutton** | Gweithiwr | 2/3 |
| **Orla Tarn** | Myfyriwr | 3/3 |
| **Dr Catherine Teehan** | Gweithiwr | 3/3 |
| **Gail Thomas** | Gweithiwr | 2/3 |
| **Dr Jonathan Thompson** | Gweithiwr | 2/2 |
| **Dr Onur Tosun** | Gweithiwr | 2/3 |
| **Dr Laurence Totelin** | Gweithiwr | 2/3 |
| **Charlotte Towlson** | Myfyriwr | 2/3 |
| **Yr Athro Damian Walford Davies** | Gweithiwr | 3/3 |
| **Dr Catherine Walsh** | Gweithiwr | 1/3 |
| **Matt Walsh** | Gweithiwr | 3/3 |
| **Yr Athro Ian Weeks** | Gweithiwr | 3/3 |
| **Yr Athro Keith Whitfield** | Gweithiwr | 2/3 |
| **Yr Athro David Whitaker** | Gweithiwr | 2/3 |
| **Yr Athro Roger Whitaker** | Gweithiwr | 1/1 |
| **Yr Athro John Wild** | Gweithiwr | 1/3 |
| **Yr Athro Martin Willis** | Gweithiwr | 2/3 |
| **Yr Athro Jianzhong Wu** | Gweithiwr | 2/3 |

## Prif gyfrifoldebau

Mae'r Senedd wedi'i sefydlu gan Siarter y Brifysgol, sy'n rhoi cyfrifoldeb iddo am gael trefn ar faterion academaidd y Brifysgol, mewn addysgu ac mewn ymchwil, a phwerau i wneud Rheoliadau Academaidd. Mae'n tynnu ei aelodaeth o blith staff academaidd, staff gwasanaethau proffesiynol a myfyrwyr y Sefydliad. Mae'r Senedd yn parhau i adolygu polisi addysgol y Brifysgol ac yn rhoi sicrwydd i'r Cyngor bod materion academaidd y Brifysgol yn cael eu rheoli'n briodol.

Yn ei thro, mae'r Senedd wedi sefydlu paneli sefydlog ac is-bwyllgorau i'w chefnogi i gyflawni ei chyfrifoldebau, megis y Pwyllgor Safonau ac Ansawdd Academaidd a'r Is-bwyllgor Addysg a Phrofiad Myfyrwyr.

## Crynodeb o'r busnes

Cyfarfu'r Senedd deirgwaith yn ystod blwyddyn academaidd 2021/22. Roedd meysydd allweddol busnes strategol yn cynnwys diweddariad ar flaenoriaethu a chyflawni'r Is-Strategaeth Addysg a Myfyrwyr, trafodaethau ar y dull o ddarparu ar-lein, a diweddariadau ar bartneriaethau ac endidau strategol. Derbyniodd y Senedd hefyd fanylion am argymhellion Adolygiad o Effeithiolrwydd Llywodraethu 2021 a'r cynigion ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid yn dilyn casgliadau Gweithgor y Llysoedd. Cafodd y Senedd hefyd gyflwyniad ar ganlyniadau cyflwyniad REF 2021.

Rhoddodd y Senedd ystyriaeth i Adroddiad Ansawdd Blynyddol 2020/21 a Safbwynt y Myfyriwr ac Ymateb y Sefydliad ar gyfer 2021, yn ogystal â Safbwynt y Myfyriwr 2022 yn ei chyfarfod olaf yn y flwyddyn academaidd. Derbyniodd y Senedd adroddiadau gan ei his-bwyllgorau ar y busnes yr oeddent wedi'i gyflawni ynghyd â nifer o adroddiadau blynyddol (megis y Datganiad Blynyddol ar Uniondeb Ymchwil a Siarter a Chytundeb Perthynas Undeb y Myfyrwyr).

# Bwrdd Gweithredol y Brifysgol

| Aelod | Math |
|---|---|
| **Yr Athro Colin Riordan** (Cadeirydd) | Gweithiwr |
| **Yr Athro Rudolf Allemann** | Gweithiwr |
| **Yr Athro Kim Graham** (daeth ei thymor i ben ar 31 Mai 22) | Gweithiwr |
| **Rashi Jain** | Gweithiwr |
| **Yr Athro Urfan Khaliq** (penodwyd 1 Medi 21) | Gweithiwr |
| **Susan Midha** | Gweithiwr |
| **Claire Morgan** | Gweithiwr |
| **TJ Rawlinson** | Gweithiwr |
| **Claire Sanders** | Gweithiwr |
| **Robert Williams** (daeth ei dymor i ben ar 31 Rhagfyr 21) | Gweithiwr |
| **Yr Athro Damian Walford Davies** | Gweithiwr |
| **Darren Xiberras** (penodwyd 1 Ionawr 22) | Gweithiwr |
| **Yr Athro Ian Weeks** | Gweithiwr |
| **Yr Athro Roger Whitaker** (penodwyd 1 Mehefin 22) | Gweithiwr |

Mae pob aelod o Fwrdd Gweithredol y Brifysgol yn mynychu cyfarfodydd uwch wythnosol. O ystyried amlder y cyfarfodydd hyn, ni chofnodir y presenoldeb yn y tabl uchode.

## Prif gyfrifoldebau

Bwrdd Gweithredol y Brifysgol yw uwch dîm gweithredol y Brifysgol. Mae Telerau ac Amodau Cyllid CCAUC yn diffinio'r Uwch-dîm Gweithredol yn unol â diffiniad Safon Adrodd Ariannol 102 (FRS 102) ar gyfer 'personél rheoli allweddol'; hynny yw, "y personau hynny sydd ag awdurdod a chyfrifoldeb dros gynllunio, cyfarwyddo a rheoli gweithgareddau'r endid, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, gan gynnwys unrhyw gyfarwyddwr (boed yn weithredol ai peidio) yr endid hwnnw".

Cylch gwaith cyffredinol y Bwrdd yw cynghori'r Is-Ganghellor wrth gyflawni ei ddyletswyddau fel y Prif Swyddog Gweithredol, gan gynnwys datblygu a gweithredu strategaeth, cynlluniau gweithredol, polisïau a gweithdrefnau, pennu cyllidebau, a monitro perfformiad gweithredu ac ariannol.

## Crynodeb o'r busnes

Yn ogystal â chyfarfodydd wythnosol drwy gydol 2021-22, cynhaliodd y Bwrdd dri diwrnod cwrdd i ffwrdd estynedig i edrych ar themâu strategol yn ogystal â gwneud penderfyniadau. Roedd bywyd myfyrwyr a phrofiad y myfyriwr yn flaenoriaeth yn ystod y flwyddyn. Roedd meysydd gweithgarwch allweddol eraill yn cynnwys y rhaglen Gwell Ffyrdd o Weithio a dychwelyd i'r campws; datblygu a gweithredu Proses Gynllunio Integredig ar gyfer y Brifysgol gyfan; trosglwyddo ac agor adeiladau cyfalaf newydd mawr; gwella'r ddarpariaeth ar gyfer ceiswyr lloches, ffoaduriaid ac unigolion o gymunedau BAME; a bwrw ymlaen â chynllun buddsoddi tymor byr 2021-23.

.

# Datganiad Cydnabyddiaeth Ariannol

## Tâl Uwch-aelodau o Staff

Mae'r Datganiad Tâl hwn yn nodi'r fframwaith ar gyfer gwneud penderfyniadau ynghylch tâl, yn arbennig tâl uwch-aelodau o staff.

Mae pob uwch-aelod o staff, ac eithrio'r Is-Ganghellor, yn cael ei gynnwys ym Mholisi Tâl Uwch-aelodau o staff y Brifysgol, a gyhoeddir yn flynyddol. Mae'r polisi hwn yn adolygu perfformiad bob dwy flynedd ac yn caniatáu codiad cyflog ar sail perfformiad, yn ogystal ag adolygu ecwiti. Defnyddir data o Arolwg o Dâl Uwch-aelodau o Staff Cymdeithas Cyflogwyr Prifysgolion a Cholegau ac Arolwg Grŵp Russell i roi tystiolaeth ar gyfer gwneud unrhyw addasiadau cyflog. Pennir y polisi gan y Pwyllgor Taliadau, sydd â chyfrifoldeb cyffredinol dros ddull y Brifysgol o ymdrin â thâl uwch-aelodau o staff. Yn rhan o'r rôl hon, mae'n gwneud penderfyniadau ynghylch cyflog yr unigolion uchaf yn y Brifysgol, gan gynnwys cyflog yr Is-Ganghellor.

Cyhoeddir nifer yr holl staff y talir dros £100k iddynt yn y Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol yn yr adroddiad hwn, ynghyd â threuliau a ad-delir yn uniongyrchol ar gyfer uwch-staff sy'n aelodau o Fwrdd Gweithredol y Brifysgol. Mae hawliadau treuliau a thaliadau a wnaed i uwch-aelodau o staff y Brifysgol yn cydymffurfio â rheoliadau ariannol y Brifysgol. Mae'r rhain yn berthnasol i bob aelod o'r staff ac maent yn cael eu hadolygu a'u cymeradwyo'n flynyddol gan Gyngor y Brifysgol.

## Tâl yr Is-Ganghellor

Mae tâl yr Is-Ganghellor yn cael ei bennu gan y Pwyllgor Tâl, a hynny drwy Gynllun Gwobrau'r Is-Ganghellor.

Cynlluniwyd y cynllun hwn i fod yn gynllun cymhelliant hirdymor i wobrwyo a chadw'r Is-Ganghellor gyda'r nod o gyflawni strategaeth Y Ffordd Ymlaen 2018-2023. Mae'r cynllun yn adeiladu ar egwyddorion y broses Adolygu Cyflogau Uwch-aelodau o Staff, fel y'u nodir yn y Polisi Tâl Uwch-aelodau o Staff.

Mae Cynllun Gwobrau'r Is-Ganghellor yn cynnwys:

- adolygiad blynyddol o gyflog sylfaenol yn unol â'r farchnad
- cyfandaliad bonws tymor hir nad yw'n bensiynadwy sy'n seiliedig ar berfformiad ac yn gysylltiedig â llwyddiant Y Ffordd Ymlaen 2018-2023

Pan fydd y Pwyllgor Tâl yn adolygu pecyn tâl yr Is-Ganghellor, bydd yn ystyried gwybodaeth gymharol am gyflogau, buddion eraill ac amodau gwasanaeth yn y sector addysg uwch a sectorau eraill.

## Tâl grwpiau eraill o staff

Mae mwyafrif y staff eraill ar raddfa dâl y Cytundeb Fframwaith Cenedlaethol ac yn dod o dan Strwythur Graddio'r Brifysgol, sy'n cynnwys wyth gradd. Mae methodoleg gwerthuso rolau'r Dadansoddi Rolau Addysg Uwch yn cefnogi'r graddau hyn.

Mae staff ar raddfa dâl y Cytundeb Fframwaith Cenedlaethol yn cael codiad cyflog blynyddol sy'n seiliedig ar fod â rhagor o sgiliau, gwybodaeth a phrofiad, a hynny tan iddynt gyrraedd brig amrediad craidd y raddfa. Maent hefyd yn cael unrhyw godiad cyflog y cytunir arnynt yn genedlaethol.

Mae staff clinigol ar y raddfa dâl glinigol, ac mae'n copïo graddfeydd tâl y GIG. Mae staff clinigol yn cael codiad cyflog blynyddol sy'n seiliedig ar fod â rhagor o sgiliau, gwybodaeth a phrofiad, a hynny tan iddynt gyrraedd brig amrediad y raddfa. Mae ymgynghorwyr clinigol sydd ar frig y raddfa dâl ar gyfer ymgynghorwyr hefyd yn cael taliadau ymrwymiad.

Mae'r Cynllun Gwobrwyo Cyfraniad Rhagorol yn cydnabod perfformiad a chyfraniad eithriadol drwy wneud taliadau untro a symud staff i fyny ar y raddfa dâl.

## Cyflogwr Cyflog Byw

Mae'r Brifysgol yn gyflogwr cyflog byw achrededig ac, o ganlyniad, mae pob aelod o staff yn cael cyfradd dâl Living Wage Foundation o leiaf.

## Cymhareb Tâl

Mae'r cymarebau rhwng cyflog yr Is-Ganghellor a chyflog canolrifol staff, ynghyd â chyfanswm tâl yr Is-Ganghellor a chyfanswm tâl canolrifol staff, yn cael eu datgelu yn nodyn 8 (costau staff).

## Polisi gadael

Mae'r Pwyllgor Tâl yn cael ei hysbysu ddwywaith y flwyddyn am unrhyw gytundebau setlo, gan gynnwys unrhyw daliadau diswyddo gwirfoddol, ar gyfer athrawon, cyfarwyddwyr gwasanaethau proffesiynol ac uwch-aelodau o staff, ynghyd â manylion y taliad diswyddo a'r arbediad i'r Brifysgol. Bydd y Brifysgol yn dilyn ei phrosesau diswyddo pan fydd unrhyw staff academaidd neu uwch aelodau o staff yn cael eu diswyddo.

# Adolygiad Ariannol
2021-2022

## Cadwodd y Brifysgol warged gweithredol o £28 miliwn yn 2021/22 cyn y newid yn narpariaeth Cynllun Pensiwn y Prifysgolion (USS)

Parhaodd y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2022 i'n herio, wrth inni ddod allan o'r pandemig byd-eang i'r ffordd 'normal newydd' o weithredu.  Wrth i'r flwyddyn ddod i ben, roedd gwyntoedd economaidd newydd yn dechrau dod i'r amlwg mewn chwyddiant, yn enwedig mewn costau ynni a chyfraddau llog uwch, sy'n edrych fel pe byddent yn parhau i fod ar waith hyd y gellir rhagweld ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn. Er gwaethaf yr heriau hyn, roedd y Brifysgol yn gallu cadw gwarged gweithredol o £28 miliwn cyn y newid yn narpariaeth cynllun pensiwn yr USS a chryfhau ei chronfeydd ariannol wrth gefn.

Mae'r gwarged gweithredu sylfaenol o £28 miliwn yn cysoni â'r diffyg cyfan o £28 miliwn fel a ganlyn:

## Crynodeb o Ganlyniadau Fesul Grŵp

| | 2021/22 £miliwn | 2020/21 £miliwn |
|---|---|---|
| Cyfanswm cynhwysfawr (diffyg)/ gwarged am y flwyddyn | (27.8) | 58.9 |
| Tâl y ddarpariaeth pensiwn USS | 118.8 | 2.4 |
| Enillion actiwaraidd ar bensiynau | (72.1) | (3.0) |
| **Gwarged cyn colledion/(enillion) eraill** | **18.9** | **58.3** |
| Colledion/(enillion) eraill | 8.8 | (27.4) |
| **Gwarged gweithredu sylfaenol** | **27.7** | **30.9** |


Mae'r datganiadau ariannol am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2022 yn cyfuno canlyniadau'r Brifysgol, ei his-gwmnïau University College Cardiff Consultants Limited ac International Learning Exchange Limited ("Taith"), a'r mentrau ar y cyd rhwng Compound Semiconductor Centre Limited a Medicentre Caerdydd.

## Incwm i fyny 3.6% i £634 miliwn


Yn 2021/22, tyfodd cyfanswm yr incwm o £612.2 miliwn (wedi'i ailddatgan – gweler nodyn 29 yn y datganiadau ariannol) i £634.2 miliwn, yn bennaf oherwydd twf cryf mewn incwm ymchwil (cynnydd o £13 miliwn neu 11% i £125 miliwn), incwm ffioedd dysgu (cynnydd o £9 miliwn neu 2.9% i £289 miliwn), ac incwm preswyl, arlwyo a chynadledda (cynnydd o £5 miliwn neu 22% i £28 miliwn).

Yn 2021/22, gwelwyd cynnydd o 2.9% mewn ffioedd dysgu a chontractau addysg, ac er bod hyn yn well na 2020/21, nid oedd mor uchel ag yr oeddem wedi'i ragweld. Fodd bynnag, gwrthbwyswyd hyn gan ymchwil ac incwm uwch yn ymwneud â gwasanaethau masnachol a gynigir gan y Sefydliad.

**Incwm yn ôl Categori (£miliwn)**




**Ffioedd Myfyrwyr (£miliwn) a Myfyrwyr Cyfwerth ag Amser Llawn (000oedd)**



Mae ein 30,267 o fyfyrwyr yn cynnwys y canlynol:

| Nifer y myfyrwyr | 2021/22 | 2020/21 |
|---|---|---|
| Israddedigion | 22,485 | 21,665 |
| Ôl-raddedig a Addysgir | 5,985 | 5,867 |
| Ymchwil Ôl-raddedig | 1,797 | 2,241 |
| **Cyfanswm** | **30,267** | **29,763** |
| Cartref | 24,073 | 24,080 |
| Tramor | 6,194 | 5,683 |
| **Cyfanswm** | **30,267** | **29,763** |

Er bod incwm grant rheolaidd gan CCAUC wedi cynyddu £13 miliwn i £75 miliwn, gostyngodd cyllid cyffredinol £11 miliwn. Roedd y gostyngiad hwn yn adlewyrchu'r ffaith bod cyllid Covid-19 Llywodraeth Cymru wedi'i dynnu'n ôl ar gyfer y sector i gefnogi myfyrwyr, staff a chyfleusterau wrth i ni ddod allan o gyfnod gwaethaf y pandemig.

Dychwelodd gweithgarwch ymchwil i dwf yn ystod y flwyddyn ariannol hon, gan gynhyrchu £125 miliwn o incwm, er bod dyfarniadau newydd a sicrhawyd yn ystod y flwyddyn wedi gostwng ychydig.

Adenillwyd incwm arall o effaith y pandemig gyda gwasanaethau a roddwyd i Lywodraeth y DU a ffynonellau eraill yn tyfu'n gryf yn ogystal â gweithgarwch arlwyo a chynadledda preswylfeydd.


## Parhaodd y gwaith o reoli gwariant yn weithredol drwy gydol y flwyddyn

Mae cyfanswm y gwariant, ac eithrio darpariaeth pensiwn USS, wedi cynyddu 5.0% i £606.5 miliwn. Mae'r cynnydd mewn gwariant i'w briodoli'n bennaf i'r ffaith bod y sefydliad yn dychwelyd i amgylchedd gweithredu a oedd bron cyn Covid-19.

Cynyddodd costau staff 3.0% yn y flwyddyn, a oedd yn llai na thyfodd incwm, er gwaethaf taliad untro o £750 i'r holl staff, i fyny o'r £250 a dalwyd yn 2020/21. Roedd y taliadau hyn yn adlewyrchu ymrwymiad ac ymroddiad eithriadol y staff yn ystod y pandemig. Cynyddodd nifer y staff cyfwerth ag amser llawn ar gyfartaledd gan 4%, i 6,032, yn bennaf mewn meysydd academaidd wrth i ni ymdrechu i wella profiad myfyrwyr a chyflawni ein hymrwymiadau ymchwil. Roedd costau staff fel cyfran o incwm yn 53.5% ac yn parhau i fod yn unol yn fras â'r flwyddyn flaenorol (53.8%).

Cynyddodd costau gweithredu £17.5 miliwn, i £212.9 miliwn, yn y flwyddyn

**Gwariant yn ôl Categori %**




wrth i'r Sefydliad ddychwelyd yn raddol i amgylchedd gweithredu arferol, wrth fuddsoddi ymhellach mewn cefnogi staff a myfyrwyr, a pharhau i gynnal campws diogel tra bo amrywiolion Covid-19 yn dal i gylchredeg ymysg poblogaeth gyffredinol y DU.

## Cynyddodd darpariaethau pensiwn

TMae cynllun Pensiwn y Prifysgolion (USS), y mae Prifysgol Caerdydd yn aelod gyflogwr ohono, yn rhoi pensiynau i staff academaidd a phroffesiynol. Mae datganiadau ariannol y Brifysgol yn adlewyrchu'r prisiad actiwaraidd ar 31 Mawrth 2020, pan oedd gan y cynllun ddiffyg o £16.1 biliwn (i fyny o £3.6 biliwn yn 2018).

Mae hyn wedi arwain at gynnydd o £118 miliwn yn y ddarpariaeth i £199 miliwn. Rhagwelwyd hyn yn adroddiad ariannol y llynedd gan fod y prisiad wedi'i gyhoeddi ar ôl y dyddiad cyfrifo ond cyn dyddiad llofnodi'r cyfrifon. Er bod y sefyllfa'n parhau'n gyfnewidiol, mae sefyllfa ariannu'r USS wedi gwella ers mis Mawrth 2020 gyda sefyllfaoedd prisio interim yn nodi bod diffyg y cynllun wedi gostwng, gan adlewyrchu'r newidiadau i fuddion a gyflwynwyd ym mis Ebrill 2022 a'r amgylchedd cyfraddau llog presennol. Disgwylir i'r prisiad nesaf gael ei gynnal ym mis Mawrth 2023 ac rydym yn parhau i fod yn obeithiol iawn am ganlyniad prisio gwell bryd hynny.

Ar ôl cwblhau prisiad Cynllun Pensiwn Prifysgol Caerdydd yn 2019, cynhaliodd y Brifysgol adolygiad strategol o'r cynllun buddion diffiniedig. Arweiniodd hyn at ymgynghori ag aelodau i gau'r cynllun i newydd-ddyfodiaid a diwygio'r strwythur buddion. Cymeradwywyd y newidiadau i'r Cynllun gan y Cyngor a chawsant eu gweithredu o 1 Ionawr 2022 ynghyd â chynllun cyfraniadau diffiniedig ar gyfer newydd-ddyfodiaid.

## Gwarged arian parod gweithredol o £50 miliwn wedi'i gadw i gefnogi buddsoddiad

Cadwodd y Brifysgol warged arian parod gweithredol yn ystod y flwyddyn o £50 miliwn neu 7.9% o incwm. Ar ôl gwasanaethu dyled, gwariant asedau sefydlog pellach ac adneuo arian mewn buddsoddiadau, gostyngodd arian parod a chronfeydd arian parod wrth gefn y Brifysgol o £52.2 miliwn i £96.4 miliwn (gweler y Datganiad Llif Arian ar dudalen 52).

Ar 31 Gorffennaf 2022, roedd y cronfeydd arian parod wrth gefn a'r buddsoddiadau sydd ar gael gan y Brifysgol yn £461 miliwn (£474 miliwn yn 2021), er bod hyn yn cynnwys £64 miliwn wedi'i neilltuo fel y Gronfa Ad-dalu Bondiau (gweler Nodyn 24).

Mae'r Brifysgol mewn sefyllfa gref yn ariannol i ddelio ag unrhyw heriau ariannol yn y dyfodol.


## Rhaglen uwchraddio'r campws wedi'i chwblhau i raddau helaeth

Yn dilyn y lefel uchaf erioed o wariant cyfalaf blynyddol y llynedd, sef £133.1 miliwn, cwblhawyd rhaglen uwchraddio'r campws yn sylweddol yn 2021/22. Eleni, cawsom agor Abacws, ein Hysgol Mathemateg ac Ysgol Cyfrifiadureg a Gwybodeg newydd, Canolfan Bywyd y Myfyrwyr, Adeilad Bute wedi'i uwchraddio i gynnwys Ysgol Pensaernïaeth Cymru, sbarc|spark, ein canolfan arloesi newydd, a'r Ganolfan Ymchwil Drosiadol, sy'n gartref newydd i Sefydliad Catalysis Caerdydd a'r Sefydliad Lled-ddargludyddion Cyfansawdd.

## Buddsoddiadau

Bu 2020/21 yn wawr ffug ar gyfer adferiad economi'r byd, gyda rhyfel yn Wcráin a'r cynnwrf economaidd a'r ansicrwydd a ddilynodd yn gyrru marchnadoedd ariannol i lawr yn fyd-eang yn ystod 2021/22 o ble y daethant i ben y flwyddyn flaenorol. O ganlyniad, gostyngodd ein balansau buddsoddi £11.6 miliwn erbyn diwedd y flwyddyn. Yn ystod y flwyddyn, aeth y Brifysgol i gost llog net o £7.5 miliwn, sef cynnydd o £0.2 miliwn ar y flwyddyn flaenorol.

### Symudiad mewn Arian Parod a Buddsoddi Wrth Gefn £m




Roedd llog blwyddyn lawn yn ddyledus ar y bond a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2021, gan gyfrif am y cynnydd mewn llog taladwy o £1.5 miliwn wedi'i wrthbwyso gan gynnydd mewn incwm buddsoddi o £1.2 miliwn.

Yn ystod y flwyddyn, mae'r Brifysgol wedi dod yn bartner yn SETsquared, deorydd busnesau prifysgol gorau'r byd. Bydd hyn yn ychwanegu'n sylweddol at ein huchelgais i droi ymchwil yn fentrau economaidd a chymdeithasol yn y byd go iawn.

## Benthyciadau

£427.1 miliwn oedd cyfanswm y benthyciadau ar ddiwedd y flwyddyn, a £421.2 miliwn ohono oedd cyfanswm y bond cyhoeddus. 3.0% y flwyddyn yw'r llog sydd arno ac mae'n ad-daladwy yn 2055. Mae Moody's wedi asesu'r bond fel A1 gyda rhagolwg sefydlog.

Mae'r Brifysgol, hyd yma, wedi neilltuo £64 miliwn o gronfeydd wrth gefn i gronfa ad-dalu bondiau sy'n cael ei buddsoddi ar sail enillion llwyr gyda'r nod o allu ariannu ad-dalu'r bond o £400 miliwn yn 2055.

Mae gan y Brifysgol Gyfleuster Credyd Cylchol tair blynedd gwerth £20 miliwn gyda Lloyds Bank i dalu am ofynion cyfalaf gweithio. Hyd yma, nid yw'r cyfleuster hwn wedi cael ei ddefnyddio a daw i ben ym mis Gorffennaf 2024.

## Mantolen Gryf

Ar 31 Gorffennaf 2022, roedd asedau net cyfunol y Brifysgol wedi gostwng 4.1% i £649 miliwn (£676 miliwn yn 2021) ac roedd £292 miliwn neu 45.1% ohonynt yn cynrychioli cronfeydd wrth gefn anghyfyngedig.

Mae'r Brifysgol wedi rheoli heriau niferus y flwyddyn ddiwethaf yn llwyddiannus oherwydd ymrwymiad sylweddol ein staff. Er na chânt eu hadlewyrchu ar fantolen y Brifysgol, ein staff yw ein hased pwysicaf a mwyaf gwerthfawr o hyd.

## Cynaliadwyedd ariannol

Yn y tymor byr, bydd y gwyntoedd economaidd byd-eang a'r sefyllfa geo-wleidyddol yn parhau i olygu y bydd perfformiad ariannol yn parhau i fod yn anodd ei ragweld a'i gyflawni. Bydd cyfraddau chwyddiant uwch yn treiddio i mewn i'n costau gweithredu, yn enwedig mewn ynni a thâl. Mae bygythiad parhaus o weithredu diwydiannol a allai effeithio ar ein gallu i gyflawni ein hamcanion. Mae cyfraddau llog uwch tebygol yn annhebygol o effeithio ar ein costau benthyca ond gallent barhau i leihau'r enillion ar ein portffolios buddsoddi. Os bydd cyfraddau llog uwch yn cael eu cynnal, rydym yn disgwyl y gallai gael effaith gadarnhaol ar ein costau a'n rhwymedigaethau pensiynau. Er gwaethaf yr heriau hyn, mae'r Brifysgol yn parhau i fod mewn cyflwr ariannol cadarn gyda thros £450 miliwn o arian parod, cyfwerth ag arian parod a buddsoddiadau yn cael eu dal gan y Brifysgol.

Yn y tymor canolig i'r tymor hwy, rydym yn parhau i ddisgwyl sicrhau twf myfyrwyr yn y farchnad ryngwladol hynod gystadleuol. Mae'n hanfodol ein bod yn gallu parhau i ddenu a chadw myfyrwyr dawnus o'r DU a thramor i gefnogi ein gweithgareddau ysgolheigaidd ar draws ystod amrywiol o ddisgyblaethau academaidd. Er mwyn gwneud hynny, byddwn yn parhau i fuddsoddi yn ein strategaeth i ddarparu prifysgol sy'n arwain y byd, sy'n rhagorol o ran ymchwil ac sy'n rhagorol yn addysgol, wedi'i hysgogi gan greadigrwydd a chwilfrydedd. Bydd y buddsoddiad sylweddol yr ydym wedi'i wneud i ddarparu campws o safon fyd-eang yn ein galluogi i gyflawni'r weledigaeth hon ochr yn ochr â buddsoddiad parhaus yn natblygiad proffesiynol ein gweithwyr.

Ein metrig perfformiad ariannol allweddol yw sicrhau gwarged gweithredu cyn incwm buddsoddi a dibrisiant o fwy na 12% o incwm. Mae hyn yn ein galluogi i gynhyrchu llif arian digonol i

Gynnal a gwella cyfleusterau'r Brifysgol a chadw cronfeydd wrth gefn sy'n ddigonol i ymdopi ag unrhyw heriau economaidd rhesymol ragweladwy.

Mae'r Brifysgol yn sganio'r gorwel risg yn barhaus ac yn diweddaru ei chofrestr risg yn rheolaidd. Mae pob risg yn cael ei graddio yn nhermau effaith a thebygolrwydd, ac mae camau lliniaru risg yn cael eu cofnodi a'u monitro. Mae'r gofrestr risg yn cael ei thrafod a'i monitro ym Mwrdd Gweithredol y Brifysgol, y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau a'r Pwyllgor Archwilio a Risg, ac yn y Cyngor. Dangosir y prif risgiau i'r Brifysgol a sut y cânt eu lliniaru yn y tablau ar dudalennau 32 i 33.

Mae ymrwymiadau cyfalaf y Brifysgol o £5.0 miliwn (£44.1 miliwn yn 2021) gryn dipyn yn llai ar y dyddiad adrodd na'r flwyddyn flaenorol o ganlyniad i'r gwaith uwchraddio ystadau gael ei' gwblhau'n sylweddol erbyn diwedd y flwyddyn. Mae ein hymrwymiadau prydles gweithredu o £39.6 miliwn (£42.4 miliwn yn 2021) hefyd yn llai wrth i'r Brifysgol geisio cael gwared ar eiddo ar brydles lle bo modd.

## Risgiau sylweddol i ddod o hyd

Er gwaethaf rheoli heriau'r pandemig yn llwyddiannus, mae'r Brifysgol yn dal i wynebu ansicrwydd a risg sylweddol. Gallai polisi Llywodraeth Cymru a'r DU yn y dyfodol gael effaith fawr ar ariannu addysg uwch. Gall yr ymateb byd-eang i'r pandemig effeithio ar y farchnad myfyrwyr rhyngwladol, tra bydd y sector gartref yn wynebu heriau mawr o ran chwyddiant, cyflogau a phensiynau.

Rydym yn parhau i ganolbwyntio ar ddarparu profiad rhagorol i fyfyrwyr ochr yn ochr â'n pum blaenoriaeth, sef iechyd a llesiant ein staff a'n myfyrwyr, cynnal cynaliadwyedd ariannol, gwella boddhad a phrofiad myfyrwyr, cefnogi grantiau a chontractau ymchwil, a pharhau i gyfrannu at ein cenhadaeth ddinesig.

## Rhagolygon ariannol gofalus

Er ein bod yn wynebu rhai risgiau gwleidyddol ac economaidd sylweddol ac ansicrwydd parhaus am y pandemig byd-eang, rydym yn parhau i fod yn ofalus ond yn optimistaidd am y dyfodol.

Mae cwblhau ein rhaglen buddsoddi cyfalaf fawr yn llwyddiannus yn creu cyfleoedd cyffrous ar gyfer ein gweithgareddau addysgu ac ymchwil.

Cawsom ein calonogi gan y galw cryf gan fyfyrwyr i astudio yng Nghaerdydd a byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar roi profiad cadarnhaol i fyfyrwyr mewn amgylchedd campws diogel.

Bydd hyn yn gofyn am fuddsoddiad parhaus mewn cymorth addysgu. Rydym yn disgwyl i wariant gynyddu wrth i ni ddychwelyd i fwy o weithgareddau ar y campws. Bydd colli cymorth incwm untro yn ystod y pandemig yn rhoi pwysau ychwanegol ar ein perfformiad ariannol a bydd gofyn rheolaeth ariannol gref barhaus ar hynny.

Mae gan y Brifysgol fantolen gref a digon o hylifedd i ddelio'n gadarnhaol â'r ansicrwydd a'r cyfleoedd a ddaw.

**Darren Xiberras,** Prif Swyddog Ariannol
**John Shakeshaft,** Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau
24 Tachwedd 2022

# Adroddiadau amgylcheddol

Mae Prifysgol Caerdydd wedi ymrwymo i ddangos arweinyddiaeth o ran cynaliadwyedd ac i wella ein perfformiad amgylcheddol. Ein gweledigaeth yw creu dyfodol cynhwysol, cynaliadwy a chadarn i'n cymuned gan sicrhau buddiannau amgylcheddol i Gaerdydd a Chymru yn ogystal â'r byd ehangach. Mae'n hollbwysig ein bod yn datblygu cynaliadwyedd amgylcheddol yn rhan annatod o'n gwerthoedd ac er mwyn ymgorffori Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig ym mhob agwedd o'n gweithgareddau academaidd a'n gwasanaethau gweithredol.

Byddwn yn hyrwyddo cynaliadwyedd trwy addysg, lledaenu gwybodaeth a chyfranogiad unigol sy'n galluogi myfyrwyr a staff i wneud newidiadau cadarnhaol i'n heffaith amgylcheddol, yn enwedig ein datganiad bod Argyfwng Hinsoddol a'n nod i fod yn garbon sero-net erbyn 2030 (Cwmpasau 1 a 2). Byddwn yn galluogi ein myfyrwyr, ein graddedigion, a'n staff i ddod yn ddinasyddion cynaliadwy sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol at gymdeithas ac yn weithgar o fewn eu cymunedau. Byddwn yn sicrhau bod datblygu cynaliadwy yn ystyriaeth bwysig wrth wneud pob penderfyniad mawr, yn hyrwyddo materion ac egwyddorion cynaliadwyedd gyda'r holl staff, myfyrwyr a rhanddeiliaid, ac yn defnyddio ein hymchwil arloesol i wella cynaliadwyedd byd-eang.

Mae ein nodau sylfaenol yn deillio ac wedi'u haddasu o Amcanion Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig, Deddf yr Amgylchedd Llywodraeth Cymru a Nodau Llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru. Mae'r rhain fel a ganlyn:

- Prifysgol lewyrchus – Cymunedol arloesol, gynhyrchiol, a charbon isel sy'n cydnabod terfynau'r amgylchedd byd-eang ac felly'n defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur, gan gynnwys cymryd camau rhag y newid yn yr hinsawdd
- Prifysgol wydn – Prifysgol sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach a gweithredol sy'n cynorthwyo gwydnwch cymdeithasol, economaidd ac ecolegol, gan ymgorffori'r gallu i addasu i newid
- Prifysgol iachach – Prifysgol sy'n darparu cyfleusterau er mwyn hwyluso ac annog staff a myfyrwyr i wneud dewisiadau iachach o ran teithio, bwyd a ffordd o fyw, sydd yn eu tro yn helpu i wella llesiant a lleihau llygredd yn lleol ac yn fyd-eang.
- Prifysgol sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang – Prifysgol fydd yn ystyried effaith ei gweithgareddau ar ddatblygu cynaliadwy byd-eang a llesiant byd-eang. Byddwn yn prynu ynni glân
- ac yn mabwysiadu arferion cyfrifol ar gyfer yr holl nwyddau a'r gwasanaethau rydym yn eu cynnal ac yn eu defnyddio. Byddwn hefyd yn mynd ati i alluogi ein hymchwil arloesol i wella cynaliadwyedd byd-eang

Ein nodau, erbyn 2023, yw:

- Byddwn yn lleihau allyriadau cwmpas 1 a 2 o leiaf 15%
- Bydd unrhyw brosiectau adnewyddu dros £250,000 yn dangos lleihad net mewn allyriadau carbon o 30% o'i gymharu â'r gosodiad gwreiddiol
- Bydd modelu carbon yn cael ei sefydlu er mwyn pennu costau cylch oes ar gyfer pob adeilad ac ased newydd yn seiliedig ar ddisgwyliad realistig o oes pob ased
- Bydd holl adeiladau a labordai gweithredol y Brifysgol yn cymryd rhan yn ein rhaglen newid ymddygiad cynaliadwyedd amgylcheddol – gan ddilyn y rhaglenni Green Impact a LEAF

## Allyriadau carbon

Mae Is-bwyllgor Cynaliadwyedd Amgylcheddol wedi'i sefydlu dan gadeiryddiaeth y Dirprwy Is-Ganghellor a bydd yn gyfrifol am fwrw ymlaen â'n gwaith carbon sero net dros y blynyddoedd i ddod. Rydym wedi diweddaru ein hymrwymiad i gyflawni carbon sero net ar gyfer cwmpas 1 (allyriadau uniongyrchol) a 2 (allyriadau anuniongyrchol) erbyn 2030 a chyn 2050 ar gyfer cwmpas 3 (allyriadau anuniongyrchol).

Byddwn yn ymgymryd â dadansoddiadau blynyddol o allyriadau ac adroddiadau blynyddol er mwyn asesu effaith y camau lliniaru carbon yr ydym yn eu rhoi ar waith.

## Cludiant a Theithio

Mae Cynllun Teithio ambarél wedi'i ddatblygu i reoli'r effaith a gaiff teithio gan staff a myfyrwyr ar yr amgylchedd lleol, yn ogystal â mynd i'r afael ag amcanion eraill sy'n ymwneud ag iechyd a llesiant a chost a hwylustod teithio.

Mae hierarchaeth deithio wrth graidd y Cynllun Teithio, sy'n rhoi blaenoriaeth i ddulliau teithio llesol.

Mae'r Cynllun Teithio yn seiliedig ar ganlyniadau arolwg teithio staff a myfyrwyr yn ogystal ag archwiliad safle wedi'i ddiweddaru ac adolygiad o ddarpariaeth a seilwaith trafnidiaeth leol.

Mae cyfres o fesurau wedi'u cynnwys a fydd yn cael eu darparu ar draws y Brifysgol, yn ogystal â mesurau penodol i safleoedd i wella mynediad trwy ddulliau cynaliadwy i rai adeiladau neu safleoedd.

Mae adroddiadau ar allyriadau carbon sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth yn cael eu datblygu i gefnogi'r gwaith o fonitro a gwerthuso llwyddiant y Cynllun Teithio, a fydd yn cael ei weithredu dros y pum mlynedd nesaf. Rhoddir ffocws penodol i feysydd sy'n debygol o gael yr effaith fwyaf, gan gynnwys adolygiad o fflyd y Brifysgol a mynd i'r afael â faint o deithiau busnes a wneir.

## Gwastraff ac Ailgylchu

Yn dilyn trawsnewid cyfleusterau Gwastraff ac Ailgylchu'r Brifysgol (ar ôl cael £1 miliwn o gyllid Economi Gylchol Llywodraeth Cymru yn llwyddiannus), bu cynnydd sylweddol mewn ailgylchu, a gostyngiad nodedig yn y swm a anfonwyd i adennill ynni.

Ar ôl trosglwyddo'n llwyddiannus i wahanu deunyddiau llawn ar y pwynt gwaredu, rydym ar y blaen i lawer yng Nghymru, gan greu llai o halogiad a deunydd ailgylchu o ansawdd gwell.

Rydym wedi aildendro ac ailddyfarnu ein contract Gwastraff Cyffredinol/Domestig ac Ailgylchu, a ddyfarnwyd i Biffa Waste Services, ac edrychwn ymlaen at feithrin partneriaeth lwyddiannus.

## Safleoedd Effaith THE

Mae'r Times Higher Education (THE) Impact Rankings yn darparu'r unig dabl perfformiad byd-eang sy'n asesu prifysgolion yn erbyn Nodau Datblygu Cynaliadwy (NDC) y Cenhedloedd Unedig. Mae dangosyddion wedi'u graddnodi yn darparu cymariaethau cynhwysfawr a chytbwys ar draws tri maes eang: ymchwil, allgymorth a stiwardiaeth.

Cynyddodd y Brifysgol ei chyflwyniad tystiolaeth ar gyfer chwe NDC allan o 17 yn 2021 i ddeg yn 2022. Roedd canlyniadau 2022 yn gosod y Brifysgol yn y band 101-200 yn fyd-eang. Gwellodd ein sgôr cyffredinol o 77.9% i 88.5%.

Gosodwyd tri NDC yn y 50 uchaf yn fyd-eang: NDC15: Bywyd ar Dir (26); NDC16: Heddwch, Cyfiawnder a Sefydliadau Cryf (38) ac NDC3: Iechyd a Lles Da (41). Gosodwyd pedwar NDC yn yr 20 uchaf yn y DU: NDC3: Iechyd a lles da (4); NDC15: Bywyd ar dir (8); NDC14: Bywyd o dan ddŵr (10); NDC16: Heddwch, cyfiawnder a sefydliadau cryf (11).

## Rhwydwaith Hyrwyddwyr Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy

Rydym wedi sefydlu rhwydweithiau ar gyfer Hyrwyddwyr Datblygu Cynaliadwy Addysg ar draws ein colegau. Y nod yw deall sut mae cynaliadwyedd yn cael ei ymgorffori ar hyn o bryd ym mhob rhan o'n cwricwla. Mae arolwg o arferion presennol wedi nodi dros 80 o astudiaethau achos ar draws ein hysgolion sy'n mynd i'r afael ag ystod eang o heriau byd-eang, gan alluogi ein myfyrwyr i ymgysylltu â'r berthynas rhwng eu disgyblaethau academaidd a phob un o'r 17 o Nodau Datblygu Cynaliadwy (NDC) y Cenhedloedd Unedig. Yn dilyn yr arolwg hwn, bydd yr hyrwyddwyr yn gweithio tuag at yr uchelgais y bydd ein holl fyfyrwyr yn cael y cyfle i ymgysylltu â'r Nodau Datblygu Cynaliadwy yn ystod eu hamser gyda ni.

## Cynllun Gweithredu Cydnerthedd Ecosystemau a Bioamrywiaeth

Sefydlwyd Cynllun Gweithredu Gwydnwch Ecosystemau a Bioamrywiaeth (ERBAP) y Brifysgol yn 2020 ac roedd yn cynnwys y Dangosydd Perfformiad Allweddol o wella bioamrywiaeth ar draws 30% o ystad y Brifysgol erbyn 2023. Yn unol â'r nod uchelgeisiol hwn, rydym wedi nodi safleoedd allweddol ar draws y Brifysgol ar gyfer gwella seilwaith gwyrdd drwy blannu coed newydd. Bydd y coed hyn yn cael eu cyrchu a'u plannu yn ystod gaeaf 2022, mewn cydweithrediad â rhaglen Coed Caerdydd Cyngor Dinas Caerdydd, gyda'r Brifysgol yn cyfrannu at nod y Cyngor i gynyddu gorchudd canopi ar draws y ddinas i 25% erbyn 2030. Byddwn yn parhau i nodweddu ein stoc coed bresennol er mwyn deall yn llawn y carbon yr ydym yn ei atafaelu ar hyn o bryd a byddwn yn parhau i wella bioamrywiaeth ar draws yr ystad gyda rhwydwaith o ardaloedd cynnal a chadw isel a dim torri gwair wedi'u sefydlu erbyn mis Chwefror 2023. Yn 2022, lluniodd tîm o fyfyrwyr Meistr yn yr Ysgol Pensaernïaeth ganllaw plannu coed i sicrhau ein bod yn plannu'r 'coed cywir yn y lle cywir', yn unol â chyfyngiadau seilwaith gwyrdd a llwyd lleol ar draws yr ystad. Rydym wedi creu dolydd hardd ac ardaloedd eraill sy'n gyfeillgar i fywyd gwyllt ar draws Parc Cathays a byddwn yn dechrau rhaglen nodweddu a monitro fawr yn 2023.

## Campws sy'n gyfeillgar i ddraenogod

Dyfarnwyd Achrediad Efydd i'r Brifysgol gan yr ymgyrch Campws Cyfeillgar i Ddraenogod ym mis Ionawr i gydnabod ymdrechion staff a myfyrwyr i wneud y campws yn gynefin gwell i'r rhywogaeth.

Gan adeiladu ar y gwaith hwnnw, ym mis Mawrth dyfarnwyd Grant Gweithgarwch Cymunedol Awr Ddaear 2022 i ni ar gyfer ein hymgyrch 'HogBuzz'. Helpodd hyn ni i barhau i godi ymwybyddiaeth am yr ymgyrch gyda staff a myfyrwyr, a chael mwy o dwneli tracio ôl troed, dau gamera bywyd gwyllt, hadau blodau gwyllt ac offer plannu. Gwnaethom hefyd gynnal digwyddiad a oedd yn cynnwys plannu blodau gwyllt a sesiynau hyfforddi arolygu draenogod a pharhau i weithio ar ddatblygu ein cornel bywyd gwyllt y tu allan i'n Prif Adeilad.

Gwnaethom gadarnhau bod gan 12 o safleoedd bresenoldeb draenogod ar ein campws, a thros y flwyddyn, rydym wedi trawsnewid rhai ardaloedd i gynnal draenogod a rhywogaethau eraill. Mae hyn yn cynnwys gosod pump o dai draenogod ar draws ein safle a chreu ardaloedd bywyd gwyllt ac ardaloedd llesiant o amgylch rhannau o'r campws. Mae hyn yn cynnwys plannu blodau gwyllt, gosod gwestai trychfilod a baddonau adar, creu mannau nythu/gaeafgysgu i ddraenogod, pentyrrau o foncyffion/dail a morlynnoedd pryfed hofran.

Aethom â'n gwaith allan i'r gymuned ehangach hefyd, gan ymgysylltu â phedair ysgol gynradd yn ne Cymru mewn sesiynau ar-lein a sesiynau wyneb yn wyneb,ac addysgu plant am ddraenogod a sut i adeiladu tai draenogod.

Mae'r Brifysgol bellach yn gweithio tuag at yr Achrediad Arian o'r ymgyrch Campws Cyfeillgar i Ddraenogod.

## Newid Camau Caerdydd

Mae Newid Camau yn rhaglen wobrwyo am ddim a ariennir gan y Brifysgol. Mae wedi'i gynllunio i helpu staff a myfyrwyr i symud o gwmpas yn fwy cynaliadwy. Mae'n gwobrwyo teithio cynaliadwy ar gyfer teithiau cymudo a hamdden i'r campws ac yn ôl iddo, ac yn annog pobl i gerdded, rhedeg, defnyddio olwynion a beicio'n rheolaidd at ddibenion iechyd a llesiant.

Cofnodwyd 99,428 o deithiau llesol a chynaliadwy ar ap Newid Camau Caerdydd rhwng 27 Medi 2021 a 17 Mehefin 2022, gyda chyfartaledd o 182 o deithiau fesul cyfranogwr. Cerdded oedd y gweithgaredd mwyaf poblogaidd, gan gyfrif am 78% o gyfanswm y gweithgarwch, gyda beicio a theithio ar fws yn 10% a 5% yn y drefn honno.

# Datganiad o Fudd Cyhoeddus

Mae Prifysgol Caerdydd yn elusen gofrestredig (rhif 1136855). Ei diben yw creu a rhannu gwybodaeth, ac addysgu er budd pawb. Mae ei Siarter Frenhinol, a ddyfarnwyd yn y lle cyntaf ym 1884, yn nodi ei threfniadau cyfansoddiadol a'i hamcanion. Mae'r amcanion hynny'n ymgorffori'r egwyddor syml o hyrwyddo addysg, gan alluogi'r Brifysgol i gynnal gwaith ymchwil, addysgu, arholi, a dyfarnu graddau. Mae'r amcanion hefyd yn cynnwys rhwymedigaethau i ddatblygu cymeriad myfyrwyr, hybu iechyd a llesiant – yn enwedig yng Nghymru – a chyfrannu at ddatblygiad cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd.

Mae Prifysgol Caerdydd yn aelod o Grŵp Russell o brifysgolion ymchwil ddwys, ac mae o'r farn fod ymchwil sylfaenol yn hanfodol i ddyheadau dynol ac yn hollbwysig o ran datblygu arteffactau, technolegau a gwasanaethau diwylliannol sy'n gwella ansawdd bywyd pawb. Wrth bennu ac adolygu amcanion a gweithgareddau'r Brifysgol, mae Cyngor y Brifysgol wedi rhoi sylw dyledus i ganllawiau Comisiwn yr Elusennau ynghylch sut i adrodd am fudd i'r cyhoedd, yn enwedig ei chanllawiau atodol ynghylch hyrwyddo addysg. Mae Ffordd Ymlaen 2018–2023 (Ail-lunio Covid-19) yn nodi themâu strategol y Brifysgol, sy'n cael eu crynhoi isod.

## Addysg a Myfyrwyr

Mae'r Brifysgol yn cynnig profiad addysgol rhagorol a phrofiad o safon gyson uchel i'n myfyrwyr sy'n cael ei ysgogi gan greadigrwydd a chwilfrydedd. Ein nod yw gwella dysgu a chefnogi bywyd myfyrwyr. Yn ystod cyfnod digynsail Covid-19, darparwyd llawer o agweddau ar ein darpariaeth mewn amgylchedd ar-lein, o bell, a chyfunol erbyn hyn, ac mae myfyrwyr wedi elwa ar gael cymorth ac addysg ar-lein yn barhaus i'w galluogi i symud ymlaen, graddio, a dod o hyd i waith neu astudio ymhellach. Ein blaenoriaethau o hyd yw cynnig profiad o safon uchel i'n myfyrwyr, cynnal safonau academaidd ein graddau, a sicrhau diogelwch a llesiant ein staff a'n myfyrwyr. Gan adeiladu ar ein hanes cryf o ehangu cyfranogiad, rydym yn parhau i flaenoriaethu'r gwaith o sicrhau bod myfyrwyr o amrywiaeth o gefndiroedd yn cael mynediad at fanteision addysg uwch, ac mae hyn hefyd ynghyd â gwaith ar gadw myfyrwyr a'u llwyddiant. Yn ein darpariaeth gyfunol, gan gyfuno dulliau wyneb yn wyneb yn yr ystafell ddosbarth â gweithgareddau cyfrifiadurol neu ddarpariaeth ar-lein, mae myfyrwyr yn elwa ar ddull addysgeg o ansawdd uchel tuag at ddysgu digidol sy'n caniatáu iddynt lwyddo, ac i barhau ar eu taith addysg ysbrydoledig.

## Ymchwil ac Arloesedd

Bu'r Brifysgol, trwy ei gwaith ymchwil, yn gweithredu'n gyflym yn ei hymateb ac yn cyfrannu'n weithredol at ymdrechion adfer Covid-19 mewn perthynas â mynd i'r afael â'r afiechyd a brwydro yn erbyn yr heriau cymdeithasol ehangach ar ôl Covid-19. Rydym wedi parhau i gefnogi ein staff a'n myfyrwyr yn ystod yr amser anodd hwn, gan sicrhau, lle bo hynny'n ddiogel ac yn bosibl, fod ymchwil wedi parhau i ganiatáu i ni gyfrannu at fynd i'r afael â materion byd-eang beirniadol sy'n gofyn am gydweithio ar draws disgyblaethau. Er enghraifft, mae ein hymchwilwyr yn mynd i'r afael â heriau mawr sy'n wynebu cymdeithas, yr economi a'r amgylchedd yng Nghymru, yn y DU ac yn fyd-eang, gan gyflawni datblygiadau arloesol mewn meysydd fel iechyd meddwl, lled-ddargludyddion cyfansawdd, seryddiaeth, newid hinsawdd a diwydiannau creadigol. Mae'r Brifysgol hefyd wedi sefydlu ei hun fel Cartref Arloesedd drwy weithredu strategaeth arloesedd newydd, gan sicrhau bod effeithiau ei hymchwil yn gwneud gwahaniaeth, gan weithio'n aml mewn partneriaeth â busnesau a sefydliadau yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector. Rydym yn buddsoddi mewn cyfleusterau pwrpasol ar gyfer cydweithio arloesol â diwydiant, llywodraeth a chymdeithas ehangach, ac yn gwella cefnogaeth i fyfyrwyr gymryd rhan mewn arloesedd a hyfforddiant entrepreneuraidd. Mae hyn yn sicrhau y gall pob aelod o Brifysgol Caerdydd gyfrannu at dwf yr economi wybodaeth. Yn unol â'n gweithgareddau Cenhadaeth Ddinesig, mae ein hymchwilwyr hefyd yn gweithio gyda chymunedau lleol, gan gefnogi mathau newydd o addysg a newid economaidd-gymdeithasol yn ein rhanbarth.

## Rhyngwladol

Mae'r Brifysgol yn sefydliad byd-eang a chanddi dros 9,500 (mwy na 25% o gyfanswm corff y myfyrwyr) o fyfyrwyr rhyngwladol (gan gynnwys y rhai o'r UE) o dros 130 o wledydd a chysylltiadau ffurfiol â thros 300 o sefydliadau ledled y byd. Mae'n cydweithio â phartneriaid busnes ac addysg ledled y byd, gan gynnwys partneriaethau strategol ffurfiol â Phrifysgol Xiamen a Phrifysgol Normal Beijing yn Tsieina, Prifysgol Campinas ym Mrasil, Prifysgol Bremen yn yr Almaen a Phrifysgol Waikato yn Seland Newydd. Mae cysylltiadau cryf y Brifysgol â sefydliadau ledled y byd yn golygu bod llawer o'i myfyrwyr yn cael y cyfle i astudio, gweithio, neu wirfoddoli dramor. Mae'n denu academyddion ac ymchwilwyr o'r safon uchaf o bob cwr o'r byd. Mae staff rhyngwladol yn ffurfio mwy na 30% o'r corff academaidd, gan wella'r profiad dysgu i fyfyrwyr a dod â phersbectif byd-eang i'w ymchwil. Mae ei hymchwilwyr yn cydweithio â phartneriaid ledled y byd i fynd i'r afael â materion byd-eang fel addasu i'r newid yn yr hinsawdd er mwyn cael gwell diogelwch o ran bwyd a dŵr, lliniaru allyriadau CO2 drwy eu storio mewn dyddodion glo, a phensaernïaeth enetig anhwylderau meddyliol.

## Y Genhadaeth Ddinesig

Mewn ymateb i'r argyfwng cymdeithasol ac iechyd a achoswyd gan Covid-19, mae'r Brifysgol wedi ail-lunio ei chenhadaeth ddinesig. Mae wedi ymrwymo i ddefnyddio ei chryfderau ymchwil, ei harbenigedd a'i gwybodaeth i helpu'r llywodraeth, gwasanaethau iechyd a'r gymdeithas ehangach i adfywio ac adnewyddu tirwedd economaidd, gymdeithasol a diwylliannol Cymru mewn ymateb i'r pandemig. Bydd cryfderau ymchwil y Brifysgol yn cael eu defnyddio i wella cyfraniadau'r genhadaeth ddinesig at heriau cymdeithasol newydd y mae Cymru'n eu hwynebu, ochr yn ochr ag adfywiad ac adnewyddiad llwyddiannus. Mae cefnogi'r gwaith o greu swyddi newydd yn hollbwysig o ystyried effaith economaidd y feirws. Bydd y Brifysgol, nawr yn fwy nag erioed, yn parhau i gyfrannu at ddatblygiadau newydd ym maes addysg gydag ysgolion cynradd ac uwchradd a cholegau addysg bellach. Mae ei phartneriaeth â'r GIG yn llawer mwy arwyddocaol. Mae gan y Brifysgol ymdeimlad cryf o le yn rhanbarth Caerdydd a De Cymru a bydd yn parhau i wella a dathlu diwylliant Cymraeg ei champws yn unol â'i Strategaeth Gymraeg

# Datganiad Llywodraethu Corfforaethol

Mae statws cyfreithiol y Brifysgol yn deillio o Siarter Frenhinol a ddyfarnwyd yn y lle cyntaf gan y Frenhines Victoria ym 1884 i sefydlu Coleg Prifysgol De Cymru a Sir Fynwy. Nodir amcanion, pwerau a fframwaith llywodraethu y Brifysgol yn ei Siarter a'i Statudau ategol, y cymeradwyodd y Cyfrin Gyngor y diwygiadau diweddaraf iddynt yn 2022.

Mae egwyddorion sylfaenol wedi'u hymgorffori yn y Siarter, megis pŵer y Brifysgol i addysgu, arholi, cynnal ymchwil a dyfarnu graddau. Mae'r Siarter hefyd yn rhoi 'awdurdod goruchaf' i'r Cyngor, yn sefydlu'r Senedd ar gyfer 'trefnu materion academaidd', ac yn sefydlu'r Llywydd a'r Is-Ganghellor fel 'prif swyddog academaidd a gweithredol' a Chadeirydd y Senedd.

Cofrestrwyd y Brifysgol fel elusen yn 2010 (1136855).

## Y Cyngor

Y Cyngor yw'r corff llywodraethol, ac yn rhinwedd hynny'n brif awdurdod y Brifysgol, sy'n golygu mai'r Cyngor, yn y pen draw, sy'n atebol am ymddygiad a gweithgaredd y Brifysgol a'i chynrychiolwyr.  Mae'r Cyngor yn gyfrifol am weinyddu a rheoli materion y Brifysgol ac am gytuno ar gyfeiriad strategol cyffredinol y sefydliad.

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gynnal ei fusnes yn unol ag egwyddorion Nolan a nodwyd gan y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus (anhunanoldeb, uniondeb, gwrthrychedd, atebolrwydd, bod yn agored, gonestrwydd ac arweinyddiaeth). Mae'r Cyngor yn cydymffurfio â Chod Llywodraethu Addysg Uwch y Pwyllgor Cadeiryddion Prifysgolion a gyhoeddwyd ym mis Medi 2020 a Chod Ymarfer Pwyllgor Archwilio y Pwyllgor Cadeiryddion Prifysgolion (Mai 2020), a nodwyd nifer o feysydd i'w gwella yn ystod y flwyddyn i ddod er mwyn cryfhau'r dystiolaeth ar gyfer cydymffurfedd, gan gynnwys dogfennu prosesau a pholisïau presennol, a chymeradwyo rhan olaf Cynllun Dirprwyo'r Brifysgol. Mae'r Brifysgol hefyd wedi mabwysiadu Siarter Llywodraethu Prifysgolion Cymru.

Wrth lunio'r datganiad hwn, mae Cyngor y Brifysgol wedi rhoi sylw i'r canllaw a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Elusennau.

(i) bod ymarfer y Brifysgol yn gyson â phob elfen o God Llywodraethu AU y Pwyllgor Cadeiryddion Prifysgolion; a

(ii) bod polisïau ac arferion codi arian y Brifysgol yn cyd-fynd yn llwyr â gofynion y Rheoleiddiwr Codi Arian a nodir yng Nghod Ymarfer Codi Arian y Brifysgol. Ni chafwyd unrhyw gwynion am godi arian yn ystod y cyfnod adrodd.

Mae ymrwymiad y Brifysgol i holl gyllidwyr y Brifysgol, ac ymrwymiadau ychwanegol i roddwyr dyngarol i'r Brifysgol, ar gael ar wefan y Brifysgol:

**https://www.cardiff.ac.uk/donate/other-ways-to-give/funders-rights**

Mae'r Brifysgol yn cynnal adolygiadau effeithiolrwydd y Cyngor yn rheolaidd a chynhaliwyd yr adolygiad allanol diwethaf yn 2021. Daeth yr Adroddiad i'r casgliad bod effeithiolrwydd llywodraethu cyffredinol y Brifysgol yn foddhaol, heb unrhyw wendidau perthnasol. Cymeradwywyd cynllun gweithredu i gefnogi rhoi'r argymhellion ar waith gan y Cyngor ym mis Gorffennaf 2021 ac, yn ystod 2021-22, mae'r cynnydd i gwblhau'r camau gweithredu wedi'i fonitro gan y Pwyllgor Llywodraethu. Mae'r rhan fwyaf o'r camau gweithredu bellach wedi'u cwblhau ac mae'r gweddill ar y trywydd iawn i gael eu cwblhau yn ystod 2022-23.

Mae'r Pwyllgor Llywodraethu hefyd yn derbyn adroddiadau cynnydd rheolaidd yn erbyn argymhellion sy'n weddill o adolygiadau llywodraethu cynharach, gan gynnwys Ymrwymiad i Weithredu Siarter Lywodraethu Prifysgolion Cymru (Adolygiad Camm). Yng ngoleuni'r rhain, mae'r Cyngor wedi myfyrio yn ystod 2021-22 ar ei ddiwylliant fel corff llywodraethu a diwylliant y Brifysgol yn ehangach ac mae'n bwriadu rhoi datganiad diwylliannol ar waith i sicrhau aliniad rhwng y Cynllun Strategol ac arferion gwaith, ac i integreiddio diwylliant o fewn ei fecanweithiau ar gyfer gwneud penderfyniadau ac adrodd.

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i'r safonau uchaf o ddidwylledd, cywirdeb ac atebolrwydd ac mae'n ceisio gwneud ei gwaith mewn modd cyfrifol. Mae ganddi Bolisi Chwythu'r Chwiban (Datgan Budd y Cyhoedd) ar waith er mwyn galluogi staff, myfyrwyr ac aelodau eraill y Brifysgol i godi pryderon sy'n berthnasol i'r cyhoedd.

Dros y flwyddyn, rydym wedi defnyddio manteision cadarnhaol gweithio hybrid (rhithwir ac wyneb yn wyneb) i gyfathrebu â rhanddeiliaid allweddol ar amrywiaeth o weithgareddau.  Mae sesiynau Datblygu'r Cyngor wedi cynnwys Undeb y Myfyrwyr, aelodau Gweithrediaeth y Brifysgol, a Chyfarwyddwyr Gwasanaethau Proffesiynol, i drafod datblygiadau fel arallgyfeirio rhyngwladol, effaith Covid-19,

Dangosyddion Perfformiad Allweddol, a diwylliant.  Mae cynrychiolwyr o Advance HE a CCAUC hefyd wedi bod yn rhan o'n hamserlen ddatblygu. Ymgynghorwyd â'r corff llywodraethu ar eu hoffterau ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid yn y dyfodol. Mae Bwrdd Gweithredol y Brifysgol wedi cynnal adolygiad o ymgysylltu â rhanddeiliaid yn dilyn cymeradwyaeth gan y Cyfrin Gyngor i ddileu'r Llys, ac mae'r canlyniadau o hyn wedi'u rhannu â'r Senedd a'r Cyngor.

Mae gan y Cyngor fwyafrif o aelodau o'r tu allan i'r Brifysgol (a ddisgrifir fel aelodau lleyg).  Mae aelodau'r Cyngor yn cynnwys staff a myfyrwyr hefyd. Caiff aelodau lleyg y Cyngor eu recriwtio mewn modd agored, teg a thryloyw, a rhoddir sylw dyledus i gydraddoldeb ac amrywiaeth, yr angen i gydbwyso sgiliau ac arbenigedd, yn ogystal â lleoliad daearyddol.

O ran amrywiaeth mewn ystafelloedd bwrdd, rydym yn parhau i adeiladu ar gamau gweithredu ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol i hyrwyddo a datblygu diwylliant a llywodraethu cynhwysol (mewnol) drwy fynd i'r afael ag amrywiaeth pwyllgorau gwneud penderfyniadau.  Rydym wedi gwella ein dulliau cipio data, a chanllawiau ar gynwysoldeb ar gyfer cyfarfodydd pwyllgor, ac yn parhau i ddefnyddio hyn i lywio prosesau recriwtio a chynefino aelodau lleyg. Rydym yn bwriadu datblygu'r gwaith hwn ymhellach yn ystod 2022-23 drwy ffurfioli ein polisi ar amrywiaeth ac aelodaeth. Bu aelodau'r Cyngor hefyd yn cymryd rhan mewn gweithdy ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant i adlewyrchu ar rôl a blaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer y flwyddyn. Yn 2021, daethom yn bartner lansio gyda Chynllun Prentisiaeth Llywodraethwyr Perrett Laver, gyda'n prentis llywodraethwr cyntaf yn cymryd rhan yn llwyddiannus yn y cynllun yn ystod 2021-22.  Mae'r cynllun yn cefnogi amrywiaeth mewn ystafelloedd bwrdd drwy alluogi cronfa amrywiol a thalentog o ymgeiswyr sydd fel arall heb brofiad mewn ystafelloedd bwrdd, i gael y profiad hwnnw.

Mae'r Is-bwyllgor Enwebiadau (un o is-bwyllgorau'r Pwyllgor Llywodraethu) yn gyfrifol am oruchwylio'r broses recriwtio ac argymell aelodau lleyg newydd i'r Cyngor i'w cymeradwyo.  Bob blwyddyn, mae'r Pwyllgor yn adolygu rhestr o aelodau lleyg i adolygu dyddiadau diwedd tymor i ystyried cynllunio olyniaeth. Caiff yr holl swyddi gwag ar gyfer Aelodau Lleyg Annibynnol y Cyngor eu hysbysebu'n allanol, yn ogystal â chael eu cyfleu i staff, myfyrwyr ac aelodau presennol y Cyngor, gyda datganiadau o ddiddordeb i'w croesawu yn arbennig gan grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.  Yn 2021-22, adolygodd y Brifysgol y broses ar gyfer recriwtio cadeirydd a phenodi is-gadeirydd, cyn cychwyn ymgyrch recriwtio ar gyfer cadeirydd newydd i'r Cyngor. Trwy adolygu ei disgrifiad rôl a defnyddio cwmni recriwtio allanol, roedd y Brifysgol yn gallu sicrhau bod modd cyrraedd cronfa eang ac amrywiol o ymgeiswyr. Rydym hefyd wedi adolygu a chyflwyno matrics sgiliau diwygiedig a ddefnyddir gan y Pwyllgor Llywodraethu i lywio anghenion recriwtio'r Cyngor.

Nid yw aelodau lleyg yn cael eu talu o gwbl, ar wahân i ad-dalu treuliau, am  y gwaith y maent yn ei wneud i'r Brifysgol. Wrth gael eu penodi i'r Cyngor, gofynnir i aelodau lenwi ffurflen Cofrestr Buddiannau.  Mae'r Gofrestr Buddiannau bresennol ar gael yn gyhoeddus ar ein gwefan:

**https://www.cardiff.ac.uk/about/organisation/governance/council**

Drwy gydol blwyddyn academaidd 2021-22, cyfarfu'r Cyngor chwe gwaith, gan gymeradwyo nifer o achosion busnes ac adolygu cyfeiriad strategol a phenderfyniadau ar draws nifer o weithgareddau'r Brifysgol, gan gynnwys sefydlu Canolfan Arloesedd Seiber a arweinir gan Brifysgol Caerdydd, darparu'r Is-Strategaeth Addysg a Myfyrwyr, a buddsoddiad yn y Brifysgol a'r ystad.  Mae'r Cyngor wedi parhau i oruchwylio ymateb parhaus y Brifysgol i bandemig Covid-19. Cynhaliodd y Cyngor gyfarfod arbennig i ystyried penodi'r Archwiliwr Allanol yn dilyn ymarfer tendro cystadleuol a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn. Penodwyd KPMG yn Archwiliwr Allanol y Brifysgol o fis Mehefin 2022.

Mae pob aelod newydd o'r Cyngor yn cael cyfnod cynefino i'r Brifysgol a'i gyfrifoldebau fel aelod o'r corff llywodraethu. Mae rhaglen ddatblygu flynyddol sy'n canolbwyntio ar rannu gwybodaeth ac mae'n creu cyfleoedd i drafod i aelodau'r Cyngor a Thîm Gweithredol y Brifysgol.  Cesglir adborth gan bob aelod o'r Cyngor i lywio amserlen ddatblygu flynyddol. Mae'r pecyn sefydlu wedi'i adolygu i sicrhau bod yr wybodaeth a ddarperir i aelodau newydd yn gyfredol.

Mae Cadeirydd y Cyngor yn cynnal gwerthusiad blynyddol gyda holl aelodau'r Cyngor a defnyddir yr adborth hwn i lywio a gwella effeithiolrwydd y corff llywodraethu. Cynhaliodd Cadeirydd ymadawol y Cyngor arfarniadau yn ystod Haf 2021 a bydd y Cadeirydd newydd, a benodwyd yn ystod y flwyddyn, yn ailadrodd yr ymarfer hwn yn hydref 2022. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg hefyd yn cynnal adolygiad blynyddol o'i effeithiolrwydd, a oedd yn 2021-22 drwy arolwg hunanarfarnu. Bwriedir cynnal yr Adolygiad Effeithiolrwydd Llywodraethu nesaf ar gyfer 2024.

## Swyddog Atebol

Yr Is-Ganghellor yw prif weithredwr a phrif swyddog academaidd a gweinyddol y Brifysgol. Mae'n atebol i'r Cyngor am gynnal a hybu effeithlonrwydd a threfn dda'r Brifysgol.

O dan Delerau ac Amodau Ariannu rhwng y Brifysgol a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, yr Is-Ganghellor yw Swyddog Atebol y Brifysgol ac, yn rhinwedd y swydd honno, gallai gael cais i ymddangos gerbron Pwyllgor Archwilio Llywodraeth Cymru.

## Rheoli

Ac yntau'n brif weithredwr y Brifysgol, mae gan yr Is-Ganghellor gyfrifoldeb dros ddatblygu strategaeth sefydliadol, adnabod a chynllunio datblygiadau newydd, a llunio ethos sefydliadol. Mae'r Dirprwy Is-Ganghellor, y Rhag Is-Gangellorion, Deoniaid y Brifysgol a'r uwch-swyddogion proffesiynol oll yn cyfrannu mewn gwahanol ffyrdd at yr agweddau hyn ar y gwaith, ond y Cyngor sydd â'r prif awdurdod.

# Aelodaeth y Cyngor

Bu pawb a restrwyd isod yn Ymddiriedolwyr yr Elusen drwy gydol y flwyddyn o dan sylw yn yr Adroddiad hwn. Oni nodir fel arall, roeddent hefyd yn y swyddi hynny ar ddyddiad cymeradwyo'r Adroddiad. O 1 Ionawr 2022, penodwyd Mr Patrick Younge yn Gadeirydd newydd y Cyngor. Mae ymddiriedolwyr a benodwyd ar ôl 1 Awst 2022 a hyd at lofnodi'r adroddiad blynyddol wedi'u cynnwys er gwybodaeth ac ni chofnodwyd unrhyw bresenoldeb ar gyfer blwyddyn academaidd 2021-22. Adolygir presenoldeb aelodau gyda Chadeirydd y Cyngor fel rhan o'r broses arfarnu aelodau flynyddol, oni bai y'i trafodwyd eisoes yn ystod y flwyddyn.

| Enw | Categori | Presenoldeb yn y Cyngor |
|---|---|---|
| 1. **Yr Athro Rudolf Allemann** | Gweithiwr | 6/7 |
| 2. **Yr Athro Rachel Ashworth** | Gweithiwr | 6/7 |
| 3. **Paul Baston** | Gweithiwr | 4/7 |
| 4. **Yr Athro Marc Buehner** | Gweithiwr | 4/7 |
| 5. **Ricardo Calil** (daeth ei dymor i ben ar 31 Gorffennaf 22) | Gweithiwr | 7/7 |
| 6. **Hannah Doe, Undeb y Myfyrwyr** (daeth y tymor i ben ar 30 Mehefin 22) | Myfyriwr | 5/6 |
| 7. **Gina Dunn, Undeb y Myfyrwyr** | Myfyriwr | 7/7 |
| 8. **Judith Fabian** | Lleyg | 7/7 |
| 9. **Yr Athro Dame Janet Finch** | Lleyg | 6/7 |
| 10. **Angie Flores Acuña** (penodwyd o 1 Gorffennaf 22) | Myfyriwr | 1/1 |
| 11. **Yr Athro Ken Hamilton** (daeth ei dymor i ben ar 31 Gorffennaf 22) | Gweithiwr | 4/7 |
| 12. **Michael Hampson** | Lleyg | 5/7 |
| 13. **Chris Jones** | Lleyg | 5/7 |
| 14. **Jan Juillerat, Is-gadeirydd y Cyngor** | Lleyg | 7/7 |
| 15. **Jeremy Lewis** (penodwyd o 1 Awst 22) | Lleyg | - |
| 16. **Dr Joanna Newman** | Lleyg | 3/7 |
| 17. **Yr Athro Stuart Palmer, Cadeirydd** (daeth ei dymor i ben ar 31 Rhagfyr 21) | Lleyg | 2/2 |
| 18. **Suzanne Rankin** (penodwyd o 28 Ebrill 22) | Lleyg | 1/2 |
| 19. **Yr Athro Colin Riordan, Is-Ganghellor** | Gweithiwr | 6/6 |
| 20. **Dr Pretty Sagoo** | Lleyg | 3/7 |
| 21. **David Selway** (penodwyd o 1 Awst 22) | Lleyg | - |
| 22. **John Shakeshaft** | Lleyg | 7/7 |
| 23. **David Simmons** (daeth ei dymor i ben ar 31 Gorffennaf 22) | Lleyg | 3/7 |
| 24. **T Barnwr Ray Singh** (daeth ei dymor i ben ar 31 Gorffennaf 22) | Lleyg | 5/7 |
| 25. **Dr Janet Wademan** (daeth ei thymor i ben ar 31 Gorffennaf 22) | Lleyg | 6/7 |
| 26. **Yr Athro Damian Walford Davies** | Gweithiwr | **5/7** |
| 27. **Yr Athro Stuart Walker** (ymddiswyddodd 22 Chwefror 22) | Lleyg | 3/4 |
| 28. **Jennifer Wood** (penodwyd o 1 Awst 22) | Lleyg | - |
| 29. **Agnes Xavier-Phillips** | Lleyg | 7/7 |
| 30. **Patrick Younge, Chair of Council** (penodwyd o 1 Ionawr 22) | Lleyg | 5/5 |

Rhaid i'r Brifysgol fabwysiadu diffiniad o annibyniaeth ar gyfer aelodau lleyg cyrff llywodraethu er mwyn darparu dull cadarn o nodi a rheoli gwrthdaro buddiannau.[1]

## Sut mae annibyniaeth yn cael ei diffinio a'i phrofi?

Mae nifer o amgylchiadau a allai atal person rhag cael ei benodi'n aelod annibynnol o'r corff llywodraethu. Mae Is-bwyllgor Enwebiadau'r Corff Llywodraethu yn goruchwylio'r broses benodi ac yn gyfrifol am ystyried y ffactorau hyn.

Mewn ymateb i Ymrwymiad i Weithredu Siarter Prifysgolion yng Nghymru, mae'r Brifysgol wedi mabwysiadu Datganiad o Annibyniaeth yn seiliedig ar ganllawiau Grŵp Ysgrifenyddion a Chlercod Cymru, gan gynnwys Diffiniad o Annibyniaeth ac Egwyddorion Annibyniaeth ar gyfer aelodau lleyg. Mae'r Brifysgol yn diffinio 'uwch-weithwyr' fel aelodau Bwrdd Gweithredol y Brifysgol yn y cyd-destun hwn.

Mae'r broses gadarn ar gyfer sicrhau annibyniaeth drwy recriwtio a hyfforddi aelodau hefyd wedi'i nodi yn y Datganiad Annibyniaeth. Wrth ystyried ceisiadau a chyfweld â darpar lywodraethwyr newydd, bydd paneli recriwtio yn penderfynu a oes gan yr unigolyn unrhyw berthnasoedd neu statws a allai arwain at wrthdaro buddiannau neu deyrngarwch, fel y'u diffinnir yn yr Egwyddorion Annibyniaeth ac yn cynnwys perthyn i unrhyw uwch gyflogai i sefydliad sy'n cael mantais ariannol gan y Brifysgol.

Mae Datganiad Annibyniaeth y Brifysgol ar gael ar dudalennau gwe llywodraethu'r Brifysgol yn:

**https://www.cardiff.ac.uk/cy/about/organisation/governance/council**

1. Ffynhonnell: Mae'r Siarter Lywodraethu ar gyfer Prifysgolion yng Nghymru – Ymrwymiad i Weithredu ar gael yn **http://uniswales.ac.uk/media/Universities-of-Wales-Governance-charter-committments-FINAL-FOR-PUBLICATION-CL.pdf**

## Sut mae'r corff llywodraethu'n rheoli gwrthdaro buddiannau?

Mae Cofrestr Buddiannau holl aelodau'r Cyngor a'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn cael ei chynnal gan Ysgrifennydd y Cyngor ac mae ar gael yn gyhoeddus ar dudalennau gwe llywodraethu'r Brifysgol yn:

**https://www.cardiff.ac.uk/cy/about/organisation/governance/council**

Os oes gan unrhyw aelod o Bwyllgor unrhyw fuddiant ariannol neu fuddiant arall, uniongyrchol neu anuniongyrchol, mewn unrhyw Gontract neu Gontract arfaethedig neu fater arall sy'n ymwneud â thrafodion ariannol, caiff y buddiant hwnnw ei ddatgelu i'r Pwyllgor cyn gynted ag y bo'n ymarferol. Mae pob Pwyllgor yn gofyn i Aelodau a Swyddogion ddatgelu unrhyw fuddiannau ar ddechrau pob cyfarfod Pwyllgor, ac ni fydd yr Aelod yn cymryd unrhyw ran bellach yn y gwaith o ystyried neu drafod, neu bleidleisio ar, unrhyw sefyllfa o ran hynny. Nid ystyrir bod gan aelod o unrhyw Bwyllgor fuddiant ariannol neu bersonol mewn materion sy'n cael eu trafod dim ond am ei fod yn aelod o staff neu'n fyfyriwr yn y Brifysgol.

Fel y nodir yn adran 4 y Datganiad Annibyniaeth, mae Ysgrifennydd y Brifysgol (fel Clerc y corff llywodraethu) yn atebol am dynnu sylw at faterion annibyniaeth neu wrthdaro i'r Cadeirydd.

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i'r safonau uchaf o ddidwylledd, cywirdeb ac atebolrwydd, ac mae'n ceisio cynnal ei materion mewn modd cyfrifol. Mae'r Polisi Chwythu'r Chwiban (Datgelu er Lles y Cyhoedd) yn galluogi staff, myfyrwyr ac aelodau eraill o'r Brifysgol i godi pryderon ynghylch gwrthdaro buddiannau nad ydynt, yn eu barn nhw, wedi cael sylw drwy'r gweithdrefnau presennol.



# Datganiad o Reolaethau Mewnol

## Prif Risg a System Reoli Fewnol

Y Cyngor sy'n gyfrifol am gynnal system gadarn o reolaeth fewnol sy'n helpu i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion y Brifysgol. Ar yr un pryd, mae'n diogelu arian y cyhoedd yn ogystal â chronfeydd ac asedau eraill y mae'n gyfrifol amdanynt.

Mae'r system reoli fewnol wedi'i chreu i reoli yn hytrach na dileu'r risg o beidio â chyflawni polisïau, nodau ac amcanion; felly, dim ond sicrwydd rhesymol y gellir ei roi yn hytrach na sicrwydd absoliwt o effeithiolrwydd. Mae'r system reoli fewnol yn seiliedig ar broses barhaus sydd wedi'i dylunio i amlygu'r prif risgiau a allai atal polisïau, nodau ac amcanion y Brifysgol rhag cael eu cyflawni. Y nod yw gwerthuso natur a maint y risgiau hyn a'u rheoli yn effeithiol.

Mae'r Cyngor yn cadarnhau y bu'r broses hon ar waith ac yn gweithredu'n effeithiol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2022 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol, ac mae'n cyd-fynd â chanllawiau CCAUC.

Fel y corff llywodraethu, mae'r Cyngor yn gyfrifol am sicrhau bod system gadarn o reolaeth yn cael ei chynnal ac adolygu effeithiolrwydd y trefniadau. Mae'n cyfarfod yn rheolaidd i ystyried cynlluniau a chyfeiriad strategol y sefydliad ac yn derbyn adroddiadau sicrwydd gan Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg ynghylch rheolaeth fewnol.

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn cael adroddiadau rheolaidd gan y gwasanaeth Archwilio Mewnol. Rhoddir barn annibynnol ar bob adroddiad sy'n ymwneud â digonolrwydd ac effeithiolrwydd system reoli fewnol y Brifysgol, ynghyd ag argymhellion ar gyfer gwella. Cyflwynir crynodeb o'r gwaith a gwblhawyd gan y gwasanaeth Archwilio Mewnol mewn Adroddiad Mewnol. Mae hyn yn rhoi barn annibynnol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd trefniadau'r Brifysgol ar gyfer darpariaeth rheoli risgiau, rheoli mewnol, llywodraethu a gwerth am arian ac ansawdd data.

O ystyried cwblhau'r cynllun archwilio cymeradwy ar gyfer 2021-22 a'r wybodaeth ategol, mae trefniadau'r Brifysgol ar gyfer rheoli a llywodraethu risg a gwerth am arian ac ansawdd data yn ddigonol ac yn effeithiol.

Yr Is-Ganghellor yw Swyddog Atebol y Brifysgol, sy'n gyfrifol am roi sicrwydd clir i CCAUC fod gan y sefydliad bolisi effeithiol o reoli risgiau. Ysgrifennydd y Brifysgol yw'r Prif Swyddog Risg, sy'n gyfrifol am hyrwyddo dulliau effeithiol o reoli risgiau ar draws y Brifysgol.

Mae gan Fwrdd Gweithredol y Brifysgol gyfrifoldeb am reoli risg ar draws y Brifysgol, cytuno ar barodrwydd y Brifysgol i gymryd risg, diweddaru cofrestr risg strategol y Brifysgol ac adrodd am risg i'r Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau, y Pwyllgor Archwilio a Risg, a'r Cyngor drwy gydol y flwyddyn.

Mae'r Brifysgol yn gweithredu system hierarchaidd ar gyfer rheoli risg. Caiff risgiau o fewn timau a phrosiectau unigol eu cyflwyno i'r ysgol neu'r adran berthnasol ar sail chwarterol. Bydd yr ysgolion a'r adrannau wedyn yn cyfeirio unrhyw risgiau allweddol at y Colegau a Bwrdd y Gwasanaethau Proffesiynol i'w hystyried a'u cynnwys ar eu cofrestr risg. Byd y Colegau a Bwrdd y Gwasanaethau Proffesiynol yn mynd ati wedi hynny i roi gwybod i Fwrdd Gweithredol y Brifysgol am eu cofrestrau risg ar sail chwarterol. Mae hynny'n gwneud yn siŵr bod risgiau llywodraethu, rheolaeth, ansawdd ac ariannol ar draws y Brifysgol, wedyn, yn cael eu hystyried ar gyfer eu hymgorffori ar gofrestr risg strategol y Brifysgol.

Mae'r Brifysgol yn cynhyrchu strwythur adrodd risg cyfun sy'n cyfuno addysgu ac asesu, bywyd myfyrwyr, ymchwil a gweithrediadau gyda systemau ysgolion/adrannau/grwpiau gweithredol, a'r adroddiadau risg yn canolbwyntio ar y cyntaf. Caiff risgiau a nodir ar y gofrestr strategol eu rhannu yn is i lawr yr hierarchaeth er mwyn sicrhau bod unrhyw gamau lliniaru sydd eu hangen yn cael eu cymryd.

Mae gan bob aelod o staff ran i'w chwarae wrth warchod y Brifysgol rhag bod yn agored yn ddiangen i risg, boed yn risg i enw da, risg ariannol, risg cyfreithiol neu o ran ei gweithgareddau craidd, sef dysgu ac addysgu, ac fe'i hanogir i fod yn ymwybodol o oblygiadau a chanlyniadau posibl eu gweithredoedd ar gyfer y Brifysgol.

# Prif Risgiau

| Maes risg | Disgrifiad o'r risg | Rheoli risg |
|---|---|---|
| **Recriwtio Myfyrwyr** | Mae'r Brifysgol yn methu denu a dal gafael ar nifer sy'n ddymunol yn strategol o fyfyrwyr amrywiol ac o safon, gan gynnwys myfyrwyr rhyngwladol ac o'r UE o safon uchel. | Mae Grŵp Strategaeth Recriwtio a Derbyn y Brifysgol wedi dirprwyo awdurdod i gymryd camau strategol o ran recriwtio, i wneud yn siŵr bod targedau o ran myfyrwyr newydd yn cael eu bodloni. Mae nifer y myfyrwyr yn destun adolygu a monitro rheolaidd gan y grŵp hwn i sicrhau bod gan Fwrdd Gweithredol y Brifysgol ddarlun clir o'r cofrestriadau a ragwelir.<br><br>Estynnwyd ysgoloriaethau rhyngwladol i gynnwys dyfarniadau pellach ar gyfer India, Malaysia, a dyfarniadau i fyfyrwyr sy'n hanu o'r UE am bob blwyddyn o astudio a gyflwynwyd.<br><br>Mae digwyddiadau recriwtio rhithwir a rhaglen e-gyfathrebu well wedi'u rhoi ar waith, ac mae digwyddiadau recriwtio wyneb yn wyneb wedi ailddechrau hefyd.<br><br>Gweithgareddau trosi, gan gynnwys negeseuon am bynciau penodol i ddeiliaid cynigion / teithiau tywys rhithwir, galwadau ffôn, ac ymgyrchoedd Unibuddy sy'n cynnig ffyrdd o ryngweithio ag ymgeiswyr un-i-un. |

| Maes risg | Disgrifiad o'r risg | Rheoli risg |
|---|---|---|
| **Cynaliadwyedd Ariannol** | Mae costau gweithredu'r Brifysgol, gan gynnwys costau atgyweirio a chynnal a chadw'r ystad a chynlluniau cyfalaf, yn gorbwyso'r incwm y gall y Brifysgol ei gynhyrchu neu ei dderbyn mewn grantiau, gan ei wneud yn ariannol anghynaladwy. | Mae'r Brifysgol yn defnyddio rheolaeth gyllidebol fanwl ac mae gweithdrefnau monitro ar waith, gan gynnwys cyllidebu ar sail sero.<br>Mae trafodaethau rheolaidd rhwng adrannau Recriwtio a Derbyniadau Myfyrwyr a Chyllid i fodelu incwm ffioedd.<br>Mae prosiectau Ymchwil a Newid yn cael eu hasesu ar gyfer enillion ar fuddsoddiad i wneud yn siŵr bod y buddiannau disgwyliedig yn cael eu cyflawni.<br>Mae proses gynllunio integredig wedi'i lansio i sicrhau bod cynlluniau academaidd ac ariannol cadarn yn cael eu cyflwyno.<br>Mae'r holl gamau lliniaru wedi arwain at sefyllfa ariannol well bellach. |
| **Seiberddiogelwch** | Y Brifysgol yn methu ag atal digwyddiad seiberddiogelwch. | Mae gan Brifysgol Caerdydd ymagwedd aml-haenog at seiberddiogelwch.<br>Rydym yn barod ar gyfer ymosodiadau seiber drwy gynllunio senarios a phrofi effeithiolrwydd cynlluniau wrth gefn ar gyfer parhad busnes ac adfer ar ôl trychineb.  Mae'r Brifysgol yn cael ei harchwilio'n rheolaidd gan arbenigwyr seiber, ac ar hyn o bryd, mae wedi'i hachredu ar gyfer cydymffurfedd Cyber Essentials (dyma sicrwydd seiber a ddarperir gan y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol) a PCI DSS.  Mae gan y Brifysgol fodiwl hyfforddiant diogelwch gwybodaeth gorfodol i'r holl staff.<br>Rydym wedi amddiffyn y Brifysgol trwy ddefnyddio'r offer seiberddiogelwch gorau posibl.<br>Rydym yn canfod bygythiadau gan ddefnyddio'r data cudd-wybodaeth bygythiadau cenedlaethol a rhyngwladol diweddaraf ynghyd â chyfres lawn o offer monitro. |
| **Cydymffurfedd Reoleiddiol** | Mae'r Brifysgol yn torri rheoliadau. | Mae Map Sicrwydd Risg Cydymffurfedd Rheoleiddiol manwl wedi'i gwblhau a chynhaliwyd adolygiad dilynol i amlinellu'r meysydd lle byddai mesurau ychwanegol yn cael yr effaith fwyaf ar leihau'r risg.<br>Yn ogystal, mae'r Grŵp Sicrwydd a Risg wedi goruchwylio'r gwaith o greu map gwres sicrwydd risg. Mae hyn yn galluogi'r Brifysgol i adnabod y risgiau'n rhwydd gan ddefnyddio canfyddiadau'r archwiliad mewnol o ran lefel y sicrwydd sydd ar waith a'r effaith ar y Brifysgol pe bai'r risg honno'n crisialu. |
| **Sero Net** | Nid yw'r Brifysgol yn cyflawni ei hymrwymiad i gyflawni gostyngiadau yn ei hallyriadau i sero net erbyn 2030 (cwmpasau 1 a 2). | Mae'r Is-bwyllgor Cynaliadwyedd Amgylcheddol Strategol  wedi nodi'r staffio sydd ei angen i alluogi newid sylweddol; mae recriwtio ar y gweill ar gyfer staff proffesiynol yn y maes hwn nawr.<br>Cwblhawyd dadansoddiad o'n hadeiladau sy'n gollwng carbon mwyaf yn haf 2022; rydym bellach yn datblygu prosiectau enillion cyflym i sicrhau bod mentrau tymor byr yn cael yr effaith fwyaf posibl.<br>Rydym yn archwilio cynlluniau benthyciad a gefnogir gan Lywodraeth Cymru i alluogi buddsoddiad mewn cynlluniau lleihau carbon tymor byr a thymor canolig.<br>Rydym yn cadarnhau llinellau sylfaen allyriadau carbon y Brifysgol, yn unol â gofynion adrodd Llywodraeth Cymru, erbyn Mehefin 2023. Mae rhaglen plannu coed mewn partneriaeth â Choed Caerdydd ar y gweill.<br>Rydym yn cwblhau ein polisi gwrthbwyso carbon yn awr a byddwn yn drafftio ein map ffordd i sero net (cwmpasau 1 a 2) erbyn 2030.<br>Mae'r Brifysgol yn aelod o Grŵp Strategaeth Un Blaned Cyngor Dinas Caerdydd a grwpiau y DU sy'n ymwneud â chynaliadwyedd amgylcheddol. |

# Cyfrifoldebau Cyngor Prifysgol Caerdydd

Yn unol â Siarter y Brifysgol, mae'r Cyngor yn gyfrifol am weinyddu a rheoli materion y Brifysgol, gan gynnwys sicrhau system effeithiol o reolaeth fewnol.

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am sicrhau bod Datganiadau Ariannol y Brifysgol a'r Grŵp yn cael eu paratoi yn unol ag Arferion Cyfrifyddu y Deyrnas Unedig a Dderbynnir yn Gyffredinol (Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig, sy'n cynnwys Safon Adrodd Ariannol 102 "Y Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon" ac sy'n gymwys o dan y gyfraith), Siarter y Brifysgol, y Cyfarwyddyd Cyfrifon gan CCAUC, y Datganiad o'r Arferion a Argymhellir: Cyfrifon ar gyfer Sefydliadau Addysg Bellach ac Uwch (2019), Deddf Elusennau 2011 a safonau cyfrifyddu perthnasol eraill.

O fewn y Telerau ac Amodau Cyllid y cytunwyd arnynt rhwng Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) a Chyngor y Brifysgol, mae'n ofynnol i'r Cyngor, drwy ei Swyddog Atebol, lunio Datganiadau Ariannol am bob blwyddyn ariannol unigol sy'n rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r Brifysgol a'i his-gwmnïau ac o'r gwarged neu'r diffyg, datganiad am symudiadau arian wrth gefn, a'r llifoedd arian am y flwyddyn honno. Mae'r Cyngor yn gyfrifol hefyd am gadw cofnodion priodol o'r cyfrifon sy'n ddigonol i ddangos ac esbonio trafodion y Brifysgol a'r Grŵp, a datgelu mor fanwl gywir ag sy'n rhesymol ar unrhyw adeg beth yw sefyllfa ariannol y Brifysgol a'r Grŵp, i'w alluogi i wneud yn siŵr bod y Datganiadau Ariannol yn cydymffurfio â'r gyfraith a'r rheoliadau perthnasol.

Y Cyngor sy'n gyfrifol hefyd am warchod asedau'r Brifysgol a'r Grŵp ac am gymryd camau rhesymol er mwyn atal a chanfod twyll ac anghysondebau eraill.

Wrth lunio'r Datganiadau Ariannol, mae angen i'r Cyngor:

- ddethol polisïau cyfrifyddu addas a'u defnyddio'n gyson wedi hynny.
- arsylwi ar y dulliau a'r egwyddorion yn y Datganiad o Arferion a Argymhellir: Ystyried Addysg Bellach ac Uwch (rhifyn 2019);
- gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon sydd yn rhesymol a doeth.
- nodi p'un a yw Safonau Cyfrifyddu perthnasol y DU, sy'n cynnwys FRS 102, wedi'u dilyn, yn amodol ar unrhyw wyriadau o bwys a ddatgelir ac a eglurir yn y datganiadau ariannol;
- paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes hyfyw oni bai ei bod yn amhriodol tybio y bydd y Brifysgol yn parhau mewn busnes.

Mae'r Cyngor wedi cymryd camau rhesymol i wneud hyn:

- sicrhau bod arian gan CCAUC, Llywodraeth Cymru a chyrff cyllido eraill yn cae ei ddefnyddio yn unig i'r dibenion y cafodd ei ddarparu yn y lle cyntaf ac yn unol â Thelerau ac Amodau Cyllid CCAUC ac unrhyw amodau eraill y gall CCAUC neu unrhyw gorff cyllido arall eu pennu o bryd i'w gilydd;
- sicrhau bod rheolaethol ariannol a rheoli priodol ar waith i ddiogelu cronfeydd cyhoeddus a chronfeydd o ffynonellau eraill;
- diogelu asedau'r Brifysgol a'i his-gwmnïau a rhwystro a chanfod twyll; a
- sicrhau bod adnoddau a gwariant y Brifysgol a'i his-gwmnïau yn cael eu rheoli'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol.

Er hynny, y cyfan y gall unrhyw system reoli ariannol fewnol ei wneud yw darparu sicrwydd rhesymol, ond nid sicrwydd llwyr, yn erbyn camddatganiad neu golled o bwys.

Ar ran y Cyngor

**Yr Athro Colin Riordan**
Swyddog Atebol
24 Tachwedd 2022

# Adroddiad yr Archwilydd Annibynnol

**I Gyngor Prifysgol Caerdydd**

## Adrodd ar yr Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol

### 1. Nid yw ein barn wedi'i haddasu

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol Prifysgol Caerdydd ("y Brifysgol") ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2022, sy'n cynnwys y Datganiad Cyfunol a Datganiad y Brifysgol o'r Incwm Cynhwysfawr, y Datganiad Cyfunol a Datganiad y Brifysgol o'r Newidiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn, y Datganiad Cyfunol a Datganiad y Brifysgol o'r Sefyllfa Ariannol, a'r Datganiad Cyfunol a Datganiad y Brifysgol o'r Llif Arian, ynghyd â'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y Datganiad o Bolisïau Cyfrifyddu.

Yn ein barn ni, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa materion y Grŵp a'r Brifysgol ar 31 Gorffennaf 2022, yn ogystal ag o incwm a gwariant, ac enillion a cholledion y Grŵp a'r Brifysgol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny, ynghyd â'r newidiadau i'r cronfeydd wrth gefn, a'r llifoedd arian;
- wedi'u paratoi'n gywir yn unol â safonau cyfrifyddu y DU, gan gynnwys FRS 102 Y Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon, ac â'r Datganiad o'r Arfer a Argymhellir 2019 – Cyfrifyddu ar gyfer Addysg Bellach ac Uwch; ac
- wedi'u paratoi yn unol â gofynion Deddf Elusennau 2011.

**Sail y farn**

Rydym wedi cael ein penodi'n archwilydd o dan Siarteri a Statudau'r Brifysgol ac yn unol ag adran 144 o Ddeddf Elusennau 2011 (neu ei rhagflaenwyr), ac rydym yn adrodd yn unol â rheoliadau a luniwyd o dan adran 154 o'r Ddeddf honno.

Rydym wedi cynnal ein harchwiliad yn unol â'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU) ("ISAs (UK)") a'r gyfraith gymwys. Disgrifir ein cyfrifoldebau isod. Credwn fod y dystiolaeth archwilio yr ydym wedi ei chael yn sail ddigonol a phriodol ar gyfer ein barn. Mae ein barn archwilio yn gyson â'n hadroddiad i'r Pwyllgor Archwilio a Risg.

Cawsom ein penodi gyntaf gan y Cyngor i fod yn archwilydd ar 7 Gorffennaf 2022. Mae'r cyfnod o ymgysylltu di-dor llwyr ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2022. Rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol o dan ofynion moesegol y DU, gan gynnwys Safon Foesegol yr FRC fel y'u cymhwysir i endidau budd y cyhoedd rhestredig, ac rydym yn parhau i fod yn annibynnol ar y Grŵp yn unol â'r gofynion hynny. Ni ddarparwyd unrhyw wasanaethau nad oeddent yn wasanaethau archwilio ac a waherddir gan y safon honno.

| Overview | |
|---|---|
| **Perthnasedd:** datganiadau ariannol y grŵp yn eu cyfanrwydd | £6.0 miliwn<br>0.95% o gyfanswm incwm y Grŵp |
| **Cwmpas** | 100% o gyfanswm Incwm y Grŵp |
| **Materion archwilio allweddol** | |
| **Risgiau mynych** | Grantiau Ymchwil ac Incwm Contractau<br>Prisiad rhwymedigaethau pensiwn |



## 2. Materion archwilio allweddol: ein hasesiad o risgiau camddatganiad perthnasol

Y materion archwilio allweddol yw'r materion hynny a oedd, yn ein barn broffesiynol, o'r pwys mwyaf wrth archwilio'r datganiadau ariannol. Mae'r rhain yn cynnwys y risgiau asesedig pwysicaf o ran camddatganiad perthnasol (boed hynny o ganlyniad i dwyll neu beidio) a nodwyd gennym, gan gynnwys y rhai a gafodd yr effaith fwyaf ar: y strategaeth archwilio gyffredinol; y modd y cafodd adnoddau eu dyrannu yn yr archwiliad; a'r broses o gyfarwyddo ymdrechion y tîm ymgysylltu. Isod, rydym yn crynhoi'r materion archwilio allweddol o ran penderfynu ar ein barn archwilio uchod, ynghyd â'n gweithdrefnau archwilio allweddol i fynd i'r afael â'r materion hynny ac, fel sy'n ofynnol ar gyfer endidau budd y cyhoedd, ein canlyniadau a ddeilliodd o'r gweithdrefnau hynny. Aethpwyd i'r afael â'r materion hyn, ac mae ein canlyniadau'n seiliedig ar weithdrefnau yr ymgymerwyd â nhw yng nghyd-destun ein harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd, ac at ddiben yr archwiliad hwnnw yn unig, ac wrth ffurfio ein barn arnynt, ac, o ganlyniad, maent yn atodol i'r farn honno, ac nid ydym yn darparu barn ar wahân ar y materion hyn.

| | Y risg | Ein hymateb |
|---|---|---|
| **Y Grŵp a'r Brifysgol: Grantiau Ymchwil ac Incwm Contractau**<br><br>(£125 miliwn (2021: £113 miliwn)) | **Incwm 2021-22**<br><br>Mae'r Brifysgol yn rheoli nifer sylweddol o brosiectau o amryw o ffynonellau cyhoeddus a phreifat, ac iddynt amrywiaeth o ofynion cytundebol o ran trin costau uniongyrchol a gorbenion a gofynion eraill o ran tystiolaeth/ cydymffurfedd.<br><br>Rhoddir cyfrif am grantiau ymchwil ac incwm contractau o dan y model perfformiad. Yn y rhan fwyaf o achosion, ac oni chaiff ei wahardd yn benodol, tybir mai gwariant ar y prosiect a ariennir gan y grant yw'r amod o ran cyflawni, ac felly, yn gyffredinol, cydnabyddir incwm yn unol â'r gwariant cysylltiedig, yn cynnwys costau gorbenion dosranedig. Ystyriwn fod yna risg sylweddol o dwyll a gwallau wrth gydnabod refeniw ymchwil, a hynny'n bennaf o ganlyniad i ddosrannu gorbenion mewn modd amhriodol.<br><br>Mae yna risg gysylltiedig o dwyll a gwall yn yr ystyr y gallai peidio â chydymffurfio â thelerau ac amodau'r grant olygu nad yw'r incwm yn cael ei gydnabod yn unol â'r safonau cyfrifyddu perthnasol. Gall peidio â chydymffurfio â thelerau ac amodau'r grant hefyd arwain at gyllidwyr yr ymchwil yn adfachu'r cyllid. | Roeddem wedi cynnal y profion isod yn hytrach na cheisio dibynnu ar reolaethau'r Grŵp oherwydd bod natur y cydbwysedd yn golygu y byddem yn disgwyl cael tystiolaeth archwilio yn bennaf trwy'r gweithdrefnau manwl a ddisgrifir.<br><br>Roedd ein gweithdrefnau'n cynnwys y canlynol:<br>• Cawsom ddadansoddiad trafodiadol o'r holl wariant ymchwil yn ystod y flwyddyn, ac aethom ati i brofi sampl i asesu a oedd y gwariant yr aethpwyd iddo yn unol â thelerau ac amodau'r contract perthnasol a, lle bo hynny'n berthnasol, fod cyfraddau'r gorbenion wedi'u gosod ar y lefel a bennwyd yn y cytundeb grant.<br>• Yn achos sampl o brosiectau ymchwil ac iddynt gerrig milltir sylfaenol, cytunasom ar y refeniw a gydnabyddir i anfonebau a godwyd ac arian parod a ddaeth i law, ac aethom ati i asesu a oedd y garreg filltir wedi'i bodloni yn unol â'r cytundeb grant.<br>• Aethom ati i adolygu'r broses o gysoni'r gwariant ymchwil â'r incwm ymchwil cyfatebol, a chytunwyd bod cyfrif wedi'i wneud am yr incwm yn unol â gofynion y safonau cyfrifyddu perthnasol.<br>• Yn achos sampl o brosiectau ymchwil ac iddynt falansau incwm cronedig a gohiriedig mawr ar ddiwedd y flwyddyn, aethom ati i adolygu'r cytundebau grant, yr arian a oedd wedi dod i law hyd hynny, a'r proffil talu, a hynny er mwyn asesu a oedd cyfrif wedi'i wneud am y gwariant a'r incwm ymchwil yn y cyfnod cyfrifyddu priodol.<br>• Aethom ati i holi'r rheolwyr ynghylch a oedd yna unrhyw anghydfodau neu faterion arwyddocaol yn gysylltiedig ag unrhyw brosiectau, a allai effeithio ar y gydnabyddiaeth o'r refeniw.<br><br>**Ein canlyniadau**<br>Roedd canlyniadau ein profion yn foddhaol, ac roeddem o'r farn bod swm y grantiau ymchwil a'r incwm contractau cydnabyddedig yn dderbyniol. |

| | Y risg | Ein hymateb |
|---|---|---|
| **Y Grŵp a'r Rhiant-brifysgol: Rhwymedigaeth Pensiwn**<br><br>**Y Grŵp a'r Rhiant-brifysgol:**<br><br>Cronfa Bensiwn Prifysgol Caerdydd: Gwerth presennol net rhwymedigaethau'r budd-daliadau diffiniedig a ariennir £34.5 miliwn (2021: £101.4 miliwn)<br><br>**Y Grŵp a'r Rhiant-brifysgol:**<br><br>USS : Darpariaethau'r cynllun adfer diffyg £199 miliwn (2021: £84 miliwn)) | **Prisiad goddrychol**<br>Mae'r Grŵp yn aelod o nifer o gynlluniau budd-daliadau diffiniedig, gan gynnwys Cronfa Bensiwn Prifysgol Caerdydd a Chynllun Blwydd-daliadau y Prifysgolion (USS).<br><br>**Cronfa Bensiwn Prifysgol Caerdydd**<br>Mae prisio rhwymedigaethau'r budd-daliadau ar ôl ymddeol yn golygu dewis rhagdybiaethau actiwaraidd priodol, yn fwyaf arbennig y gyfradd ddisgownt a gymhwysir i rwymedigaethau'r cynllun, cyfraddau chwyddiant a chyfraddau marwolaeth. Mae'r broses o ddewis y rhagdybiaethau hyn yn un oddrychol yn ei hanfod, a gallai newidiadau bach yn y rhagdybiaethau a'r amcangyfrifon a ddefnyddir i brisio rhwymedigaethau pensiwn y Brifysgol gael effaith sylweddol ar sefyllfa ariannol y Brifysgol.<br><br>Effaith y materion hyn yw ein bod, yn rhan o'n hasesiad risg, wedi pennu bod gan rwymedigaeth budd-daliadau ar ôl ymddeol lefel uchel o ansicrwydd o ran amcangyfrif. Mae'r datganiadau ariannol yn datgelu'r rhagdybiaethau a ddefnyddir gan y Brifysgol wrth gwblhau'r prisiad diwedd blwyddyn o'r diffyg mewn pensiwn a'r symudiadau o flwyddyn i flwyddyn.<br><br>**Cynllun Blwydd-daliadau y Prifysgolion (USS)**<br>Er bod hyn yn cael ei gyfrif yn gynllun cyfraniadau diffiniedig, mae'n ofynnol cydnabod darpariaeth ar gyfer rhwymedigaeth y Brifysgol i ariannu taliadau diffyg.<br><br>Mae'r prisiad hwn o'r ddarpariaeth hon yn cynnwys dewis rhagdybiaethau priodol, yn fwyaf arbennig rhagdybiaethau o ran y gyfradd ddisgownt ac o ran tybiaethau yn achos y gyflogres a chynnydd yn y cyfrif pennau. Mae'r broses o ddewis y rhagdybiaethau hyn yn un oddrychol yn ei hanfod, a gallai newidiadau bach yn y rhagdybiaethau a ddefnyddir i brisio rhwymedigaeth pensiwn USS y grŵp gael effaith sylweddol ar sefyllfa ariannol y Brifysgol.<br><br>Ar 31 Gorffennaf 2022, roedd rhwymedigaeth pensiwn yr USS yn £199 miliwn. Roedd hyn yn seiliedig ar y prisiad a nodwyd gan banel adolygu'r USS ar y pryd. Datgelwyd digwyddiad ôl-fantolen nad oedd yn addasu'r fantolen honno, gan adlewyrchu effeithiau prisiad cynllun 2020, a allai arwain at gynnydd sylweddol yn y ddarpariaeth pan fydd cynllun adfer diffyg newydd yn seiliedig ar brisiad 2020 yn cael ei gytuno a'i weithredu. | Aethom ati i gynnal y profion isod yn hytrach na cheisio dibynnu ar reolaethau'r Grŵp, a hynny oherwydd bod natur y cydbwysedd yn golygu y byddem yn disgwyl cael tystiolaeth archwilio yn bennaf trwy'r gweithdrefnau manwl a ddisgrifir.<br><br>Roedd ein gweithdrefnau'n cynnwys y canlynol:<br><br>• Ein harbenigedd actiwaraidd: Bu i ni ddefnyddio ein harbenigwyr actiwaraidd ein hunain i herio'r rhagdybiaethau a'r amcangyfrifon allweddol a ddefnyddir wrth gyfrifo rhwymedigaethau'r budd-daliadau ymddeol (a darpariaeth yr USS); ac aethom ati i gymharu rhagdybiaethau allweddol â'n hamrediadau meincnodi ein hunain sy'n deillio o ddata sydd ar gael yn allanol ac â'r rheiny a ddefnyddir gan brifysgolion eraill sy'n adrodd ar yr un cyfnod.<br>• Asesu cymwysterau actiwarïau allanol: Bu i ni asesu cymhwysedd ac annibyniaeth yr holl actiwarïaid allanol a benodwyd gan y Grŵp.<br>• Adolygu tybiaethau anactiwaraidd: Bu i ni adolygu'r rhagdybiaethau anactiwaraidd a ddefnyddiwyd yng nghyfrifiad darpariaeth yr USS, megis cynnydd yn y gyflogres a'r cyfrif pennau, a chymharu rhagdybiaethau â rhagolygon y Grŵp ar gyfer priodoldeb.<br>• Asesu tryloywder: Bu i ni ystyried pa mor ddigonol oedd datgeliad y Grŵp o ran budd-daliadau ymddeol, yn enwedig rhwymedigaeth y budd-daliadau diffiniedig gros a darpariaeth yr USS, ynghyd â sensitifrwydd y rhwymedigaeth i'r rhagdybiaethau a ddefnyddiwyd.<br><br>**Ein canlyniadau**<br><br>Canfuom fod amcangyfrifon canlyniadol rhwymedigaethau budd-dal ymddeol Cynllun Pensiwn Prifysgol Caerdydd a'r USS yn dderbyniol. |

## 3. Ein defnydd o berthnasedd a throsolwg o gwmpas ein harchwiliad

Cafodd perthnasedd datganiadau ariannol y Grŵp gyda'i gilydd ei osod ar £6.0 miliwn, a bennwyd trwy gyfeirio at feincnod o gyfanswm incwm y grŵp ar gyfer 2021-22, sef £634 miliwn, y mae'n cynrychioli 0.95% ohono.

Cafodd perthnasedd datganiadau ariannol y Brifysgol ei osod ar £5.95 miliwn, a bennwyd trwy gyfeirio at feincnod o gyfanswm incwm y Brifysgol ar gyfer 2021-22, sef £632 miliwn, y mae'n cynrychioli 0.94% ohono.

Ystyriwn mai cyfanswm yr incwm, yn hytrach na meincnod cysylltiedig â'r gwarged, yw'r meincnod priodol gan fod y Brifysgol yn sefydliad nid-er-elw.


Yn unol â'n methodoleg archwilio, cafodd ein gweithdrefnau ar falansau a datgeliadau cyfrifon unigol eu cyflawni i berthnasedd perfformiad trothwy is er mwyn lleihau, i lefel dderbyniol, y risg y bydd camddatganiadau unigol amherthnasol ym malansau cyfrifon unigol yn adio i roi swm perthnasol ar draws y datganiadau ariannol gyda'i gilydd.


Cafodd perthnasedd y perfformiad ei osod ar 65% o'r perthnasedd ar gyfer y datganiadau ariannol gyda'i gilydd, sy'n cyfateb i £3.9 miliwn i'r grŵp a £3.9 miliwn i'r Brifysgol. Aethom at i gymhwyso'r ganran hon wrth i ni bennu perthnasedd y perfformiad ar sail y ffaith mai hwn oedd ein harchwiliad blwyddyn cyntaf.

Cytunwyd i roi gwybod i'r Pwyllgor Archwilio a Risg am unrhyw gamddatganiadau yn fwy na £300 mil a nodwyd ac a gywirwyd neu nas cywirwyd, yn ogystal â chamddatganiadau eraill a nodwyd a oedd yn cyfiawnhau cael eu hadrodd ar sail ansoddol.

Roedd cwmpas y gwaith archwilio a gyflawnwyd yn annibynnol gan mwyaf am nad oeddem yn dibynnu fawr ddim ar reolaeth fewnol y Grŵp dros adroddiadau ariannol.

Bu i ni drin y grŵp fel un elfen.




## 4. Busnes gweithredol

Mae'r Cyngor wedi paratoi'r datganiadau ariannol ar

sail busnes gweithredol gan nad yw'n bwriadu datod y Grŵp na'r Brifysgol, na dod â'u gweithrediadau i ben, a chan ei fod wedi dod i'r casgliad bod sefyllfa ariannol y Grŵp a'r Brifysgol yn golygu bod hyn yn realistig. Mae hefyd wedi dod i'r casgliad nad oes yna unrhyw ansicrwyddau perthnasol a allai fwrw amheuaeth sylweddol ar eu gallu i barhau i fod yn fusnes gweithredol am o leiaf flwyddyn o ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol ("cyfnod y busnes gweithredol").

Defnyddiasom ein gwybodaeth am y Grŵp, ei ddiwydiant, a'r amgylchedd economaidd cyffredinol i nodi'r risgiau cynhenid i'w fodel busnes, ac aethom ati i ddadansoddi'r modd y gallai'r risgiau hynny effeithio ar adnoddau ariannol y Grŵp a'r Brifysgol neu eu gallu i barhau â'u gweithrediadau dros gyfnod y busnes gweithredol. Y risgiau yr oeddem yn ystyried eu bod fwyaf tebygol o gael effaith niweidiol ar yr adnoddau ariannol sydd ar gael i'r Grŵp a'r Brifysgol dros y cyfnod hwn oedd:

- Gostyngiad yn incwm y ffioedd dysgu
- Effaith chwyddiant ar y sail costau sylfaenol;

Aethom ati i ystyried a fedrai'r risgiau hyn effeithio mewn modd credadwy ar yr hylifedd yng nghyfnod y busnes gweithredol trwy asesu graddfa'r rhagdybiaeth o ran dirywiad, elfen a allai, yn unigol ac ar y cyd, arwain at fater hylifedd, gan roi ystyriaeth i arian parod a chyfleusterau cyfredol a rhagamcanol y Grŵp (prawf straen gwrthdro).

Ein casgliadau yn seiliedig ar y gwaith hwn:

- Rydym o'r farn bod defnydd y Cyngor o ddull cyfrifo ar sail busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol;
- Nid ydym wedi nodi ansicrwydd perthnasol yn ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, daflu amheuaeth sylweddol ar allu'r Grŵp neu allu'r Brifysgol i barhau i fod yn fusnes gweithredol am gyfnod y busnes gweithredol, ac rydym yn cyd-fynd ag asesiad y Cyngor nad oes yna ansicrwydd perthnasol o'r fath yn bodoli; ac
- Canfuom fod datgeliad y busnes gweithredol yn nodyn 1 yn dderbyniol.

Fodd bynnag, gan na allwn ragweld pob digwyddiad neu sefyllfa yn y dyfodol, a chan y gallai digwyddiadau dilynol arwain at ganlyniadau sy'n anghyson â dyfarniadau a oedd yn rhesymol ar yr adeg y cawsant eu gwneud, nid yw'r casgliadau uchod yn warant y bydd y Grŵp neu'r Brifysgol yn parhau i weithredu.

## 5. Twyll a thorri cyfreithiau a rheoliadau — y gallu i ganfod

*Nodi ac ymateb i risgiau o gamddatganiad perthnasol o ganlyniad i dwyll*

Er mwyn nodi risgiau o gamddatganiad perthnasol o ganlyniad i dwyll ("risgiau twyll") aethom ati i asesu digwyddiadau neu sefyllfaoedd a allai ddynodi cymhelliant neu bwysau i gyflawni twyll neu roi cyfle i gyflawni twyll. Roedd ein gweithdrefnau asesu risg yn cynnwys:

- Gofyn i'r Pwyllgor Archwilio a Risg am gael cynnal archwiliad mewnol ac arolwg o'r dogfennau polisi mewn perthynas â pholisïau a gweithdrefnau lefel uchel y Grŵp i atal a chanfod twyll, gan gynnwys swyddogaeth yr archwiliad mewnol, a sianel y Grŵp ar gyfer "chwythu'r chwiban", yn ogystal â pha un a yw'n gwybod am unrhyw dwyll penodol, achosion lle yr amheuir twyll, neu dwyll honedig.
- Darllen cofnodion y Cyngor a chofnodion y Pwyllgor Archwilio a Risg.
- Defnyddio gweithdrefnau dadansoddol i nodi unrhyw berthnasoedd anarferol neu annisgwyl.
- Cael copi o gofrestr risgiau y Grŵp.

Aethom ati i gyfleu risgiau twyll a nodwyd ledled y tîm archwilio, a bu i ni barhau'n effro i unrhyw arwyddion o dwyll trwy gydol yr archwiliad.

Fel sy'n ofynnol gan safonau archwilio, rydym yn cyflawni gweithdrefnau i fynd i'r afael â'r risg o'r rheolwyr yn diystyru rheolaethau a'r risg o gydnabod refeniw twyllodrus, yn enwedig y risg y gallai'r rheolwyr fod mewn sefyllfa i wneud cofnodion cyfrifyddu amhriodol.

Nid oeddem wedi nodi unrhyw risgiau twyll ychwanegol. Aethom ati i gyflawni gweithdrefnau a oedd yn cynnwys:

- Nodi cofnodion mewn cyfnodolion i'w profi yn seiliedig ar feini prawf risg, a chymharu'r cofnodion a nodwyd â'r dogfennau ategol. Roedd y rhain yn cynnwys cofnodion a fewnbynnwyd i gyfrifon anarferol a chyfnodolion anarferol o ran arian parod a benthyca.

*Nodi ac ymateb i risgiau o gamddatganiad perthnasol mewn perthynas â chyfreithiau a rheoliadau*

Oherwydd cyfyngiadau cynhenid archwiliad, mae yna risg na ellir ei osgoi na fyddwn, o bosibl, wedi canfod camddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol, er i ni gynllunio a chynnal ein harchwiliad mewn modd priodol yn unol â safonau archwilio. Er enghraifft, po bellaf i ffwrdd yw'r diffyg cydymffurfedd â chyfreithiau a rheoliadau o'r digwyddiadau a'r trafodion a adlewyrchir yn y datganiadau ariannol, lleiaf yw'r tebygrwydd y bydd y gweithdrefnau cyfyngedig yn y bôn sy'n ofynnol gan safonau archwilio yn ei nodi.

At hynny, fel yn achos unrhyw archwiliad, roedd yna risg uwch o beidio â chanfod twyll yn parhau, am y gallai'r achosion hyn gynnwys cydgynllwynio, ffugio, hepgoriadau bwriadol, camliwio, neu ddiystyru rheolaethau mewnol.

Mae ein gweithdrefnau archwilio wedi'u cynllunio i ganfod camddatganiad perthnasol. Nid ydym yn gyfrifol am atal diffyg cydymffurfedd neu dwyll, ac ni ellir disgwyl i ni ganfod diffyg cydymffurfedd â'r holl ddeddfau a rheoliadau.

Aethom ati i gyfathrebu cyfreithiau a rheoliadau a nodwyd ledled ein tîm, gan barhau'n effro i unrhyw arwyddion o ddiffyg cydymffurfedd trwy gydol yr archwiliad.

Mae effaith bosibl y deddfau a'r rheoliadau hyn ar y datganiadau ariannol yn amrywio'n sylweddol.

Yn gyntaf, mae'r Grŵp yn ddarostyngedig i ddeddfau a rheoliadau sy'n effeithio'n uniongyrchol ar y datganiadau ariannol, gan gynnwys deddfwriaeth adrodd ariannol (sy'n cynnwys deddfwriaeth berthnasol sy'n ymwneud ag elusennau, a deddfwriaeth a rheoliadau sy'n gysylltiedig ag addysg uwch), deddfwriaeth trethiant, a phensiynau, ac aethom ati i asesu hyd a lled y cydymffurfedd â'r deddfau a'r rheoliadau hyn yn rhan o'n gweithdrefnau mewn perthynas â'r eitemau cysylltiedig yn y datganiadau ariannol.

Yn ail, mae'r Grŵp yn ddarostyngedig i nifer o gyfreithiau a rheoliadau eraill lle gallai canlyniadau diffyg cydymffurfedd gael effaith sylweddol ar symiau neu ddatgeliadau yn y datganiadau ariannol, er enghraifft trwy osod dirwyon neu ymgyfreitha, neu drwy'r angen i gynnwys darpariaethau sylweddol. Aethom ati i nodi'r meysydd canlynol yn rhai sydd fwyaf tebygol o gael effaith o'r fath: y GDPR, deddfwriaeth Iechyd a Diogelwch, deddfwriaeth cyflogaeth a nawdd cymdeithasol, a gofynion rheoleiddiol addysg uwch Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC), gan gydnabod natur reoleiddiedig gweithgareddau'r Brifysgol. Mae safonau archwilio yn cyfyngu ar y gweithdrefnau archwilio gofynnol i nodi diffyg cydymffurfedd â'r deddfau a'r rheoliadau hyn i holi'r cyfarwyddwyr a rheolwyr eraill, ac arolygu gohebiaeth reoleiddiol a chyfreithiol, os yw'n bodoli. Felly, os na ddatgelir achos o dorri rheoliadau gweithredol i ni, neu os nad oes achos o dorri rheoliadau yn amlwg o'r ohebiaeth berthnasol, ni fydd archwiliad yn canfod yr achos hwnnw

*Cyd-destun gallu'r archwiliad i ganfod twyll neu achosion o dorri'r gyfraith neu reoliadau*

Oherwydd cyfyngiadau cynhenid archwiliad, mae yna risg na ellir ei osgoi na fyddwn, o bosibl, wedi canfod camddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol, er i ni gynllunio a chynnal ein harchwiliad mewn modd priodol yn unol â safonau archwilio. Er enghraifft, po bellaf i ffwrdd yw'r diffyg cydymffurfedd â chyfreithiau a rheoliadau o'r digwyddiadau a'r trafodion a adlewyrchir yn y datganiadau ariannol, lleiaf yw'r tebygrwydd y bydd y gweithdrefnau cyfyngedig yn y bôn sy'n ofynnol gan safonau archwilio yn ei nodi.

At hynny, fel yn achos unrhyw archwiliad, roedd yna risg uwch o beidio â chanfod twyll yn parhau, am y gallai'r achosion hyn gynnwys cydgynllwynio, ffugio, hepgoriadau bwriadol, camliwio, neu ddiystyru rheolaethau mewnol. Mae ein gweithdrefnau archwilio wedi'u cynllunio i ganfod camddatganiad perthnasol. Nid ydym yn gyfrifol am atal diffyg cydymffurfedd neu dwyll, ac ni ellir disgwyl i ni ganfod diffyg cydymffurfedd â'r holl ddeddfau a rheoliadau.

## 6. Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd am yr wybodaeth arall yn yr Adroddiad Blynyddol

Y Cyngor (y mae ei aelodau yn Ymddiriedolwyr y Brifysgol at ddibenion cyfraith elusennau) sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall, sef yr wybodaeth sydd yn yr adroddiad blynyddol ac eithrio'r datganiadau ariannol ac adroddiad ein harchwilydd arnynt.
Nid yw ein barn ynghylch y datganiadau ariannol yn cynnwys yr wybodaeth arall. Felly, nid ydym yn mynegi barn archwilio nac

unrhyw fath o gasgliad sicrwydd am yr wybodaeth honno, ac eithrio fel y nodir yn benodol isod.

Ein cyfrifoldeb ni yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth honno wedi'i chamddatgan mewn modd perthnasol neu'n anghyson â'r datganiadau ariannol neu ein gwybodaeth archwilio, a hynny'n seiliedig ar ein gwaith o archwilio'r datganiadau ariannol. Mae'n ofynnol i ni adrodd i chi, yn seiliedig ar y gwaith hwnnw yn unig, os yw'r canlynol yn wir:

- rydym wedi nodi camddatganiadau perthnasol yn yr wybodaeth arall; neu
- yn ein barn ni, mae'r wybodaeth a roddir yn yr Adolygiad Ariannol, y Datganiad Llywodraethu Corfforaethol, a'r Datganiad o Reolaeth Fewnol (sydd gyda'i gilydd yn gyfystyr ag Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr ar gyfer y flwyddyn ariannol) yn anghyson mewn unrhyw fodd perthnasol â'r datganiadau ariannol.

Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd yn hyn o beth.

## 7. Nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd am y materion eraill y mae'n ofynnol inni adrodd amdanynt trwy eithriad

O dan Ddeddf Elusennau 2011, mae'n ofynnol i ni eich hysbysu os, yn ein barn ni:

- nad yw'r Brifysgol wedi cadw cofnodion cyfrifyddu digonol; neu
- nad yw'r datganiadau ariannol yn cytuno â'r cofnodion cyfrifyddu; neu
- nad ydym wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau sy'n ofynnol gennym ar gyfer ein harchwiliad.
- nid oes gennym unrhyw beth i'w adrodd yn hyn o beth.

## 8. Cyfrifoldebau perthnasol

### Cyfrifoldebau'r cyngor

Fel yr eglurir yn fanylach yn ei ddatganiad a nodir ar dudalen 42, mae'r Cyngor yn gyfrifol am: baratoi datganiadau ariannol sy'n rhoi barn wir a theg; y rheolaeth fewnol y mae'n pennu sy'n angenrheidiol i alluogi i ddatganiadau ariannol gael eu paratoi sy'n rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu wall; asesu gallu'r Grŵp a'r Brifysgol i barhau i fod yn fusnes gweithredol, gan ddatgelu materion sy'n ymwneud â busnes gweithredol, fel y bo'n berthnasol; a defnyddio dull cyfrifo ar sail busnes gweithredol, oni bai ei fod naill ai'n bwriadu diddymu'r Grŵp neu'r Brifysgol neu roi'r gorau i weithredu, neu oni bai nad oes ganddo ddewis arall realistig ond gwneud hynny.

### Cyfrifoldebau'r archwilydd

Ein nod yw cael sicrwydd rhesymol nad yw'r datganiadau ariannol yn gyffredinol yn cynnwys camddatganiadau perthnasol, boed hynny o ganlyniad i dwyll neu wall, a chyhoeddi ein barn mewn adroddiad archwilydd. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â safonau ISA (DU) bob amser yn canfod camddatganiad perthnasol pan fo un yn bodoli. Gall camddatganiadau ddigwydd o ganlyniad i dwyll neu wall. Ystyrir eu bod yn berthnasol os gellir disgwyl yn rhesymol iddynt, naill ai'n unigol neu yn eu crynswth, ddylanwadu ar y penderfyniadau economaidd a wneir gan ddefnyddwyr ar sail y datganiadau ariannol.

Darperir disgrifiad manylach o'n cyfrifoldebau ar wefan yr FRC yn **www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities**

# ADRODD AM OFYNION CYFREITHIOL A RHEOLEIDDIOL ERAILL

## 9. Adrodd am ofynion cyfreithiol a rheoleiddiol eraill

Nghod Ymarfer Archwilio Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru ('CCAUC') a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992, ac yn y Cod Rheolaeth Ariannol a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015, a'r Cyfarwyddyd Cyfrifon i Sefydliadau Addysg Uwch ar gyfer 2021-22 a gyhoeddwyd gan CCAUC ("y Cyfarwyddyd Cyfrifon").


Yn ein barn ni, ac ym mhob ffordd berthnasol:

- mae cyllid o ba ffynhonnell bynnag, ac a weinyddir gan y Grŵp neu'r Brifysgol at ddibenion penodol, wedi cael ei ddefnyddio mewn modd priodol at y dibenion hynny, ac wedi cael ei reoli yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol;
- mae'r incwm, lle bo hynny'n briodol, wedi cael ei ddefnyddio yn unol â pharagraff 145 o God Rheolaeth Ariannol CCAUC;
- mae grantiau'r Cyngor Cyllido wedi cael eu defnyddio yn unol â'r telerau ac amodau sydd ynghlwm wrthynt, a'u defnyddio at y dibenion y daethant i law ar eu cyfer, gan gynnwys y Telerau ac Amodau Ariannu;
- mae gofynion Cyfarwyddyd Cyfrifon CCAUC wedi cael eu bodloni.

## 10. Diben ein gwaith archwilio a'r rheiny y mae ein cyfrifoldebau yn ddyledus iddynt

Cyflwynir yr adroddiad hwn i'r Cyngor yn unig yn unol ag Adran 4 o Siarteri a Statudau'r Brifysgol ac ag adran 144 o Ddeddf Elusennau 2011 (neu ei rhagflaenwyr) a rheoliadau a wnaed o dan adran 154 o'r Ddeddf honno.

Ymgymerwyd â'n gwaith archwilio er mwyn i ni allu datgan i'r Cyngor y materion hynny y mae'n ofynnol i ni eu datgan iddo mewn adroddiad archwilydd, ac nid i unrhyw ddiben arall. I'r graddau eithaf a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn ysgwyddo cyfrifoldeb i unrhyw un heblaw'r Brifysgol a'r Cyngor am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn, nac am y farn a ffurfiwyd gennym.



**Jonathan Brown**
**ar gyfer ac ar ran KPMG LLP, Archwilydd Statudol**

Cyfrifwyr Siartredig. Mae KPMG LLP yn gymwys i weithredu yn rôl archwilydd mewn perthynas ag adran 1212 o Ddeddf Cwmnïau 2006
3 Sgwâr y Cynulliad
Cei Britannia
Caerdydd
CF10 4AX

19 Rhagfyr 2022

# Datganiadau Cyfunol a Sefydliadol o Incwm a Gwariant Cynhwysfawr

## Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2022

| | | Cyfunol | | Sefydliad | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Nodyn | 2022 £'000 | 2021 £'000 | 2022 £'000 | 2021 £'000 |
| Incwm | | | Ail-ddatganwyd (Gweler Nodyn 29) | | Ail-ddatganwyd (Gweler Nodyn 29) |
| Ffioedd dysgu a chontractau addysg | 2 | 323,510 | 314,500 | 323,510 | 314,500 |
| Grantiau'r Corff Ariannu | 3 | 98,893 | 109,464 | 98,893 | 109,464 |
| Grantiau a chytundebau ymchwil | 4 | 125,427 | 112,648 | 125,427 | 112,648 |
| Incwm arall | 5 | 79,369 | 68,455 | 76,833 | 67,246 |
| Incwm o fuddsoddiad | 6 | 5,729 | 4,376 | 5,725 | 4,376 |
| Rhoddion a gwaddolion | 7 | 1,239 | 2,738 | 1,239 | 2,738 |
| Cyfanswm Incwm | | 634,167 | 612,181 | 631,627 | 610,972 |
| | | | | | |
| Gwariant | | | Ail-ddatganwyd (Gweler Nodyn 29) | | Ail-ddatganwyd (Gweler Nodyn 29) |
| Costau staff | 8 | 339,213 | 329,331 | 338,760 | 329,331 |
| Costau staff – Datblygu Cynllun Diswyddo Gwirfoddol | 10 | 9 | 482 | 9 | 482 |
| Costau staff – cynnydd/(gostyngiad) yn narpariaeth cynllun pensiwn USS | 10,21 | 118,781 | 2,394 | 118,781 | 2,394 |
| Treuliau gweithredu eraill | 10 | 212,897 | 195,439 | 211,012 | 194,286 |
| Dibrisiant | 11 | 40,041 | 40,644 | 40,041 | 40,644 |
| Llog a chostau ariannol eraill | 9 | 14,372 | 12,498 | 14,372 | 12,491 |
| Cyfanswm Gwariant | 10 | 725,313 | 580,788 | 722,975 | 579,628 |
| | | | | | |
| **(Diffyg)/gwarged gweithredu cyn enillion a cholledion eraill** | | **(91,146)** | **31,393** | **(91,348)** | **31,344** |
| Amhariad ar asedau sefydlog diriaethol | 11 | - | (2,061) | - | (2,061) |
| Amhariad ar asedau anghyfredol | 12,14 | (6) | (2,000) | - | (5,160) |
| Enillion ar werthiant/gwaredu buddsoddiadau anghyfredol | 12 | 2,181 | 726 | 2,181 | 726 |
| (Colled)/Enillion ar brisio buddsoddiadau | 15,23 | (11,574) | 34,463 | (11,574) | 34,463 |
| Cyfran o warged/ (diffyg) mewn menter ar y cyd | 12,22 | 641 | (3,769) | - | - |
| **(Diffyg)/Gwarged am y flwyddyn** | | **(99,904)** | **58,752** | **(100,741)** | **59,312** |
| | | | | | |
| **Incwm Cynhwysfawr Arall** | | | | | |
| Amhariad ar ailbrisio asedau | 11 | - | (2,889) | - | (2,889) |
| Enillion/(colledion) actiwaraidd mewn perthynas â chynlluniau pensiwn | 25 | 72,095 | 3,000 | 72,095 | 3,000 |
| **Cyfanswm cynhwysfawr (diffyg)/gwarged am y flwyddyn** | | **(27,809)** | **58,863** | **(28,646)** | **59,423** |
| | | | | | |
| Cynrychiolir hynny gan: | | | | | |
| Incwm cynhwysfawr o waddolion am y flwyddyn | | 88 | 6,544 | 88 | 6,544 |
| Gwariant cynhwysfawr cyfyngedig am y flwyddyn | | - | (188) | - | (188) |
| (Gwariant)/incwm cynhwysfawr anghyfyngedig am y flwyddyn | | (27,897) | 52,507 | (28,734) | 53,067 |
| | | **(27,809)** | **58,863** | **(28,646)** | **59,423** |

Mae'r holl eitemau incwm a gwariant yn ymwneud â gweithgareddau parhaus

Mae'r Nodiadau ar dudalennau 45 i 78 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

# Datganiadau Cyfunol a'r Sefydliad o Newidiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn

## Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2022

| **Cyfunol** | Cyfrif incwm a gwariant | | | Ailbrisio'r cronfeydd wrth gefn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| | Gwaddolion £'000 | Cyfyngedig £'000 | Anghyfyngedig £'000 | £'000 | £'000 |
| Balans ar 1 Awst 2020 | 38,938 | 348 | 252,423 | 325,896 | 617,605 |
| Gwarged / (diffyg) o'r datganiad incwm a gwariant | 6,544 | (188) | 52,396 | - | 58,752 |
| Gwariant cynhwysfawr arall | - | - | 111 | - | 111 |
| Cyfanswm y gwared/(diffyg) cynhwysfawr am y flwyddyn | 6,544 | (188) | 52,507 | - | 58,863 |
| Trosglwyddiadau rhwng ailbrisio a chronfeydd incwm a gwariant wrth gefn | - | - | 9,167 | (9,167) | - |
| Balans ar 31 Gorffennaf 2021 | 45,482 | 160 | 314,097 | 316,729 | 676,468 |
| Gwarged / (diffyg) o'r datganiad incwm a gwariant | 88 | | (99,992) | | (99.904) |
| Incwm cynhwysfawr arall | - | | 72,095 | | 72,095 |
| **Cyfanswm y gwarged/(diffyg) cynhwysfawr am y flwyddyn** | **88** | | **(27,897)** | | **(27,809)** |
| Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd wrth gefn | - | | 6,118 | (6,118) | |
| **Balans ar 31 Gorffennaf 2022** | **45,570** | **160** | **292,318** | **310,611** | **648,659** |

| **Sefydliad** | Cyfrif incwm a gwariant | | | | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| | Gwaddolion £'000 | Cyfyngedig £'000 | Anghyfyngedig £'000 | £'000 | £'000 |
| Balans ar 1 Awst 2020 | 38,938 | 348 | 254,130 | 325,896 | 619,312 |
| Gwarged / (diffyg) o'r datganiad incwm a gwariant | 6,544 | (188) | 52,956 | - | 59,312 |
| Gwariant cynhwysfawr arall | - | - | 111 | - | 111 |
| Cyfanswm y gwared / (diffyg) cynhwysfawr am y flwyddyn | 6,544 | (188) | 53,067 | - | 59,423 |
| Trosglwyddiadau rhwng ailbrisio a chronfeydd incwm a gwariant wrth gefn | - | - | 9,167 | (9,167) | - |
| Balans ar 31 Gorffennaf 2021 | 45,482 | 160 | 316,364 | 316,729 | 678,735 |
| Gwarged / (diffyg) o'r datganiad incwm a gwariant | 88 | | (100,829) | | (100,741) |
| Incwm cynhwysfawr arall | | | 72,095 | | 72,095 |
| **Cyfanswm y gwarged / (diffyg) cynhwysfawr am y flwyddyn** | **88** | **-** | **(28,734)** | | **(28,646)** |
| Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd wrth gefn | | | 6,118 | (6,118) | - |
| **Balans ar 31 Gorffennaf 2022** | **47,570** | **160** | **293,748** | **310,611** | **650,089** |

Mae'r Nodiadau ar dudalennau 45 i 78 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

# Datganiadau Cyfunol a’r Sefydliad o Sefyllfa Ariannol

## Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2022

| | Nodyn | Cyfunol | | Sefydliad | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | 2022<br>£’000 | 2021<br>£’000 | 2022<br>£’000 | 2021<br>£’000 |
| Asedau anghyfredol | | | | | |
| Asedau sefydlog diriaethol | 11 | 949,055 | 934,275 | 949,055 | 934,275 |
| Buddsoddiadau | 12 | 9,249 | 7,598 | 7,630 | 6,146 |
| | | 958,304 | 941,873 | 956,685 | 940,421 |
| Asedau cyfredol | | | | | |
| Stociau | 13 | 296 | 296 | 296 | 296 |
| Masnach a symiau derbyniadwy eraill | 14 | 60,245 | 46,794 | 61,121 | 47,649 |
| Buddsoddiadau | 15 | 365,051 | 325,592 | 365,051 | 325,592 |
| Arian parod a chyfatebol i arian parod | 16 | 96,365 | 148,587 | 89,438 | 147,637 |
| | | 521,957 | 521,269 | 515,906 | 521,174 |
| Credydwyr: symiau sy’n ddyledus ymhen blwyddyn | 17 | (168,757) | (166,708) | (162,620) | (166,325) |
| Asedau cyfredol net | | 353,200 | 354,561 | 353,286 | 354,849 |
| Cyfanswm asedau heb gynnwys y rhwymedigaethau cyfredol | | 1,311,504 | 1,296,434 | 1,309,971 | 1,295,270 |
| Credydwyr: symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn | 18 | (424,324) | (427,721) | (424,324) | (427,721) |
| Darpariaethau pensiwn | 21 | (233,452) | (188,814) | (233,452) | (188,814) |
| Darpariaethau eraill | 22 | (5,069) | (3,431) | (2,106) | - |
| **Cyfanswm asedau net** | | **648,659** | **676,468** | **650,089** | **678,735** |
| <u>Cronfeydd wrth gefn cyfyngedig</u> | | | | | |
| Incwm a gwariant – cronfa waddol wrth gefn | 23 | 45,570 | 45,482 | 45,570 | 45,482 |
| Incwm a gwariant – cronfa gyfyngedig wrth gefn | | 160 | 160 | 160 | 160 |
| <u>Cronfeydd anghyfyngedig</u> | | | | | |
| Incwm a gwariant – anghyfyngedig | | 292,318 | 314,097 | 293,748 | 316,364 |
| Ailbrisio’r cronfeydd wrth gefn | | 310,611 | 316,729 | 310,611 | 316,729 |
| **Cyfanswm y Cronfeydd Wrth Gefn** | | **648,659** | **676,468** | **650,089** | **678,735** |

Mae’r Nodiadau ar dudalennau 45 i 78 yn rhan o’r datganiadau ariannol hyn.

Cafodd y datganiadau ariannol ar dudalennau 41 i 81 eu cymeradwyo gan y Cyngor ar 24 Tachwedd 2012 a'u llofnodi ar ei ran ar 19 Rhagfyr 2022 gan:

**Patrick Younge**
Cadeirydd y Cyngor

**Yr Athro Colin Riordan**
Is-Ganghellor

**Darren Xiberras**
Prif Swyddog Ariannol

# Datganiadau Cyfunol a'r Sefydliad o Llif Arian

## Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2022

| | | Cyfunol | | Sefydliad | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Nodyn | 2022 £'000 | 2021 £'000 | 2022 £'000 | 2021 £'000 |
| **Llif arian o weithgareddau gweithredu** | | | Ail-ddatganwyd | | Ail-ddatganwyd |
| (Diffyg)/Gwarged am y flwyddyn | | (99,904) | 58,751 | (100,741) | 59,311 |
| Addasiad ar gyfer eitemau nad ydynt yn arian parod | | | | | |
| Dibrisiant | 11 | 40,041 | 40,644 | 40,041 | 40,644 |
| Amhariad ar asedau sefydlog | 11 | - | 2,061 | - | 2,061 |
| Amhariad o fuddsoddiadau anghyfredol | 12 | 6 | - | - | 3,160 |
| Cyfran o'r (gwarged)/diffyg gweithredu mewn mentrau ar y cyd | 12,22 | (641) | 3,769 | - | - |
| Cywiriad i gostau buddsoddi anghyfredol | 12 | - | 401 | - | 401 |
| Taliadau pensiynau anariannol | 21 | 116,733 | 4,505 | 116,733 | 4,505 |
| Cynnydd mewn stoc | 13 | - | (1) | - | (1) |
| (Cynnydd)/gostyngiad mewn dyledwyr | 14 | (13,451) | 5,208 | (13,472) | 5,139 |
| Cynnydd yn y credydwyr | 17,18 | 6,662 | 29,345 | 908 | 29,468 |
| Cynnydd mewn darpariaethau eraill | | 2,106 | - | 2,106 | - |
| Addasiad ar gyfer gweithgareddau buddsoddi neu ariannu | | | | | |
| Incwm grant cyfalaf | 3,5 | (16,577) | (31,166) | (16,577) | (31,166) |
| Incwm o fuddsoddiad | 6 | (5,729) | (4,376) | (5,725) | (4,376) |
| Llog taladwy | 9 | 11,980 | 10,448 | 11,980 | 10,441 |
| Gwaddolion newydd | 7 | (267) | (288) | (267) | (288) |
| Enillion ar waredu buddsoddiadau anghyfredol | 12 | (2,181) | (726) | (2,181) | (726) |
| Colledion/(enillion) ar fuddsoddiadau cyfredol | 12,15 | 11,574 | (34,463) | 11,574 | (34,463) |
| Llif arian net o'r gweithgareddau gweithredu | | 50,352 | 84,112 | 44,379 | 84,109 |
| | | | | | |
| **Llifoedd arian o weithgareddau buddsoddi** | | | | | |
| Derbynebau grant cyfalaf | | 11,562 | 26,346 | 11,562 | 26,346 |
| Incwm o fuddsoddiad | 6 | 5,729 | 4,376 | 5,729 | 4,376 |
| (Gostyngiad)/cynnydd mewn adneuon | 15 | (51,033) | (75,205) | (51,033) | (75,205) |
| Taliadau i gaffael asedau sefydlog | 11 | (54,821) | (133,071) | (54,821) | (133,071) |
| Caffaeliadau o fuddsoddiad anghyfredol | 12 | (2,312) | (571) | (2,312) | (571) |
| Derbyniadau gwaredu buddsoddiadau anghyfredol | 12 | 3,009 | 2,224 | 3,009 | 2,224 |
| Arian parod net (all-lif) o weithgareddau buddsoddi | | (87,866) | (175,901) | (87,870) | (175,901) |
| | | | | | |
| **Llif arian o ariannu gweithgareddau** | | | | | |
| Llog a dalwyd | 9 | (12,433) | (10,854) | (12,433) | (10,847) |
| Arian parod gwaddolion a dderbyniwyd | 7 | 267 | 288 | 267 | 288 |
| Ad-daliadau o symiau a fenthycwyd | 17,18 | (2,542) | (2,251) | (2,542) | (2,251) |
| Dyroddiad bond | 18 | - | 128,217 | - | 128,217 |
| Mewnlif/ (all-lif) arian parod net o weithgareddau ariannu | | (14,708) | 115,400 | (14,708) | 115,407 |
| Cynnydd mewn arian parod a chyfatebol i arian parod yn ystod y flwyddyn | | (52,222) | 23,611 | (58,199) | 23,615 |
| Arian parod a chyfatebol i arian parod ar ddechrau'r flwyddyn | | 148,587 | 124,976 | 147,637 | 124,022 |
| Arian parod a chyfatebol i arian parod ar ddiwedd y flwyddyn | 16 | 96,365 | 148,587 | 89,438 | 147,637 |

Mae'r Nodiadau ar dudalennau 45 i 78 yn rhan o'r datganiadau ariannol hyn

# Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol

## Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2022

## 1. Datganiad o'r Prif Bolisïau Cyfrifyddu

### Sail y paratoad

Paratowyd y wybodaeth ariannol gyfunol hon yn unol â'r Datganiad o Arferion a Argymhellir (SORP): Cyfrifyddu ar gyfer Addysg Bellach ac Addysg Uwch 2019, y Safon Adrodd Ariannol (FRS 102) a Deddf Elusennau 2011. Mae'r Sefydliad yn endid budd cyhoeddus ac felly mae wedi defnyddio'r gofyniad budd cyhoeddus perthnasol o 102 FRS. Mae'r wybodaeth ariannol wedi'i pharatoi yn unol â'r confensiwn cost hanesyddol (a addaswyd gan yr ailbrisiad tir ac adeiladau ac yn dilyn mesur rhai offerynnau ariannol ar werth teg).

Mae gweithgareddau'r Grŵp a'r Brifysgol, ynghyd â'r ffactorau sy'n debygol o effeithio ar eu datblygiad, perfformiad a sefyllfa yn y dyfodol, wedi'u nodi yn yr Adolygiad Ariannol sy'n rhan o Adroddiad Bwrdd y Cyngor. Mae Adroddiad y Cyngor hefyd yn disgrifio sefyllfa ariannol y Sefydliad, ei lif arian, sefyllfa hylifedd a chyfleusterau benthyca.

Mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi ar sail busnes hyfyw, y mae'r Cyngor yn ystyried ei bod yn briodol am y rhesymau a ganlyn.

- Mae'r Cyngor wedi adolygu rhagolygon llif arian am gyfnod o 12 mis o ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol hyn.
- Ar ôl adolygu'r rhagolygon hyn, mae'r Cyngor o'r farn, gan ystyried anfanteision difrifol ond credadwy, y bydd gan y Grŵp a'r rhiant-sefydliad ddigon o arian i gwrdd â'u rhwymedigaethau pan fyddant yn dod yn ddyledus dros y cyfnod o 12 mis o ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol (y cyfnod asesu busnes hyfyw).

O ganlyniad, mae'r Cyngor yn hyderus y bydd gan y Grŵp a'r rhiant-sefydliad ddigon o arian i barhau i gwrdd â'u rhwymedigaethau wrth iddynt ddod yn ddyledus am o leiaf 12 mis o ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol ac felly mae wedi paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes hyfyw.

### Sail y cyfnerthu

Mae'r wybodaeth ariannol gyfunol yn cydgrynhoi datganiadau ariannol y Sefydliad a'i is-gwmnïau University College Cardiff Consultants Limited ac International Learning Exchange Programme Limited ar gyfer y flwyddyn ariannol hyd at 31 Gorffennaf. Nid yw'n cynnwys rhai Undeb Myfyrwyr y Brifysgol na Cardiff Partnership Fund Limited gan nad yw'r Cyngor yn arfer rheolaeth dros eu gweithgareddau ariannol a gweithredu hwy.

Mabwysiedir polisïau cyfrifyddu unffurf ledled y Grŵp. Cyfrifir y mentrau ar y cyd gan ddefnyddio'r dull ecwiti.

### Cydnabod incwm

Nodir incwm ffioedd fel gros o unrhyw wariant nad yw'n ddisgownt neu'n ildiad ffioedd ac mae'n cael ei gredydu i'r Datganiad Cyfunol o Incwm Cynhwysfawr. Lle rhoddir disgownt i swm y ffioedd dysgu am daliad prydlon, dangosir yr incwm sy'n dderbyniadwy net y disgownt. Cyfrifir bwrsariaethau ac ysgoloriaethau ar ffurf gros fel gwariant ac nid ydynt yn cael eu didynnu o incwm.

Credydir incwm o werthu nwyddau neu wasanaethau yn y Datganiad Cyfunol o Incwm Cynhwysfawr pan fo'r nwyddau neu'r gwasanaethau yn cael eu darparu i gwsmer allanol neu pan fo telerau'r contract wedi cael eu bodloni.

Credydir incwm buddsoddi yn y Datganiad Cyfunol o Incwm Cynhwysfawr ar sail dderbyniadwy.

Mae cronfeydd y mae'r Sefydliad yn eu derbyn ac yn eu dosbarthu fel asiant talu ar ran corff ariannu wedi'u heithrio o incwm a gwariant y Sefydliad lle mae'r Sefydliad yn agored i risg fychan neu'n mwynhau mantais economaidd fach sy'n ymwneud â'r trafodyn.

### Cyllid grant

Mae cyllid grant, gan gynnwys cyllid o grant bloc y cyngor, grantiau ymchwil a ffyrlo o ffynonellau llywodraeth, a grantiau (gan gynnwys grantiau ymchwil) o ffynonellau nad ydynt yn rhan o'r llywodraeth, yn cael ei gydnabod fel incwm pan fo'r amodau sy'n ymwneud â pherfformiad wedi'u bodloni a bod y Sefydliad yn gymwys i hawlio'r incwm. Gelwir incwm a dderbynnir cyn bodloni amodau'n ymwneud â pherfformiad yn incwm gohiriedig o fewn credydwyr ar y fantolen ac mae'r rhain yn cael eu rhyddhau i fod yn incwm wrth i'r amodau gael eu bodloni.

### Rhoddion a gwaddolion

Rhoddion a gwaddolion yw trafodion nad ydynt yn gyfnewidiol heb amodau yn ymwneud â pherfformiad. Mae rhoddion a gwaddolion gyda chyfyngiadau a osodwyd gan y rhoddwr yn cael eu cydnabod fel incwm pan fo gan y Sefydliad hawl i'r cronfeydd ac maent yn cael eu cadw o fewn y gronfa gyfyngedig ar wahân hyd nes y caiff eu defnyddio yn unol â chyfyngiadau o'r fath.

Cydnabyddir rhoddion heb unrhyw gyfyngiadau gan y rhoddwr fel incwm pan fo gan y Sefydliad hawl i'r arian.

Cofnodir incwm buddsoddi a symudiadau yng ngwerth teg gwaddolion fel incwm yn y flwyddyn y maent yn codi a naill ai fel incwm cyfyngedig neu anghyfyngedig yn ôl telerau'r gwaddol.

Mae pedwar prif fath o roddion a gwaddolion yn cael eu nodi mewn cronfeydd wrth gefn:

1. **Rhoddion cyfyngedig** - mae'r rhoddwr wedi nodi bod rhaid defnyddio'r rhodd hwnnw ar gyfer amcan penodol.
2. **Gwaddolion parhaol anghyfyngedig** - mae'r rhoddwr wedi nodi y dylid buddsoddi'r arian yn barhaol i gynhyrchu ffrwd incwm er budd cyffredinol y Sefydliad.
3. **Gwaddolion gwariadwy cyfyngedig** - mae'r rhoddwr wedi nodi amcan penodol heblaw am brynu neu adeiladu asedau sefydlog diriaethol, ac mae gan y Sefydliad y pŵer i ddefnyddio'r cyfalaf.
4. **Gwaddolion parhaol cyfyngedig** - mae'r rhoddwr wedi nodi y dylid buddsoddi'r arian yn barhaol i gynhyrchu ffrwd incwm i'w ddefnyddio ar gyfer amcan penodol.

### Grantiau cyfalaf

Cydnabyddir grantiau cyfalaf mewn incwm pan mae gan y Sefydliad yr hawl i'r arian yn amodol ar fodloni unrhyw amodau sy'n ymwneud â pherfformiad.

## Darpariaeth ar gyfer dyledion amheus

Gwneir darpariaeth fel rheol ar gyfer dyledion unigol lle credir bod amheuaeth o ran adennill ar y sail bod y ddyled wedi dyddio y tu hwnt i'w dyddiad dyledus, amgylchiadau hysbys eraill sy'n ymwneud â'r dyledwr unigol, megis ei gyfeirio at asiantaeth casglu dyledion, ac adennill dyledion ar ôl diwedd y flwyddyn. Bernir bod modd adennill unrhyw ddyledion heb eu darparu.

## Cynlluniau pensiwn

Y tri phrif gynllun pensiwn diffiniedig i staff y Sefydliad yw Cynllun Pensiwn y Prifysgolion (yr USS), Cronfa Bensiwn Sefydliad Caerdydd (y CUPF) a Chynllun Pensiwn y Llywodraeth Leol (CPLIL). Mae'r cynlluniau yn gynlluniau buddiannau a ddiffinnir gan arian. Prisir y cronfeydd bob tair blynedd gan actwari sydd â chymwysterau proffesiynol ac fe wnaiff hynny gan ddefnyddio'r dull cronni neu'r dull oed-a-gyrhaeddwyd, ac ymddiriedolwyr y cynllun, ar sail y cyngor a gânt gan yr actiwari, sy'n penderfynu ar gyfraddau'r cyfraniadau sy'n daladwy.

## Cynllun Pensiwn Prifysgolion

Mae'r sefydliad yn cymryd rhan yng Nghynllun Pensiwn y Prifysgolion. Mae asedau'r cynllun wedi'u dal mewn cronfa ar wahân sy'n cael ei gweinyddu gan ymddiriedolwyr. Oherwydd natur gydfuddiannol y cynllun, nid yw'r asedau wedi'u priodoli i sefydliadau unigol a phennir cyfradd cyfraniad drwy'r cynllun cyfan. Felly, mae'r sefydliad yn agored i risgiau actiwarïaidd sy'n gysylltiedig â gweithwyr sefydliadau eraill ac nid yw'n gallu nodi ei gyfran o asedau a rhwymedigaethau sylfaenol y cynllun ar sail gyson a rhesymol. Yn ôl y gofyn yn Adran 28 o Safon Adrodd Ariannol 102, "Buddion i weithwyr", mae'r Sefydliad felly yn ystyried y cynllun fel petai'n gynllun cyfraniadau wedi'u diffinio. O ganlyniad, mae'r swm a godwyd ar y cyfrif elw a cholled yn cynrychioli'r cyfraniadau sy'n daladwy i'r cynllun. Gan fod y Sefydliad wedi ymrwymo i gytundeb (y Cynllun Adfer) sy'n penderfynu sut y bydd pob cyflogwr o fewn y cynllun yn ariannu'r diffyg cyffredinol, mae'r Sefydliad yn cydnabod atebolrwydd am y cyfraniadau sy'n deillio o'r cytundeb (i'r graddau y maent yn ymwneud â'r diffyg) gyda threuliau cysylltiedig yn cael eu cydnabod drwy'r cyfrif elw a cholled.

**Cynllun cyfraniadau diffiniedig:**

Cynllun buddiannau yn dilyn cyflogaeth yw cynllun cyfraniadau diffiniedig lle mae'r Sefydliad yn talu cyfraniadau penodol i endid ar wahân ac ni fydd ganddo unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol na deongliadol i dalu symiau pellach. Mae rhwymedigaethau i gyfrannu at gynlluniau pensiwn cyfraniadau diffiniedig yn cael eu cydnabod fel traul yn y Datganiad Cyfunol o Incwm Cynhwysfawr yn y cyfnodau pan fydd gwasanaethau yn cael eu darparu gan weithwyr.

**Cynllun buddiannau diffiniedig:**

Mae'r cynlluniau buddiannau diffiniedig yn gynlluniau buddiannau ar ôl cyflogaeth sy'n eithriad i'r cynlluniau cyfraniadau diffiniedig. O dan gynlluniau buddion diffiniedig, ymrwymiad y Sefydliad yw darparu buddion y cytunwyd arnynt i weithwyr presennol a chyn-weithwyr, ac mae risg actiwarïaidd (y bydd buddion yn costio mwy neu lai na'r disgwyl) a risg buddsoddiad (y bydd yr arian a geir yn ôl ar asedau sydd wedi'u gosod i un ochr er mwyn ariannu'r buddion yn wahanol i'r disgwyl) yn cael eu neilltuo, yn eu hanfod, gan y Sefydliad. Dylai'r Sefydliad gydnabod atebolrwydd ar gyfer ei rwymedigaethau o dan gynlluniau buddiannau diffiniedig yn net o asedau'r cynllun. Mae'r rhwymedigaeth buddiannau diffiniedig net hwn yn cael ei fesur fel y swm yr amcangyfrifir o fuddiannau mae cyflogwyr wedi'u hennill yn gyfnewid am eu gwasanaeth yn y cyfnod presennol a'r cyfnodau blaenorol, am bris gostyngol i bennu ei werth presennol, a gan dynnu gwerth teg (am bris bidio) asedau'r cynllun. Perfformir y cyfrifiad gan actiwari cymwys gan ddefnyddio'r dull credydau uned rhagamcanol. Lle mae'r cyfrifiad yn arwain at ased net, mae cydnabyddiaeth yr ased yn gyfyngedig i'r graddau mae'r Sefydliad yn gallu adennill y gwarged naill ai drwy gyfraniadau llai yn y dyfodol neu drwy ad-daliadau o'r cynllun.

Yn ogystal, mae Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (y GIG) yn weithredol yn achos rhai aelodau o'r staff. Cynllun buddion diffiniedig sydd heb ei ariannu yw cynllun y GIG, a thelir buddion pensiwn o'r cyfraniadau a gafwyd yn ystod y flwyddyn ac yn ôl y cyfraddau cyfrannu y penderfynir arnynt gan Drysorlys Ei Fawrhydi. Cyfrifir am hyn

fel cynllun cyfraniadau wedi'u diffinio. I gydymffurfio â Deddf Pensiynau 2008, mae'r Sefydliad hefyd yn defnyddio cynllun pensiwn cyfraniadau diffiniedig NEST ar gyfer gweithwyr cymwys nad ydynt yn gytundebol.

## Buddion cyflogaeth

Mae buddion cyflogaeth tymor byr fel cyflogau ac absenoldebau yn cael eu cydnabod fel traul yn y flwyddyn y mae'r gweithwyr yn darparu gwasanaeth i'r Sefydliad. Bydd unrhyw fuddion segur yn cronni ac yn cael eu mesur fel y swm ychwanegol mae'r Sefydliad yn disgwyl ei dalu o ganlyniad i hawliau heb eu defnyddio.

## Arian tramor

Cofnodir trafodion a wneir mewn arian tramor yn ôl y gyfradd gyfnewid a oedd ar waith ar ddyddiadau'r trafodion. Trosir asedau ariannol ac atebolrwydd mewn arian tramor i arian Prydain, sef arian cyfred swyddogaethol y Sefydliad, yn ôl y cyfraddau diwedd-blwyddyn a chaiff y gwahaniaethau yn y cyfraddau cyfnewid sy'n deillio o hynny eu cynnwys wrth benderfynu ar y diffyg neu'r gwarged am y flwyddyn.

## Prydlesau gweithredu

Codir costau mewn perthynas â phrydlesi gweithredu ar sail llinell syth dros dymor y brydles. Mae unrhyw bremiymau neu gymhellion prydles yn cael eu gwasgaru dros dymor gofynnol y brydles.

## Asedau sefydlog

Mae asedau sefydlog yn cael eu nodi ar gost / cost dybiedig namyn dibrisiant cronedig a cholledion amhariad cronedig. Mesurwyd asedau eiddo rhydd-ddaliadol ac ar brydles hir sy'n bodoli wrth drosglwyddo i Safon Adrodd Ariannol 102 (1 Awst 2014) ar sail cost dybiedig, sef gwerth teg y farchnad neu gost dybiedig amnewid.

Caiff y gwahaniaeth rhwng y swm wedi ei ailbrisio a'r gost hanesyddol ei gredydu i gronfa ailbrisio wrth gefn.

Caiff swm sy'n hafal i'r dibrisiant dros hynny ar sail y gost hanesyddol ei drosglwyddo o'r gronfa ailbrisio wrth gefn i enillion wedi'u cadw.

**Tir ac adeiladau**

Caiff costau o ran tir ac adeiladau ar ôl eu prynu'n gychwynnol neu eu hadeiladu eu cyfalafu i'r graddau y maent yn cynyddu'r manteision disgwyliedig yn y dyfodol i'r Sefydliad.

Ni chaiff tir ei ddibrisio am y credir bod iddo oes ddefnyddiol amhenodol. Mae adeiladau rhydd-ddaliad yn cael eu dibrisio ar sail llinell syth dros eu bywydau defnyddiol disgwyliedig, mewn blynyddoedd, fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Adeiladau rhestredig ac adeiladau academaidd | 50 mlynedd |
| Safleoedd preswyl cyn 1990 | 25 mlynedd |
| Safleoedd preswyl ar ôl 1990 a safleoedd preswyl Gogledd Tal-y-bont | 50 mlynedd |
| Tai Preswyl | 50 mlynedd |
| Adeiladau lled-barhaol | 25 mlynedd |
| Adeiladau newydd ar safle Ysbyty Athrofaol Cymru | 50 mlynedd |
| Hen adeiladau ar safle Ysbyty Athrofaol Cymru | 25 mlynedd |
| Adnewyddu | 15 mlynedd |

Mae adeiladau prydles yn dibrisio dros gyfnod byrrach y brydles neu'r cyfnod y mae disgwyl iddynt fod o ddefnydd a ddangosir uchod.

Ni chodir unrhyw ddibrisiant ar asedau yn ystod y gwaith adeiladu.

**Offer a Chyfarpar**

Mae offer a chyfarpar sy'n costio llai na £10,000 fesul eitem unigol neu grŵp o eitemau cysylltiedig yn cael eu dileu yn y flwyddyn caffael oni bai eu bod yn cael eu prynu fel rhan o adeilad newydd neu waith adnewyddu seilwaith adeilad mawr.

Caiff yr holl offer eraill eu cyfalafu ac eithrio'r offer a ariennir o Grantiau Ymchwil ac sy'n costio o dan £50,000. Caiff hyn hefyd eu dileu ym mlwyddyn eu prynu.

Mae peiriannau ac offer wedi'u cyfalafu yn cael eu datgan ar gost a'u dibrisio dros eu hoes ddefnyddiol ddisgwyliedig o rhwng pedair a deg mlynedd ar gyfer offer, fel y bo'n briodol, a 15 mlynedd ar gyfer peiriannau/offer sy'n gysylltiedig â seilwaith adeiladau (e.e. boeleri, aerdymheru, neu systemau larwm).

Ni chaiff asedau sy'n cael eu hadeiladu mo'u dibrisio tan iddynt gael eu rhoi ar waith.

Caiff offer sydd wedi'i ddibrisio'n llawn ei ddileu 10 mlynedd ar ôl ei gaffael.

## Buddsoddiadau

Cedwir buddsoddiadau asedau anghyfredol ar y Fantolen ar gost namyn amhariad.

Carir mentrau ar y cyd ar gost namyn colled yn natganiadau ariannol y Sefydliad.

Cedwir buddsoddiadau asedau cyfredol ar werth teg gyda symudiadau'n cael eu cydnabod yng nghyfanswm yr incwm cynhwysfawr am y flwyddyn.

## Stociau

Mae'r stociau a ddelir yn ddeunyddiau adeiladu, nwyddau traul meddygol / y biowyddorau, a nwyddau traul masnachu yr Uned Gwaith Ystadau, Coleg y Gwyddorau Biofeddygol a Bywyd ac Arlwyo yn y drefn honno. Caiff y rhain eu prisio yn ôl y gost isaf neu'r pris gwerthadwy net.

## Arian parod a chyfatebol i arian parod

Mae arian parod yn cynnwys arian parod mewn llaw, adneuon sy'n ad-daladwy ar alw a gorddrafftiau. Mae adneuon yn ad-daladwy ar alw os ydynt ar gael yn ymarferol ymhen 24 awr heb gosb.

Buddsoddiadau tymor byr, hynod hylifol y gellir eu trosi'n hawdd i swm o arian heb risg sylweddol i newid mewn gwerth yw'r hyn sy'n gyfwerth ag arian parod.

## Cynnal a Chadw Eiddo

Mae gan y Sefydliad gynllun cynnal a chadw treigl sy'n cael ei adolygu'n flynyddol. Codir cost cynnal a chadw cywirol arferol ar y datganiad o incwm cynhwysfawr.

## Statws treth

Gan fod y Sefydliad yn elusen gofrestredig o fewn ystyr Pennod 1 o Adran 3 o Ddeddf Elusennau 2011, mae felly yn elusen o fewn ystyr Adran 6 o Ddeddf Cyllid 2010. Yn unol â hynny, mae'r Sefydliad wedi'i eithrio, o bosibl, rhag talu treth mewn cysylltiad â'r incwm neu'r enillion cyfalaf a gaiff o fewn y categorïau sy'n dod o dan Adrannau 478-488 o Ddeddf Treth Gorfforaeth 2010 neu Adran 256 o Ddeddf Trethu Enillion Trethadwy 1992 i'r graddau y caiff yr incwm hwnnw neu'r enillion hynny eu cymhwyso at ddibenion cwbl elusennol er lles y cyhoedd.

Mae pob is-gwmni'n atebol i dalu Treth Gorfforaeth a Threth ar Werth (TAW). Mae prif weithgareddau'r Sefydliad wedi'u heithrio rhag TAW ond mae rhai cyflenwadau a gwasanaethau ategol yn agored i dalu TAW ar amrywiol gyfraddau. Mae gwariant yn cynnwys TAW anadferadwy a godir gan gyflenwyr ar y Sefydliad. Nid oes rhaid i'r Sefydliad dalu Treth Dir y Dreth Stamp wrth brynu a phrydlesu eiddo.

## Darpariaethau

Cydnabyddir darpariaethau pan fo gan y Sefydliad rwymedigaeth gyfreithiol neu ddeongliadol bresennol o ganlyniad i ddigwyddiad yn y gorffennol, mae'n debyg y bydd gofyn trosglwyddo budd economaidd i setlo'r rhwymedigaeth, ac y gellir gwneud amcangyfrif dibynadwy o gyfanswm y rhwymedigaeth.

## Offerynnau ariannol

Mae'r Sefydliad wedi dewis mabwysiadu Adrannau 11 a 12 o Safon Adrodd Ariannol 102 mewn perthynas ag offerynnau ariannol ar gyfer ei gyfrifon cyfunol a datganiadau ariannol y Sefydliad.

**(i) Asedau Ariannol**

Mae asedau ariannol sylfaenol, gan gynnwys symiau masnach a symiau derbyniadwy eraill, arian parod a gweddill banc a buddsoddiadau mewn papur masnachol, i ddechrau yn cael eu cydnabod am bris y trafodyn, oni bai bod y trefniant yn cynnwys trafodyn ariannu, lle mae'r trafodyn yn cael ei fesur ar werth presennol y derbyniadau yn y dyfodol gyda disgownt o gyfradd llog y farchnad.

Mae asedau o'r fath yn cael eu cynnal yn dilyn hynny ar gost wedi'i hamorteiddio, gan ddefnyddio'r dull llog effeithiol.

Ar ddiwedd pob cyfnod adrodd mae asedau ariannol yn cael eu mesur ar gost wedi'i hamorteiddio ar gyfer tystiolaeth wrthrychol o golled. Os yw ased am wneud colled, y golled hon yw'r gwahaniaeth rhwng y swm cario a gwerth presennol y llifau arian parod amcangyfrifedig wedi eu disgowntio ar gyfradd llog effeithiol gwreiddiol yr ased. Cydnabyddir y golled yng nghyfanswm yr incwm cynhwysfawr am y flwyddyn.

Os oes gostyngiad yn y golled sy'n deillio o ddigwyddiad sy'n digwydd ar ôl nodi'r golled, caiff y golled ei gwrthdroi. Mae'r gwrthdroi yn golygu nad yw'r swm cario presennol yn fwy na beth fyddai'r swm cario wedi bod pe na fyddai'r golled wedi'i chydnabod yn flaenorol. Cydnabyddir y ffaith fod colled yn cael ei gwrthdroi yng nghyfanswm yr incwm cynhwysfawr am y flwyddyn.

I ddechrau, mesurir asedau ariannol eraill, gan gynnwys buddsoddiadau mewn offerynnau ecwiti nad ydynt yn is-gwmnïau, partneriaethau cyswllt neu gyd-fentrau, ar werth teg, sydd fel arfer yn bris y trafodyn.

Mae asedau o'r fath yn cael eu cynnal wedyn ar werth teg ac mae'r newidiadau mewn gwerth teg yn cael eu cydnabod yn y gwarged neu ddiffyg, heblaw'r buddsoddiadau hynny mewn offerynnau ecwiti nad ydynt yn cael eu masnachu yn gyhoeddus ac na ellir mesur eu gwerth teg ar gost namyn yr amhariad.

Mae asedau ariannol yn cael eu dad-gydnabod pan mae (a) yr hawliau cytundebol i'r llifau arian o'r ased yn dod

i ben neu'n cael eu setlo, neu (b) yr holl risgiau a gwobrwyon o berchnogaeth yr asedau'n cael eu trosglwyddo i barti arall neu (c) er cadw rhai o risgiau a gwobrwyon sylweddol perchnogaeth, mae rheolaeth yr ased wedi'i drosglwyddo i barti arall sydd â'r gallu ymarferol i werthu ased i drydydd parti digyswllt yn unochrog heb osod cyfyngiadau ychwanegol.

**(ii) Rhwymedigaethau ariannol**
Mae rhwymedigaethau ariannol sylfaenol, gan gynnwys symiau masnach a symiau derbyniadwy eraill, benthyciadau banc, benthyciadau gan gwmnïau o'r cyd-grŵp a blaengyfrannau sy'n cael eu galw'n ddyled, i ddechrau yn cael eu cydnabod am bris y trafodyn, oni bai bod y trefniant yn cynnwys trafodyn ariannu, lle mae'r offeryn dyled yn cael ei fesur ar werth presennol y derbyniadau yn y dyfodol gyda disgownt o gyfradd llog y farchnad.

Yn dilyn hynny cynhelir offerynnau dyled ar gost wedi'i hamorteiddio, gan ddefnyddio'r dull llog effeithiol.

Cydnabyddir ffioedd a delir wrth sefydlu cyfleusterau benthyg fel costau trafodion y benthyciad i'r graddau ei bod yn debygol y bydd rhai neu bob un o'r cyfleusterau yn cael eu derbyn. Yn yr achos hwn, mae'r ffi yn cael ei gohirio hyd nes y caiff yr arian ei dderbyn. I'r graddau nad oes unrhyw dystiolaeth ei bod yn debygol y bydd rhywfaint o'r cyfleuster neu'r cyfleuster cyfan yn cael ei dynnu i lawr, mae'r ffi yn cael ei chyfalafu fel taliad ymlaen llaw am wasanaethau hylifedd a'i hamorteiddio dros gyfnod y cyfleuster y mae'n perthyn iddo.

Symiau masnach taladwy yw'r rhwymedigaethau i dalu am nwyddau neu wasanaethau sydd wedi'u caffael yn nhrefn arferol y busnes gan gyflenwyr. Gelwir cyfrifon sy'n daladwy yn rhwymedigaethau cyfredol os yw taliad yn ddyledus o fewn blwyddyn neu lai. Os nad ydynt, fe'u cyflwynir fel rhwymedigaethau anghyfredol. I ddechrau mae symiau masnach taladwy yn cael eu cydnabod am bris trafodyn ac wedyn eu mesur ar gost wedi ei hamorteiddio gan ddefnyddio'r dull llog effeithiol.

Mae rhwymedigaethau ariannol yn cael eu dad-gydnabod pan fo'r rhwymedigaeth yn cael ei dihysbyddu – hynny yw, pan fo'r rhwymedigaeth gontractiol yn cael ei chanslo neu ei rhyddhau neu pan fydd yn dod i ben.

## Cronfeydd wrth gefn

Mae cronfeydd wrth gefn yn cael eu galw'n gyfyngedig neu'n anghyfyngedig. Mae cronfeydd gwaddol cyfyngedig yn cynnwys balansau sydd, drwy waddol i'r Sefydliad, yn cael eu cadw fel cronfa gyfyngedig barhaol y mae'n rhaid i'r Sefydliad ei chadw am byth.

Mae cronfeydd cyfyngedig eraill sydd wrth gefn yn cynnwys balansau lle mae'r rhoddwr wedi dynodi diben penodol. Felly cyfyngir ar y modd y caiff y Sefydliad ddefnyddio'r cronfeydd hyn.

Crëwyd y gronfa ad-dalu bondiau, cronfa ddynodedig, yn 2019/20 er mwyn gallu rhoi tebygolrwydd rhesymol o allu talu'r ad-daliad bond o £400m, a fydd yn ddyledus ar 7 Rhagfyr 2055 (nodyn 24).

## Amcangyfrifon arwyddocaol a dyfarniadau

Dyma'r amcangyfrifon arwyddocaol a'r dyfarniadau a ddefnyddiwyd i baratoi'r wybodaeth ariannol hon:

**(i) Adenilladwyedd dyledwyr**
Mae'r polisi cyfrifyddu arferol (ar ôl Covid-19) ar gyfer asesu adenilladwyedd dyledwyr a'r ddarpariaeth amhariad dyled amheus ddilynol o ran casglu ffioedd myfyrwyr a dyledion masnachol ac ymchwil wedi'i gymhwyso.

O ganlyniad i fesurau a roddwyd ar waith yn ystod pandemig Covid-19, mae ein gweithdrefnau casglu dyledion wedi parhau, a bu'n ofynnol i fyfyrwyr glirio eu ffioedd presennol cyn symud ymlaen i flwyddyn academaidd arall. Ar gyfer myfyrwyr sydd wedi cwblhau eu cwrs ond sydd â ffioedd sy'n ddyledus, mae eu hardystiad llawn yn cael ei atal hyd nes y caiff eu dyled ffioedd ei chlirio, yn unol â pholisi Ffioedd Dysgu'r Sefydliad.

Yn gyffredinol, ar ôl Covid-19, mae gallu'r Sefydliad i gasglu dyledion gan ein myfyrwyr a chleientiaid masnachol ac ymchwil yn y DU ac yn rhyngwladol wedi gwella, sydd wedi lleihau'r risg o ran adennill y ddyled, ac eithrio dyledion penodol. Rydym yn parhau i fonitro dyled dramor yn agos ac yn gweithredu fel y bo'n briodol.

*Amcangyfrif*

***Dyled Ffioedd Dysgu***
Asesir darpariaeth amhariad dyledion amheus ffioedd dysgu diwedd y flwyddyn ar sail yr holl ddyledion hwyr yn ôl categori dyledwr ffioedd, waeth beth fo'i broffil oed, gyda chategorïau penodol yn priodoli mwy o risg nag eraill.

Mae'r ddarpariaeth amhariad dyledion cyfanredol sy'n deillio o hyn yn cael ei lleihau gan setliadau ffioedd dilynol a gafwyd ar ôl 31 Gorffennaf 2022 gan ddyledwyr yn yr un categorïau hyn. Bernir bod yr holl ddyled arall o ffioedd dysgu yn adenilladwy.

Y ddyled ffioedd dysgu ar 31 Gorffennaf 2022 oedd £5.1 miliwn (2021: £6.3 miliwn) (gweler Nodyn 14), ac roedd £4.8 miliwn (2021: £6.2 miliwn) ohoni'n hwyr. Ar ôl cymhwyso ein polisi amhariad dyled, barnwyd bod £4.7 miliwn (2021: £5.7 miliwn) mewn perygl, yn amodol ar ddarpariaeth amhariad dyledion amheus o £4.3 miliwn (2021: £4.7 miliwn) ar ôl asesu derbyniadau a dderbyniwyd ar ôl 31 Gorffennaf 2022.

***Dyled Masnachol ac Ymchwil***
Mae polisïau asesu amhariad dyled cyffredinol wedi'u cymhwyso, ac eithrio gyda llysgenadaethau tramor, gan fod dyled sydd dros 91 diwrnod yn hwyr yn amodol ar ddarpariaeth amhariad (a ddarperir fel arfer pan fydd 181 diwrnod yn hwyr)

Yn gyffredinol, roedd dyledion masnachol ac ymchwil ar 31 Gorffennaf 2022 yn £16.9 miliwn (2021: £11.5 miliwn) (gweler Nodyn 14).

Ar ôl cymhwyso'r polisi amhariad dyled amheus wedi'i addasu, asesir bod £1.2 miliwn mewn perygl (2021: £1.0 miliwn) ac yn destun darpariaeth amhariad dyled amheus.

**(ii) Dadfeiliadau Eiddo Prydlesol**
Mae'r Sefydliad wedi cydnabod ei rwymedigaeth amcangyfrifedig yn y dyfodol i ddychwelyd eiddo lesddaliadol tymor byr i'w gyflwr gwreiddiol pan ddaw'r trefniant prydles i ben, yn seiliedig ar yr amcangyfrif cost gwaith marchnad cyfredol a ddarparwyd gan syrfëwr eiddo proffesiynol wrth asesu statws cyfredol pob adeilad perthnasol.

Ar 31 Gorffennaf 2022, rhagdybir y bydd y Sefydliad yn gadael pob les ar y dyddiad perthnasol gan nad oes unrhyw gynlluniau nac arwyddion i wrthsefyll y farn hon.

Bydd y ddarpariaeth/darpariaethau amcangyfrifedig canlyniadol yn destun adolygiad blynyddol yn y dyfodol o ran perthnasedd, h.y. cynlluniau dyfodol i ymadael neu adnewyddu, ac i gymhwyso chwyddiant, yn seiliedig ar ddata mynegeio prisiau cost diwydiant perthnasol.

Bydd amrywiadau chwyddiant costau yn y dyfodol yn cael eu cydnabod yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel cost atgyweirio a chynnal a chadw.

**(ii) Rhwymedigaethau buddiannau ymddeol**
***Amcangyfrif – CUPF a CPLIL***
Mae'r Sefydliad yn gweithredu ei gynllun ei hun, Cronfa Bensiwn Prifysgol Caerdydd (CUPF), ac mae'n cymryd rhan

mewn Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLIL); mae'r ddau yn gynlluniau buddiannau diffiniedig. Cynhelir prisiadau actiwarïaidd o'r cynlluniau fel y pennir gan yr ymddiriedolwyr ar adegau hyd at dair blynedd o hyd.

Asesir costau pensiwn o dan FRS 102 yn unol â chyngor actiwarïaid annibynnol yn seiliedig ar brisiadau actiwarïaidd diweddaraf a rhagdybiaethau a bennir gan yr actiwarïaid.

Mae'r tybiaethau yn seiliedig ar wybodaeth a roddwyd i actiwarïaid gan y Sefydliad, wedi'i hategu gan drafodaethau rhwng yr actiwari a'r tîm rheoli, lle'r oedd yn berthnasol. Mae'r tybiaethau wedi'u dogfennu yn Nodyn 25.

Ar 31 Gorffennaf 2022, arweiniodd y gronfa CPLIL, o dan driniaeth gyfrifyddu Safon Adrodd Ariannol 102, at ased pensiwn. Nid yw'r ased wedi'i gydnabod felly ar y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, gan nad oes hawl awtomataidd i gael ad-daliad o'r cynllun.

Mae newidiadau diweddar mewn pwysau economaidd byd-eang a'r DU a thynhau polisi ariannol wedi cael effaith sylweddol ar farchnadoedd asedau ac arenillion bondiau corfforaethol, sy'n allweddol i asesiad Safon Adrodd Ariannol 102 o'r ased neu rwymedigaeth pensiwn net. Yn benodol, mae arenillion bondiau corfforaethol AA, a ddefnyddiwyd i osod cyfradd ddisgownt Safon Adrodd Ariannol 102, wedi cynyddu'n sylweddol ers 31 Gorffennaf 2022, gyda gostyngiad cyfatebol yng ngwerth asedau. Mae'r marchnadoedd wedi bod yn hynod gyfnewidiol ac felly er y bydd cynlluniau buddiannau diffiniedig gros ac asedau wedi gostwng, mae'n anodd amcangyfrif effaith y newidiadau hyn ar sefyllfa net y fantolen.

***Amcangyfrif - USS***

Gan fod y Sefydliad wedi'i rwymo o dan gontract i wneud taliadau adfer diffyg i USS, cydnabyddir hyn fel rhwymedigaeth yn y fantolen. Ar hyn o bryd, mae'r ddarpariaeth yn seiliedig ar gynllun adfer diffygion USS y cytunwyd arno ar ôl prisiad actiwaraidd 2020 sy'n diffinio'r taliad diffyg sy'n ofynnol fel canran o gyflogau yn y dyfodol tan 2038. Mae'r cyfraniadau hyn yn cael eu hail-asesu ym mhob prisiad teirblwydd o'r cynllun. Mae'r ddarpariaeth yn seiliedig ar amcangyfrif y rheolwyr o chwyddiadau cyflogau yn y dyfodol, newidiadau yn nifer y staff a chyfradd gyffredinol y gostyngiad. Nodir mwy o fanylion yn Nodyn 25.

***Dyfarniad - USS***

Mae FRS 102 yn gwahaniaethu rhwng cynllun grŵp a chynllun amlgyflogwr. Mae cynllun grŵp yn cynnwys casgliad o endidau o dan reolaeth gyffredin fel arfer gyda chyflogwr sy'n noddi. Mae cynllun aml-gyflogwr yn gynllun ar gyfer endidau nad ydynt o dan reolaeth gyffredin ac (fel arfer) ac mae'n cynrychioli cynllun ar draws y diwydiant cyfan, er enghraifft Cynllun Pensiwn y Prifysgolion.

Mae'r broses gyfrifyddu ar gyfer cynllun aml-gyflogwr, lle'r aeth y cyflogwr i gytundeb â'r cynllun sy'n pennu sut bydd y cyflogwr yn ariannu diffyg, yn arwain at gydnabod atebolrwydd am y cyfraniadau sy'n daladwy sy'n codi o'r cytundeb (i'r graddau eu bod yn perthyn i'r diffyg) gyda'r draul ganlyniadol yn cael ei chodi drwy'r cyfrif elw neu golled yn unol ag adran 28 o Safon Adrodd Ariannol 102.

Mae'r Cyngor yn fodlon bod Cynllun Pensiwn y Prifysgolion yn bodloni'r diffiniad o gynllun aml-gyflogwr ac felly mae wedi cydnabod gwerth teg gostyngol y cyfraniadau contractiol o dan y cynllun adfer sy'n bodoli ar ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol hyn.



## 2. Ffioedd Dysgu a Chontractau Addysg

**Cyfunol a Sefydliad**

| | 2022<br>£'000 | 2021<br>£'000 |
|---|---|---|
| | | Ail-ddatganwyd |
| Israddedigion o'r DU a'r Undeb Ewropeaidd | 156,378 | 154,288 |
| Ôl-raddedigion o'r DU a'r Undeb Ewropeaidd | 13,246 | 17,234 |
| Tramor (gan gynnwys rhan-amser) | 113,334 | 102.096 |
| Rhan-amser (o'r DU a'r Undeb Ewropeaidd) | 6,389 | 6,670 |
| | 289,347 | 280,288 |
| Contractau addysg | 16,490 | 16,068 |
| Grantiau cymorth hyfforddiant ymchwil | 10,053 | 10,491 |
| Ffioedd nad ydynt yn dwyn credyd | 7,620 | 7,653 |
| | 323,510 | 314,500 |

2021 Wedi'i ailddatgan: Cyfeiriwch at Nodyn 29.

## 3. Grantiau Cyrff Ariannu

**Cyfunol a Sefydliadol**

| | 2022<br>£'000 | 2021<br>£'000 |
|---|---|---|
| | | Ail-ddatganwyd |
| Grantiau rheolaidd | 75,263 | 62,925 |
| Grantiau penodol | 9,053 | 19,912 |
| Grantiau cyfalaf - adeiladau | 5,968 | 12,907 |
| Grantiau cyfalaf - offer | 8,609 | 13,720 |
| | 98,893 | 109,464 |

2021 Wedi'i ailddatgan: mae symiau wedi'u hailddosbarthu rhwng y pedair eitem llinell i adlewyrchu natur y grant yn well. Nid oes unrhyw effaith gyffredinol ar gyfanswm grantiau cyrff cyllido ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2021 o hyn.

## 4. Grantiau a Chontractau Ymchwil

**Cyfunol a Sefydliad**

| | 2022<br>£'000 | 2021<br>£'000 |
|---|---|---|
| | | Ail-ddatganwyd |
| Cynghorau Ymchwil | 41,833 | 37,888 |
| Elusennau sydd â'u canolfan yn y DU | 22,857 | 18,004 |
| Cyrff Llywodraeth y DU | 37,553 | 33,384 |
| Diwydiannau'r DU | 6,563 | 6,433 |
| Y Comisiwn Ewropeaidd | 8,828 | 9,189 |
| Tramor | 5,708 | 6,319 |
| Grantiau a chontractau eraill | 2,085 | 1,431 |
| | 125,427 | 112,648 |

## 5. Incwm Arall

| | Cyfunol | | Sefydliad | |
|---|---|---|---|---|
| | 2022 £'000 | 2021 £'000 | 2022 £'000 | 2021 £'000 |
| | | Ail-ddatganwyd | | Ail-ddatganwyd |
| Gwasanaethau eraill a ddarparwyd: | | | | |
| Llywodraeth Ganolog y DU | 22,662 | 18,336 | 22,662 | 18,336 |
| Awdurdodau Iechyd y DU | 6,919 | 7,258 | 6,919 | 7,258 |
| Diwydiannau'r DU | 964 | 1,092 | 964 | 1,092 |
| Yr Undeb Ewropeaidd | 1,468 | 1,049 | 1,468 | 1,049 |
| Tramor | 78 | 167 | 78 | 167 |
| Prifysgolion y DU | 533 | 396 | 533 | 396 |
| Ffynonellau Eraill | 7,608 | 5,570 | 7,608 | 5,570 |
| Cyfanswm y gwasanaethau eraill a ddarparwyd | 40,232 | 33,868 | 40,232 | 33,868 |
| Preswylfeydd, arlwyaeth a chynadleddau | 27,788 | 22,774 | 27,788 | 22,774 |
| Eithriadau TAW y gellir eu hadennill | 632 | 2,008 | 632 | 2,008 |
| Grantiau cyfalaf eraill | 2,000 | 4,539 | 2,000 | 4,539 |
| Cynllun Cadw Swyddi y Llywodraeth | - | 400 | - | 400 |
| Incwm arall | 8,717 | 4,866 | 6,181 | 3,657 |
| | 79,369 | 68,455 | 76,833 | 67,246 |

## 6. Incwm o Fuddsoddiad

| | Cyfunol | | Sefydliad | |
|---|---|---|---|---|
| | 2022 £'000 | 2021 £'000 | 2022 £'000 | 2021 £'000 |
| Incwm o fuddsoddiadau | 4,465 | 3,151 | 4,462 | 3,151 |
| Incwm o fuddsoddiadau gwaddol (Nodyn 23) | 1,264 | 1,225 | 1,264 | 1,225 |
| | 5,729 | 4,376 | 5,725 | 4,376 |

## 7. Rhoddion a Gwaddolion

| | Cyfunol | | Sefydliad | |
|---|---|---|---|---|
| | 2022 £'000 | 2021 £'000 | 2022 £'000 | 2021 £'000 |
| Gwaddolion newydd (Nodyn 23) | 267 | 288 | 267 | 288 |
| Rhoddion gyda chyfyngiad | - | 210 | - | 210 |
| Rhoddion anghyfyngedig | 972 | 2,240 | 972 | 2,240 |
| | 1,239 | 2,738 | 1,239 | 2,738 |

## 8. Costau Staff

| | Cyfunol | | Sefydliad | |
|---|---|---|---|---|
| | 2022 £'000 | 2021 £'000 | 2022 £'000 | 2021 £'000 |
| **Costau staff:** | | | | |
| Cyflogau | 258,247 | 251,928 | 257,897 | 251,928 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 27,370 | 25,356 | 27,336 | 25,356 |
| Costau pensiwn eraill | 53,596 | 52,529 | 53,527 | 52,529 |
| | 339,213 | 329,813 | 338,760 | 329,813 |

Nid yw'r ffigurau uchod yn cynnwys taliadau a wnaed i staff ar ran y Gwasanaeth Iechyd Gwladol.

| | Cyfunol | | Sefydliad | |
|---|---|---|---|---|
| | 2022 | 2021 | 2022 | 2021 |
| | Cyfwerth ag amser llawn | Cyfwerth ag amser llawn | Cyfwerth ag amser llawn | Cyfwerth ag amser llawn |
| **Nifer y staff ar gyfartaledd fesul prif gategori:** | | Ail-ddatganwyd | | Ail-ddatganwyd |
| Clinigol ac anghlinigol, academaidd ac yn gysylltiedig â'r byd academaidd | 4,599 | 4,389 | 4,591 | 4,389 |
| Gwasanaethau Technegol | 219 | 214 | 219 | 214 |
| Cymorth gweinyddol | 981 | 962 | 971 | 962 |
| Gwasanaethau gweithredol | 233 | 236 | 233 | 236 |
| | 6,032 | 5,801 | 6,014 | 5,801 |

Mae is-gwmni sy'n eiddo llwyr i'r Sefydliad, International Learning Exchange Limited (Taith), wedi'i gynnwys yn sefyllfa Cydgrynhoi'r datgeliadau uchod.

**Iawndal prif bersonél rheoli**

Mae'r Sefydliad o'r farn mai personél rheoli allweddol yw'r 12 unigolyn (2021: 12) sy'n gwasanaethu fel aelodau o Fwrdd Gweithredol y Brifysgol sydd ag awdurdod a chyfrifoldeb dros gynllunio, cyfarwyddo a rheoli gweithgareddau'r Sefydliad. Mae costau staff yn cynnwys iawndal a dalwyd i'r prif bersonél rheoli.

| | 2022 £'000 | 2021 £'000 |
|---|---|---|
| Iawndal prif bersonél rheoli | 1,959 | 1,833 |

Mae rhestr o aelodau presennol Bwrdd Gweithredol y Brifysgol ar gael ar ein gwefan: www.cardiff.ac.uk/cy/about/organisation/university-executive-board

**Iawndal am golli swydd i weithwyr ar gyflog uwch**

Ni wnaed unrhyw daliadau iawndal i weithwyr ar gyflog uwch yn ystod y flwyddyn (2021: dim)

## 8. Costau Staff (parhad)

### Staff arall ar y cyflogau uchaf

Mae taliadau staff ar y cyflogau uchaf (ac eithrio'r Is-Ganghellor) sydd wedi'u hadlewyrchu yn yr ystodau isod yn eithrio cyfraniadau pensiwn y cyflogwr, bonysau ac iawndal am golli swydd, ond yn cynnwys taliadau a wnaed ar ran y GIG o ran ei oblygiadau contractiol i staff y Sefydliad o dan gontractau cyflogaeth y GIG ar wahân. Nid yw'r taliadau hyn wedi'u cynnwys yng nghyfrif Incwm a Gwariant y Sefydliad. O'r 151 o staff sy'n ennill mwy na £100,000 yn 2022 (2021: 149), mae 43 (2021: 53 wedi'i ailddatgan) yn cynnwys taliadau o'r fath ar ran y GIG.

| | 2022 | 2022 | **2022** | 2021 | 2021 | **2021** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Band Cyflog | Nifer GIG | Nifer arall | **Cyfanswm** | Nifer GIG Ailddatganwyd | Nifer arall Ailddatganwyd | **Cyfanswm Ailddatganwyd** |
| £100,000 - £104,999 | 1 | 33 | **34** | 1 | 23 | **24** |
| £105,000 - £109,999 | - | 21 | **21** | 1 | 21 | **22** |
| £110,000 - £114,999 | 1 | 10 | **11** | 3 | 8 | **11** |
| £115,000 - £119,999 | 2 | 8 | **10** | 4 | 8 | **12** |
| £120,000 - £124,999 | 7 | 6 | **13** | 7 | 3 | **10** |
| £125,000 - £129,999 | 1 | 5 | **6** | 1 | 7 | **8** |
| £130,000 - £134,999 | 2 | 9 | **11** | 2 | 7 | **9** |
| £135,000 - £139,999 | 2 | 4 | **6** | 3 | 4 | **7** |
| £140,000 - £144,999 | 5 | 4 | **9** | 8 | 4 | **12** |
| £145,000 - £149,999 | 4 | 2 | **6** | 4 | 1 | **5** |
| £150,000 - £154,999 | 3 | - | **3** | 3 | 1 | **4** |
| £155,000 - £159,999 | 2 | - | **2** | 3 | 5 | **8** |
| £160,000 - £164,999 | 1 | 2 | **3** | 1 | - | **1** |
| £165,000 - £169,999 | 1 | 1 | **2** | 3 | 3 | **6** |
| £170,000 - £174,999 | 3 | 1 | **4** | 2 | - | **2** |
| £175,000 - £179,999 | 2 | - | **2** | 3 | - | **3** |
| £180,000 - £184,999 | 4 | - | **4** | 1 | - | **1** |
| £185,000 - £189,999 | 1 | 2 | **3** | 3 | 1 | **4** |
| £200,000 - £204,999 | 1 | - | **1** | - | - | **-** |
| | 43 | 108 | **151** | 53 | 96 | **149** |

## 8. Costau Staff (parhad)

### Taliadau'r Is-ganghellor

| | 2022 £'000 | 2021 £'000 |
|---|---|---|
| Cyflog | 289 | 271 |
| Bonws | 1 | - |
| Buddion mewn Nwyddau | 20 | 22 |
| | 310 | 293 |
| Cyfraniad Pensiwn Optio Allan Uwch Marwolaeth yn y Swydd yn unig | 16 | 5 |
| | 326 | 298 |

| | | |
|---|---|---|
| Mae'r buddion mewn nwyddau a geir gan yr Is-Ganghellor fel a ganlyn (£000au): | | |
| Yswiriant meddygol preifat | 1 | 1 |
| Llety parhaol | 19 | 21 |

Y Pwyllgor Taliadau sy'n pennu'r taliadau i'r Is-Ganghellor, ac mae'r pwyllgor yn cynnwys aelodau lleyg annibynnol o'r Cyngor sy'n meddu ar wybodaeth ac arbenigedd perthnasol. Nid yw'r Is-Ganghellor yn bresennol ar gyfer trafodaethau a phenderfyniadau ei dâl ei hun, ac nid yw'n chwarae unrhyw ran ynddynt.

Mae Cynllun Gwobrau'r Is-Ganghellor yn cynnwys:
- adolygiad blynyddol o gyflog sylfaenol yn unol â'r farchnad; a
- cyfandaliad bonws tymor hir nad yw'n bensiynadwy sy'n seiliedig ar berfformiad ac yn gysylltiedig â llwyddiant Y Ffordd Ymlaen 2018-2023

Mae'r cynllun yn adeiladu ar egwyddorion y broses Adolygu Cyflogau Uwch-swyddogion fel yr amlinellir yn y Polisi Cyflogau Uwch Staff ac fe'i cynlluniwyd fel cynllun cymhelliant hirdymor i wobrwyo a chadw'r Is-Ganghellor gyda'r bwriad o gyflawni Strategaeth y Ffordd Ymlaen 2018-23

Mae'r Pwyllgor Taliadau'n pennu'r taliadau yn ôl sawl ffactor gan gynnwys, er enghraifft:
- arweinyddiaeth, rheolaeth, a phrofiad academaidd yr Is-Ganghellor yn y sector addysg uwch.
- ehangder y cyfrifoldebau arwain ac ariannol ar gyfer y Sefydliad.
- meincnodi cyflog sylfaenol yn erbyn cyflog blynyddol Is-Gangellorion prifysgolion Grŵp Russell a sefydliadau eraill o faint a chwmpas tebyg.
- perfformiad y Sefydliad yn unol â'r strategaeth a'r metrigau y cytunwyd arnynt.

Bob blwyddyn, mae'r Pwyllgor Taliadau yn cael adroddiad gan Gadeirydd y Cyngor ar Adolygiad Datblygu Perfformiad yr Is-Ganghellor (sy'n cynnwys mewnbwn gan aelodau'r Cyngor) ac amcanion y cytunwyd arnynt ar gyfer y flwyddyn ganlynol.

Bydd yr wybodaeth hon hefyd yn cefnogi'r adolygiad perfformiad terfynol yn erbyn Cynllun Gwobrwyo 5 mlynedd yr Is-Ganghellor. Mae'r Cynllun hwn yn rhedeg hyd at 2023 ac yna gwneir unrhyw daliad perfformiad. Nid yw'r Is-Ganghellor yn cael unrhyw daliadau perfformiad blynyddol.

Adolygir cyflog sylfaenol yr Is-Ganghellor yn unol â dyfarniadau tâl cenedlaethol ar gyfer y sector Addysg Uwch.

Mae cyflog sylfaenol yr Is-Ganghellor 7.2 gwaith (2021: 7.0 gwaith) cyflog canolrif yr holl staff, lle mae'r cyflog canolrif yn cael ei gyfrifo ar sail cyfwerth ag amser llawn ar gyfer y cyflogau y mae'r Sefydliad yn eu talu.

Mae cyfanswm tâl yr Is-Ganghellor 7.6 gwaith (2021: 7.6 gwaith) cyfanswm tâl canolrif yr holl staff, lle mae'r cyfanswm tâl canolrif yn cael ei gyfrifo ar sail cyfwerth ag amser llawn ar gyfer cyfanswm y tâl y mae'r Sefydliad yn ei dalu.

Yn unol â Chyfarwyddyd Cyfrifon CCAUC, mae tâl yn cynnwys cwmnïau gwasanaeth personol y mae'r Sefydliad yn eu hystyried yn weithwyr o dan Reoliadau Cyfryngol Cyllid a Thollau EM (IR35) ac a delir trwy'r gyflogres ac a adroddir i Gyllid a Thollau EM trwy adroddiadau "Gwybodaeth Amser Real" (RTI).

## 9. Llog a Chostau Ariannol Tebyg

| | Cyfunol | | Sefydliad | |
|---|---|---|---|---|
| | 2022<br>£'000 | 2021<br>£'000 | 2022<br>£'000 | 2021<br>£'000 |
| Llog bond a chostau ariannol | 11,594 | 9,915 | 11,594 | 9,915 |
| Llog benthyciad banc | 386 | 526 | 386 | 526 |
| Llog bond a chostau ariannol eraill | - | 7 | - | - |
| | 11,980 | 10,448 | 11,980 | 10,441 |
| Tâl net ar gynlluniau pensiwn (Nodyn 21) | 1,640 | 1,430 | 1,640 | 1,430 |
| Datod disgownt ar ddarpariaeth pensiwn USS (Nodyn 21) | 752 | 620 | 752 | 620 |
| | 14,372 | 12,498 | 14,372 | 12,491 |



## 10. Dadansoddiad o'r Gwariant fesul Gweithgaredd

| **Cyfunol** | Costau staff £'000 | Treuliau gweithredu eraill £'000 | Llog sy'n Daladwy £'000 | Cyfanswm 2022 £'000 | Cyfanswm 2021 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Ail-ddatganwyd |
| Adrannau academaidd | 200,188 | 55,847 | - | 256,035 | 236,621 |
| Gwasanaethau academaidd | 20,409 | 16,136 | - | 36,545 | 37,022 |
| Grantiau a chytundebau ymchwil | 54,281 | 32,629 | - | 86,910 | 81,576 |
| Gwasanaethau eraill a ddarparwyd | 14,005 | 24,229 | - | 38,234 | 32,143 |
| Preswylfeydd, arlwyaeth a chynadleddau | 5,271 | 13,096 | 386 | 18,753 | 11,827 |
| Adeiladau | 7,014 | 37,334 | - | 44,348 | 46,742 |
| Gwasanaethau canolog a gweinyddu | 37,860 | 30,336 | - | 68,196 | 67,361 |
| Treuliau eraill | 4,625 | 3,290 | 11,594 | 19,509 | 21,865 |
| Addasiadau i'r cronfeydd pensiwn | (4,440) | - | 2,392 | (2,048) | 2,111 |
| | 339,213 | 212,897 | 14,372 | 566,482 | 537,268 |
| Dibrisiant (Nodyn 11) | | | | 40,041 | 40,644 |
| Costau staff – cynnydd yn narpariaeth cynllun pensiwn USS (nodyn 21) | | | | 118,781 | 2,394 |
| Costau staff – Datblygu Cynllun Diswyddo Gwirfoddol | | | | 9 | 482 |
| Cyfanswm fesul Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | | | | 725,313 | 580,788 |

| **Sefydliad** | Costau staff £'000 | Treuliau gweithredu eraill £'000 | Llog sy'n Daladwy £'000 | Cyfanswm 2022 £'000 | Cyfanswm 2021 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Ailddatganwyd |
| Adrannau academaidd | 200,188 | 55,847 | - | 256,035 | 236,621 |
| Gwasanaethau academaidd | 20,409 | 16,136 | - | 36,545 | 37,022 |
| Grantiau a chytundebau ymchwil | 54,281 | 32,629 | - | 86,910 | 81,576 |
| Gwasanaethau eraill a ddarparwyd | 14,005 | 24,229 | - | 38,234 | 32,143 |
| Preswylfeydd, arlwyaeth a chynadleddau | 5,271 | 13,096 | 386 | 18,753 | 11,827 |
| Adeiladau | 7,014 | 37,334 | - | 44,348 | 46,742 |
| Gwasanaethau canolog a gweinyddu | 37,860 | 30,336 | - | 68,196 | 67,361 |
| Treuliau eraill (gweler tudalen 66) | 4,172 | 1,405 | 11,594 | 17,171 | 20,705 |
| Addasiadau i'r cronfeydd pensiwn | (4,440) | - | 2,392 | (2,048) | 2,111 |
| | 338,760 | 211,012 | 14,372 | 564,144 | 536,108 |
| Dibrisiant (Nodyn 11) | | | | 40,041 | 40,644 |
| Costau staff – cynnydd yn narpariaeth cynllun pensiwn USS (nodyn 21) | | | | 118,781 | 2,394 |
| Costau staff – Datblygu Cynllun Diswyddo Gwirfoddol | | | | 9 | 482 |
| Cyfanswm fesul Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | | | | 722,975 | 579,628 |

Ailddatganwyd Cyfunol a Sefydliadol 2021:
Mae'r eitemau llinell a ganlyn wedi'u hailddatgan ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Gorffennaf 2021 ar gyfer y ffigurau cyfunol a sefydliadol i adlewyrchu natur y gwariant yn well – mae gwasanaethau academaidd wedi'u lleihau £14.4 miliwn, mae gwasanaethau gweinyddol a chanolog wedi'u cynyddu £35.1 miliwn, ac mae treuliau eraill wedi'u lleihau £20.7 miliwn. Nid oes unrhyw effaith gyffredinol ar y symiau a adroddir yn y datganiadau cyfunol neu sefydliadol o incwm cynhwysfawr o'r ailddosbarthiadau hyn.

Yn ogystal, mae adrannau academaidd wedi cynyddu £7.6 miliwn oherwydd ailddatgan costau comisiynu asiantau tramor a wrthbwyswyd yn flaenorol yn erbyn incwm ffioedd dysgu (gweler Nodyn 29).

## 10. Dadansoddiad o'r Gwariant fesul Gweithgaredd (parhad)

| | 2022 | 2021 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| **Mae treuliau gweithredu eraill yn cynnwys:** | | |
| Tâl archwilwyr allanol mewn perthynas â gwasanaethau archwilio | 204 | 133 |
| Taliadau i archwilwyr allanol ar gyfer gwasanaethau cysylltiedig ag archwilio | 2 | 12 |
| Taliadau i archwilwyr allanol ar gyfer gwasanaethau nad oeddent yn rhai archwilio | Dim | 84 |
| **Rhentolion prydles gweithredol** | | |
| Tir ac adeiladau | 2,973 | 3,180 |
| Treuliau | 122 | 177 |

Mae treuliau gweithredu eraill yn cynnwys:

- credyd mewn costau staff o £2,876,000 (2021: tâl o £3,407,000) yn ymwneud â symudiad ar y Croniad Absenoldeb Gweithwyr (Nodyn 17)
- dim costau yn gysylltiedig ag unigolion a roddwyd ar ffyrlo (2021: £1,038,000)
- costau sy'n gysylltiedig â chyfleuster profi COVID-19 y Sefydliad o £637,000 (2021: £1,659,000)
- datganiad o £859,000 o'r ddarpariaeth hawliadau myfyrwyr COVID-19, nad oes ei hangen mwyach.



## 11. Asedau Sefydlog Diriaethol

### Cyfunol a Sefydliad

| | Tir ac Adeiladau | | | Offer | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| | Rhydd-ddaliad £'000 | Ar brydles hir £'000 | Asedau'n cael eu Hadeiladu £'000 | £'000 | £'000 |
| **Cost neu brisiad** | | | | | |
| Ar 1 Awst 2021 | 473,175 | 284,516 | 254,382 | 193,516 | 1,205,589 |
| Ychwanegiadau ar y gost | 23,181 | 4,296 | 2,577 | 24,767 | 54,821 |
| Gwarediadau | | | | (3,935) | (3,935) |
| Prosiectau a gwblhawyd | 242,462 | 12,011 | (254,527) | 54 | - |
| **Ar 31 Gorffennaf 2022** | **738,818** | **300,823** | **2,432** | **214,402** | **1,256,475** |
| Prisiad (i) | 371,771 | 229,472 | - | - | 601,243 |
| Cost | 367,047 | 71,351 | 2,432 | 214,402 | 655,232 |
| Ar 31 Gorffennaf 2022 | 738,818 | 300,823 | 2,432 | 214,402 | 1,256,475 |
| **Dibrisio cronedig** | | | | | |
| Ar 1 Awst 2021 | 63,914 | 50,197 | - | 157,203 | 271,314 |
| Cost am y flwyddyn | 12,930 | 8,933 | - | 18,178 | 40,041 |
| Dilëwyd wrth waredu | - | - | - | (3,935) | (3,935) |
| **Ar 31 Gorffennaf 2022** | **76,844** | **59,130** | **-** | **171,446** | **307,420** |
| **Gwerth llyfr net** | | | | | |
| Ar 31 Gorffennaf 2022 | 661,974 | 241,693 | 2,432 | 42,596 | 949,055 |
| Ar 31 Gorffennaf 2021 | 409,261 | 234,319 | 254,382 | 36,313 | 934,275 |

(i) Cynhaliwyd prisiad llawn o ystad y Sefydliad ar 31 Gorffennaf 2014 gan Syrfewyr Siartredig Cooke ac Arkwright yn unol â Phrisiad RICS – Safonau Proffesiynol Ionawr 2014 (y Llyfr Coch) i bennu'r gost dybiedig. O gyfanswm y prisiad o £609 miliwn, roedd £557 miliwn ar werth teg drwy amnewid costau wedi'u dibrisio, ac roedd £52 miliwn ar werth teg.

Ariannwyd adeiladau penodol o ffynonellau Trysorlys y DU ar gost o £132 miliwn. Pe gwerthid yr adeiladau hynny, defnyddiai'r Sefydliad yr arian yn unol â Thelerau Ariannu CCAUC.

Mae'r tir a'r adeiladau yn cynnwys gwerth £118 miliwn o dir sydd heb ei ddibrisio (2021: £118 miliwn).

Mae gwariant ar brosiectau cyfalaf yr aethpwyd iddynt ac a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn yn cael ei gydnabod mewn ychwanegiadau rhydd-ddaliadol yn hytrach na thrwy asedau yn ystod y cyfnod adeiladu.

## 12. Buddsoddiadau Anghyfredol

| | Cyfunol | | | Sefydliad | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Buddsoddiad mewn mentrau ar y cyd | Buddsoddiadau arall | Cyfanswm | Buddsoddiad ecwiti mewn mentrau ar y cyd | Buddsoddiadau arall | Cyfanswm |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Balans ar 1 Awst 2021 | 3,419 | 4,179 | 7,598 | 2,003 | 4,143 | 6,146 |
| Ychwanegiadau | - | 2,312 | 2,312 | - | 2,312 | 2,312 |
| Gwarediadau | - | (828) | (828) | - | (828) | (828) |
| Amhariad Buddsoddiadau | - | (6) | (6) | - | - | - |
| Cyfran o'r diffyg gweithredu mewn cyd-fentrau | 173 | | 173 | - | - | |
| **Balans ar 31 Gorffennaf 2022** | **3,592** | **5,657** | **9,249** | **2,003** | **5,627** | **7,630** |

Mae gan y Sefydliad fuddsoddiadau yn y canlynol:

**University College Cardiff Consultants Limited (UC3)**
Mae canlyniadau UC3, cwmni cyfyngedig drwy warant ac wedi'i gofrestru yn y DU, wedi'u cynnwys ar ôl eu cyfuno yn y wybodaeth ariannol. Prif weithgarwch y cwmni yw masnacheiddio eiddo deallusol ac allbynnau ymchwil eraill a gynhyrchir gan ysgolion academaidd y Sefydliad. Mae'r cwmni hefyd yn gyfrifol am fuddiannau'r Sefydliad drwy ddal cyfrannau mewn amryw o gwmnïau sydd wedi deillio o ymchwil a gweithrediadau eraill y Sefydliad.

**Compound Semiconductor Centre Limited**
Amharwyd yn llwyr ar gyfanswm buddsoddiad y Grŵp yn y fenter ar y cyd, gan gynnwys dyled benthyciad o £2 miliwn. Yn ogystal, mae'r Sefydliad yn cydnabod ei gyfran o rwymedigaeth net gyffredinol y fenter ar y cyd a datgelir hon o dan Ddarpariaethau Eraill yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol (gweler Nodyn 22). Lleihawyd cyfran y Sefydliad o'r rhwymedigaeth net yn ystod y flwyddyn o ganlyniad i'n cyfran o'r gwarged net yn y flwyddyn o £468,000.

**Medicentre Caerdydd**
Mae'r Sefydliad yn dal buddsoddiad o £2,003,000 (2021: 2,003,000), sy'n cynrychioli cyfranddaliad o 89% yn Medicentre Caerdydd gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn dal yr 11% sy'n weddill. Mae hyn yn dod â chyfanswm buddsoddiad y Grŵp ar ôl ei gyfran o wargedion weithredu i £3,592,000 (£3,419,000 yn 2021). Trinnir y buddiant hwn fel menter ar y cyd oherwydd y Sefydliad a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro sy'n ei gyd-reoli.

**Mobeus**
Gwnaeth y Sefydliad ymrwymiad gwreiddiol (yn 2016) i fuddsoddi £10 miliwn yng nghronfa Mobeus Equity Partners IV a £15 miliwn arall yng Nghronfa Mobeus Equity Partners V yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Mae'r ddwy gronfa'n cyfrannu at y gronfa ad-dalu bondiau ar gyfer ad-dalu'r cyfalaf bond o £400 miliwn ym mis Rhagfyr 2055.

Yn ystod y flwyddyn, roedd ychwanegiadau i gronfa IV yn £2,312,000, roedd £828,000 wedi'i waredu, a gwireddwyd cynnydd o £2,181,000 arno (elw gwaredu o £3,009,000) (2021: buddsoddwyd £538,000). Ar 31 Gorffennaf 2021, cedwir £5,551,000 (2020: £4,067,000) yn y gronfa fuddsoddi.

Ni wnaed unrhyw fuddsoddiad yn y Gronfa V yn ystod y flwyddyn, fodd bynnag, gwnaed buddsoddiad o £1.2 miliwn ar 12 Medi 2022.

Mae balansau arian parod a chyfwerth ag arian parod sy'n ymwneud â'r ddwy gronfa Mobeus yn cael eu cyfuno i ffurfio rhan o'r Gronfa Ad-dalu Bondiau (Nodyn 24).

**Cardiff Partnership Fund Limited**
Mae'r Sefydliad yn berchen ar gyfranddaliad o £76,000 (2021: £76,000) yn Cardiff Partnership Fund Limited, cwmni daliannol partneriaeth anghorfforedig Cardiff Partnership Fund Limited. Nid yw'r cwmni hwn wedi'i gydgrynhoi am nad yw'r Sefydliad yn rheoli'r gweithgareddau, y mae bwrdd annibynnol yn gyfrifol amdanynt.

**Partneriaeth SETsquared**
Ym mis Medi 2021, ymunodd y Sefydliad â'r SETsquared Partnership, sef rhwydwaith deorydd y Sefydliad.

## 12. Buddsoddiadau Anghyfredol (parhad)

**Rhaglen Cyfnewid Dysgu Rhyngwladol Gyfyngedig ("ILEP")**
Yn dilyn penderfyniad Llywodraeth y DU i dynnu'n ôl o gynllun Erasmus+, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gynllun dysgu newydd er mwyn i staff a myfyrwyr barhau i elwa ar gyfnewidfeydd rhyngwladol mewn ffordd debyg i Erasmus+, nid yn unig yn Ewrop ond hefyd ymhellach i ffwrdd. Bydd y cynllun yn rhedeg rhwng 2022 a 2026. Er mwyn bod yn gwbl agored, mae'r Sefydliad wedi cytuno i weithredu'r rhaglen ar ran Llywodraeth Cymru drwy is-gwmni y mae'r llywodraeth yn berchen arno'n llwyr.
Ymgorfforwyd ILEP ar 22 Mehefin 2021 a dechreuodd weithredu ar 1 Awst 2022.

## 13. Stociau

| | Cyfunol | | Sefydliad | |
|---|---|---|---|---|
| | 2022<br>£'000 | 2021<br>£'000 | 2022<br>£'000 | 2021<br>£'000 |
| Preswylfeydd ac Arlwyaeth | 86 | 83 | 86 | 83 |
| Cynnal a chadw | 107 | 101 | 107 | 101 |
| Adrannau Academaidd | 103 | 112 | 103 | 112 |
| | 296 | 296 | 296 | 296 |

## 14. Masnach a symiau derbyniadwy eraill

| | Cyfunol | | Sefydliad | |
|---|---|---|---|---|
| | 2022<br>£'000 | 2021<br>£'000 | 2022<br>£'000 | 2021<br>£'000 |
| **Symiau sy'n dod yn ddyledus o fewn un flwyddyn:** | | | | |
| Dyledwyr Masnach: | | | | |
| - Ffioedd dysgu | 4,745 | 6,345 | 4,745 | 6,345 |
| - Grantiau a Chytundebau Ymchwil | 11,201 | 6,624 | 11,201 | 6,624 |
| - Gwasanaethau Eraill | 6,283 | 4,851 | 6,036 | 4,568 |
| Yn llai: Darpariaeth ar gyfer amhariad Dyledwyr Masnach (i) | (5,571) | (5,798) | (5,571) | (5,762) |
| Dyledwyr Masnach Net | 16,658 | 12,022 | 16,411 | 11,775 |
| Dyledwyr Eraill | 1,639 | 1,019 | 1,639 | 1,019 |
| Swm sy'n ddyladwy o ymgymryd ag is-gwmni | - | - | 1,480 | 1,102 |
| Rhagdaliadau | 4,159 | 287 | 3,802 | 287 |
| Incwm Cronedig | | | | |
| - Grantiau a chytundebau ymchwil | 25,213 | 24,833 | 25,213 | 24,833 |
| - Incwm Arall | 12,576 | 8,633 | 12,576 | 8,633 |
| Cyfanswm Dyledwyr | 60,245 | 46,794 | 61,121 | 47,649 |

(i) Mae rhagor o wybodaeth am y dyfarniadau a'r amcangyfrifon mewn perthynas â'r amhariad i'w gweld yn Nodyn 1: Polisïau cyfrifyddu ar dudalen 45, "Adenilladwyedd dyledwyr".

## 15. Buddsoddiadau Cyfredol

**Cyfunol a Sefydliad**

| | Buddsoddiad au Gwaddol £'000 (Nodyn 23) | Buddsoddiad au eraill £'000 | 2022 Cyfanswm £'000 | 2021 Cyfanswm £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Buddsoddiad tymor byr mewn cyfrannau | - | 161,000 | 161,000 | 171,199 |
| Bondiau tymor byr | - | 68,446 | 68,446 | 67,782 |
| Buddsoddiadau tymor byr eraill | 43,715 | 36,075 | 79,790 | 74,320 |
| Blaendaliadau tymor byr | - | 55,815 | 55,815 | 12,291 |
| | 43,715 | 321,336 | 365,051 | 325,592 |

Y gostyngiad yng ngwerth teg y buddsoddiadau cyfredol yn ystod y flwyddyn oedd £10,922,000 (2021: cynnydd o £34,661,000).

Mae blaendaliadau'n cael eu cadw gan fanciau a chymdeithasau adeiladu sy'n gweithredu ym marchnad Llundain ac wedi'u trwyddedu gan yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol gyda mwy na thri mis o aeddfedrwydd ar ddyddiad y fantolen. Mae cyfraddau llog y blaendaliadau hyn wedi'u gosod am gyfnod y blaendal ar adeg y lleoliad.

Ar 31 Gorffennaf 2022, cyfradd llog gyfartalog wedi'i phwysoli'r adneuon tymor byr cyfradd sefydlog hyn oedd 1.54% (2021: 0.1%) y flwyddyn a'r cyfnod cyfartalog wedi'i bwysoli sy'n weddill y mae'r gyfradd llog yn sefydlog amdano ar yr adneuon hyn oedd 135 diwrnod (2021: 31 diwrnod). Nid oedd gwerth teg y blaendaliadau hyn yn wahanol i'r gwerth llyfr mewn gwirionedd.

## 16. Arian Parod a Chyfatebol i Arian Parod

| | Cyfunol | | Sefydliad | |
|---|---|---|---|---|
| | 2022 £'000 | 2021 £'000 | 2022 £'000 | 2021 £'000 |
| Cyfrifon banc gweithredol | 55,143 | 73,360 | 48,216 | 72,410 |
| Arian parod | 10 | 10 | 10 | 10 |
| Cronfeydd arian y farchnad | 24,468 | 55,383 | 24,468 | 55,383 |
| Cronfeydd arian parod a ddelir gan reolwyr cronfeydd buddsoddi | 14,889 | 17,707 | 14,889 | 17,707 |
| Cronfa arian parod a ddelir o fewn cronfeydd gwaddol | 1,855 | 2,127 | 1,855 | 2,127 |
| | 96,365 | 148,587 | 89,438 | 147,637 |

## 17. Credydwyr: symiau sy'n ddyledus ymhen blwyddyn

| | Cyfunol | | Sefydliad | |
|---|---|---|---|---|
| | 2022 £'000 | 2021 £'000 | 2022 £'000 | 2021 £'000 |
| Credydwyr masnach | 19,730 | 10,952 | 19,693 | 10,569 |
| Nawdd cymdeithasol a threthi eraill | 9,815 | 7,306 | 9,815 | 7,306 |
| Mân gredydwyr | 10,104 | 13,956 | 9,577 | 7,451 |
| Blaendaliadau | 142 | 235 | 142 | 235 |
| Croniad hawl absenoldeb gweithwyr (i) | 14,280 | 17,157 | 14,280 | 17,157 |
| Croniadau | 25,193 | 27,590 | 25,143 | 27,590 |
| Incwm gohiriedig (gweler isod) | 86,761 | 86,970 | 81,238 | 86,970 |
| Benthyciadau heb eu diogelu | 129 | 129 | 129 | 129 |
| Benthyciadau wedi'u diogelu | 2,603 | 2,413 | 2,603 | 2,413 |
| Symiau sy'n ddyledus i is-fentrau | - | - | - | 6,505 |
| | 168,757 | 166,708 | 162,620 | 166,325 |

**Incwm Gohiriedig**

Mae'r eitemau incwm canlynol wedi'u cynnwys gyda'r incwm gohiriedig, ac wedi'u gohirio hyd nes bod yr amodau ar sail perfformiad wedi'u bodloni.

| | 2022 £'000 | 2021 £'000 | 2022 £'000 | 2021 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Ffioedd Dysgu | 4,551 | 4,837 | 4,551 | 4,837 |
| Grantiau a chytundebau ymchwil | 47,518 | 50,133 | 47,518 | 50,133 |
| Incwm Arall | 33,240 | 23,775 | 27,717 | 23,775 |
| Incwm grant cyfalaf | 1,452 | 8,225 | 1,452 | 8,225 |
| | 86,762 | 86,970 | 81,238 | 86,970 |

(i) Mae'r Sefydliad wedi parhau i ymestyn ei bolisi i ganiatáu i staff gario hyd at ddeg diwrnod o hawl gwyliau ymlaen o ganlyniad i effaith barhaus pandemig COVID-19. Tynnwyd yn ôl amgylchiadau eithriadol y flwyddyn flaenorol a alluogodd staff gweithredol hanfodol i gario ymlaen hyd at ddeg diwrnod ychwanegol.

## 18. Credydwyr: symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn

| **Cyfunol a Sefydliad** | 2022 £'000 | 2021 £'000 |
|---|---|---|
| Incwm grantiau cyfalaf gohiriedig | - | 212 |
| Benthyciadau heb eu diogelu (i) | 1 | 130 |
| Benthyciad wedi'u diogelu | 3,134 | 5,737 |
| Bond Cyhoeddus (ii) | 293,956 | 293,831 |
| Tap Bond Cyhoeddus (iii) | 127,233 | 127,811 |
| Cyfanswm benthyciadau a dyledion hirdymor | 424,324 | 427,509 |
| | 424,324 | 427,721 |

| **Dadansoddiad o fenthyciadau sydd wedi a heb gael eu diogelu** | | |
|---|---|---|
| Yn ddyledus o fewn blwyddyn neu ar ofyn (Nodyn 17) | 2,732 | 2,542 |
| Yn ddyledus mewn rhwng dwy a phum mlynedd | 3,135 | 5,867 |
| Yn ddyledus mewn pum mlynedd neu fwy | 421,189 | 421,642 |
| Yn ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn | 424,324 | 427,509 |
| | 427,056 | 430,051 |

Mae'r canlynol wedi'u cynnwys mewn benthyciadau:

| Buddsoddwr | Tymor | Wedi diogelu / Heb ddiogelu | Cyfradd llog % | Benthyciwr | 2022 £'000 | 2021 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Llywodraeth Cymru (i) | 2023 | Heb eu diogelu | - | Sefydliad | 130 | 259 |
| Banc Lloyds/Scottish Widows(iv) | 2024 | Wedi diogelu | 8.853 | Sefydliad | 3,462 | 5,175 |
| Banc Brenhinol yr Alban (v) | 2025 | Wedi diogelu | Gweler isod | Sefydliad | 2,275 | 2,975 |
| | | | | | 5,867 | 8,409 |

(i) Daw'r benthyciad di-log gan Lywodraeth Cymru o'i chynllun Buddsoddi i Arbed ar gyfer pontio, cadw a llwyddiant myfyrwyr a chaiff ei ad-dalu'n llawn erbyn mis Tachwedd 2022.

(ii) Cyhoeddwyd bond cyhoeddus 39 mlynedd o £300 miliwn ym mis Chwefror 2016 ac mae'n ad-daladwy yn llawn ar 7 Rhagfyr 2055. Mae llog yn daladwy bob chwe mis ar gyfradd cwpon o 3.0% ar 7 Mehefin a 7 Rhagfyr bob blwyddyn. Y gyfradd llog yw 3.1%.

(iii) Cyhoeddwyd tap bondiau gwerth £100 miliwn ym mis Chwefror 2021 ar bremiwm ac mae'n ad-daladwy yn llawn ar 7 Rhagfyr 2055. Mae llog yn daladwy bob chwe mis ar gyfradd cwpon o 3.0% ar 7 Mehefin a 7 Rhagfyr bob blwyddyn. Y gyfradd llog effeithiol yw 1.9%.

(iv) Yn wreiddiol, rhoddodd Banc Lloyds £17 miliwn ar fenthyg i'r Sefydliad i ariannu cost preswylfeydd myfyrwyr. Mae'r benthyciad wedi'i warantu ar eiddo De Tal-y-bont ac i'w ad-dalu erbyn 28 Chwefror 2024 ar ddull lleihau'r gweddill fel a ganlyn. Yn 2013, trosglwyddodd Banc Lloyds rai hawliau o'r benthyciad i Scottish Widows (rhan o Grŵp Bancio Lloyds); fodd bynnag, mae Banc Lloyds yn gweithredu ar ran Scottish Widows fel darparwr gwasanaeth.

(v) Yn wreiddiol, rhoddodd Banc Brenhinol yr Alban £14 miliwn ar fenthyg i'r Sefydliad i ariannu cost Llys Tal-y-bont. Mae'r benthyciad wedi'i warantu ar Lys Tal-y-bont ac i'w ad-dalu erbyn 1 Hydref 2025 drwy gyfrwng rhandaliadau cyfartal o £0.7m y flwyddyn. Mae llog yn daladwy ar y benthyciad ar 0.225% uwchlaw'r Gyfradd Sylfaenol.

(vi) Ym mis Gorffennaf 2021, cymerodd y Sefydliad Gyfleuster Credyd Cylchol tair blynedd heb ei warantu gyda Banc Lloyds am £20 miliwn dros dair blynedd. Ar 31 Gorffennaf 2022, nid oedd y cyfleuster wedi cael ei ddefnyddio.

## 19. Cysoni Dyled Net Sefydliad Cyfunol a Sefydliadol

| | Cyfunol | Sefydliad |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Dyled net 1 Awst 2021 | 281,464 | 282,414 |
| Symudiad mewn arian parod a chyfatebol i arian parod | 52,222 | 58,199 |
| Ad-dalu benthyciadau wedi'u diogelu | (2,413) | (2,413) |
| Ad-dalu benthyciadau heb eu diogelu | (129) | (129) |
| Newidiadau eraill heblaw arian parod (llog bondiau) | (453) | (453) |
| Dyled Net 31 Gorffennaf 2022 | 330,691 | 337,618 |
| Newid yn y ddyled net | 49,227 | 55,204 |

| **Dadansoddiad o ddyled net** | **Cyfunol** | | **Sefydliad** | |
|---|---|---|---|---|
| | 2022<br>£'000 | 2021<br>£'000 | 2022<br>£'000 | 2021<br>£'000 |
| **Benthyciadau: symiau sy'n ddyledus ymhen blwyddyn** | | | | |
| Benthyciadau wedi'u diogelu | 2,603 | 2,413 | 2,603 | 2,413 |
| Benthyciadau heb eu diogelu | 129 | 129 | 129 | 129 |
| (Nodyn 17) | 2,732 | 2,542 | 2,732 | 2,542 |
| **Benthyciadau: symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn** | | | | |
| Benthyciadau wedi'u diogelu | 3,134 | 5,737 | 3,134 | 5,737 |
| Benthyciadau heb eu diogelu | 1 | 130 | 1 | 130 |
| Bond cyhoeddus | 293,956 | 293,831 | 293,956 | 293,831 |
| Tap Bond Cyhoeddus | 127,233 | 127,811 | 127,233 | 127,811 |
| (Nodyn 18) | 424,324 | 427,509 | 424,324 | 427,509 |
| Yn llai: Arian parod a chyfatebol i arian parod (Nodyn 16) | (96,365) | (148,587) | (89,438) | (147,637) |
| Dyled net | 330,691 | 281,464 | 337,618 | 282,414 |

## 20. Offerynnau Ariannol

Mae gan y Sefydliad yr offerynnau ariannol canlynol sydd i gyd yn seiliedig ar bunnoedd sterling:

| | Nodyn | Cyfunol 2022 £'000 | Cyfunol 2021 £'000 | Sefydliad 2022 £'000 | Sefydliad 2021 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Asedau ariannol ar werth teg drwy fuddsoddiadau gwarged neu ddiffyg mewn ecwiti a bondiau wedi'u rhestru. | 15 | 309,236 | 313,301 | 309,236 | 313,301 |
| | | 309,236 | 313,301 | 309,236 | 313,301 |
